



Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng ghymru a Lloegr

Adroddiad ar weinyddiaeth yr etholiadau a
gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2012

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2013

Cynnwys

Rhagair	4
1 Crynodeb	6
2 Deddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau	19
3 Cyfranogiad pleidleiswyr	32
4 Cyfranogiad gan ymgeiswyr ac ymgyrchwyr	60
5 Ymddiriedaeth yng nghyflenwad yr etholiadau	71
6 Dim dylanwad gormodol	89
Atodiadau	
Atodiad A: Methodoleg ymchwil	92
Atodiad B: Cyfuniad gydag Etholiad Cyffredinol Cymru Mai 2016	94
Atodiad C: fymhleidlaisi.co.uk	96

Rhagair

Mae'r etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf wedi ysgogi llawer o ddadlau. Ar y pryd y mater proffil uchaf oedd y nifer a bleidleisiodd. Dywedais bryd hynny y buasem, fel rhan o'n hadroddiad ar sut y cafodd yr etholiadau CHTh eu sefydlu a'u rhedeg, yn edrych ar fater nifer a bleidleisiodd, ac rydym wedi gwneud hynny. Ond tra mai nifer y pleidleiswyr oedd y mater mwyaf gweladwy, mae gwersi eraill i'w dysgu o'r etholiadau CHTh ynglŷn â'r ffordd y mae etholiadau'n cael eu rhedeg, ac yn benodol yr hyn sydd angen ei wneud os oes cynlluniau i gyflwyno mwy o etholiadau newydd neu i greu swyddi cyhoeddus newydd yr etholir iddynt.

Y wers bwysicaf yw na all y Llywodraeth gymryd yn ganiataol bod cynnal etholiad yn ddigon ynddo'i hun i ysbrydoli cyfranogiad. Mae'n rhaid i bobl wybod dros beth maent yn pleidleisio, a deall yr hyn y gallai ymgeiswyr gwahanol ei gynnig, er mwyn cymryd rhan. Ac i wneud yn siŵr bod pleidleiswyr yn gallu chwarae eu rhan yn hawdd, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am redeg yr etholiadau fod yn eglur ddigon pell ymlaen llaw cyn diwrnod yr etholiad i ganiatáu ar gyfer cynllunio priodol. Mae'r deddfwriaeth ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi methu â chyflawni ar y ddau bwynt hwn.

Fel y dywedais fis Tachwedd diwethaf, mae'r ffaith bod y nifer a bleidleisiodd yn isel iawn - sef 15.1% yn unig – yn gorfod bod yn bryder i unrhyw un sy'n pryderu am ddemocratiaeth. Roedd nifer o ffactorau ar waith yma: trafodwyd sawl tro'r ddadl ynghylch yr etholiadau hyn yn rhai newydd, a oedd yn digwydd ar adeg anghyfarwydd o'r flwyddyn. Ond mae'r penderfyniad a wnaed i gyfyngu ar y gefnogaeth gyhoeddus i ymgeiswyr gyfleu gwybodaeth amdanynt eu hunain i bleidleiswyr, gyda'r wybodaeth am ymgeiswyr wedi ei darparu'n bennaf drwy wefan, yn gamgymeriad. Nododd pum gwaith mwy o'r rhai nad oeddynt wedi pleidleisio yn yr etholiadau CHTh mai diffyg gwybodaeth oedd y rheswm, o'i gymharu â'r rhai na wnaeth bleidleisio yn yr etholiadau lleol ym Mai 2012.

Efallai na fydd gwybodaeth pleidleiswyr o'r math hwn yn broblem pan fydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn cael eu hethol nesaf. Mae'r nifer sy'n pleidleisio yn y set nesaf o etholiadau yn debygol o fod yn uwch, yn rhannol oherwydd y bydd yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau nesaf yn digwydd ochr yn ochr ag etholiadau mwy cyfarwydd. Ond rydym yn gwybod bod dibynnu ar bobl i chwilio am wybodaeth ar-lein neu archebu copïau wedi'u hargraffu wedi golygu mai ychydig iawn o bobl oedd yn gwybod pwy oedd eu hymgeiswyr mis Tachwedd diwethaf. Nid oes unrhyw reswm i gredu y bydd hyn yn wahanol yn y dyfodol. Yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2016, mae angen anfon llyfryn gwybodaeth ymgeiswyr i bob cartref yn yr ardaloedd lle mae etholiadau.

Dim ond un agwedd yn unig oedd hyn o sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r etholiadau hyn - neu yn wir unrhyw etholiadau - yn addas i'r diben. Roedd yn iawn fod y Swyddfa Gartref â chyfrifoldeb polisi ar gyfer yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Ond nid oes gan y Swyddfa Gartref yr arbenigedd angenrheidiol i osod y fframwaith cyfreithiol manwl yn ei le ar gyfer cynnal etholiadau. O ganlyniad, cafodd rhai o'r rheolau eu cadarnhau yn rhy hwyr, a

achosodd ddryswch neu ddiffyg sicrwydd i ymgeiswyr a gweinyddwyr etholiadol. Mae hyn yn annerbyniol. Erys yr arbenigedd hwn gyda Swyddfa'r Cabinet, a dylent fod wedi chwarae mwy o rôl. Mae'n rhaid i'r wers gael ei dysgu ar gyfer etholiadau a refferenda i'r dyfodol.

Yn olaf, roedd yn amlwg fod nifer o heriau i'r rhai a oedd yn rhedeg yr etholiadau hyn. Cafodd yr etholiadau eu rhedeg yn dda. Dylai Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol gael eu llongyfarch am eu gwaith yn cynnal etholiadau newydd yn effeithiol gyda deddfwriaeth newydd a chanllawiau newydd, llawer ohonynt wedi'u darparu yn hwyr yn y dydd. Ond ni all yr un ohonom fforddio bod yn hunanfodlon. Roedd materion ynghylch y modd y cafodd rhai cyfrifiadau eu rhedeg, a pha mor hir a gymerwyd i'w gwneud. Fis Tachwedd diwethaf, roedd cyfartaledd y ganran a bleidleisiodd mor isel â 15.1%. Gyda nifer uwch o bleidleiswyr, mae'n bosibl y byddem wedi gweld nifer o gyfrifiadau'n rhedeg i mewn i nos Wener. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd y tro nesaf.

Jenny Watson

Cadeirydd

1 Crynodeb

Ynglŷn â'r adroddiad hwn a'n rôl ni

1.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio pleidiau gwleidyddol ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda. Rydym yn rhoi pleidleiswyr yn gyntaf drwy weithio i gefnogi democratiaeth iach, lle mae etholiadau a refferenda yn seiliedig ar ein hegwyddorion o ymddiriedaeth, cyfranogiad, a dim dylanwad gormodol. Rydym yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein hasesiad o ba mor dda y cafodd yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (CHTh) cyntaf erioed a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2012 ar draws Lloegr (heblaw Llundain) a Chymru, eu rhedeg, a pha mor dda y sefydlwyd y fframwaith ar gyfer yr etholiadau CHTh newydd. Mae'n cynnwys asesiad o dri isetholiad Seneddol y DU yng Nghanol Manceinion, Corby a Chaerdydd, etholiad maer lleol ym Mryste, a refferendwm lleol yn Hartlepool i benderfynu a ddylid cadw'r strwythur i ethol maer yn uniongyrchol, a gynhaliwyd hefyd ar 15 Tachwedd.

1.3 Mae ein dadansoddiad yn adlewyrchu profiad pleidleiswyr, yn seiliedig ar ymchwil barn gyhoeddus a data etholiadol a ddarparwyd gan Swyddogion Canlyniadau Lleol (LROs), yn ogystal ag adborth a barn am weinyddiaeth yr etholiad gan ymgeiswyr ac asiantau, y rhai oedd yn gyfrifol am ddarparu'r bleidlais, a chyfranogwyr eraill.

Cefndir yr etholiadau

1.4 Yn dilyn yr etholiad cyffredinol Senedd y DU ym Mai 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei rhaglen ar gyfer llywodraeth, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i 'gyflwyno mesurau i wneud yr heddlu'n fwy atebol drwy oruchwyliaeth gan unigolyn wedi'i ethol yn uniongyrchol, a fydd yn destun gwiriadau a balansau llym gan gynrychiolwyr a etholwyd yn lleol'¹. Fel yr adran arweiniol ar gyfer plismona, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Bapur Gwyn, *Plismona yn yr 21ain Ganrif: Ailgyssylltu'r heddlu a'r bobl*, ar gyfer ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2010.

1.5 Cyflwynwyd y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSR) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010. Roedd y Mesur PRSR yn darparu ar gyfer ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i ddisodli awdurdodau'r heddlu mewn 41 o ardaloedd heddlu yng Nghymru a Lloegr o fis Mai 2012.

1.6 Mae'r 41 o ardaloedd heddlu yng Nghymru a Lloegr yn amrywio'n fawr o ran maint a phoblogaeth, o Fanceinion Fwyaf gyda dwy filiwn o etholwyr i Heddlu Dyfed Powys sydd â llai na 400,000.

¹ Y Glymblaid: ein rhaglen ar gyfer llywodraeth; Swyddfa'r Cabinet, tudalen 13
http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/coalition_programme_for_government.pdf

1.7 Ym mis Medi 2011, yn ystod ei hynt drwy'r Senedd, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Mesur i newid dyddiad etholiadau cyntaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o 3 Mai 2012 i 15 Tachwedd 2012. Derbyniodd y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Gydsyniad Brenhinol ar 15 Medi 2011.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Deddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau

1.8 Roedd y rheolau manwl ar gyfer yr etholiadau CHTh ar 15 Tachwedd 2012 wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd. Er gwaethaf cydnabyddiaeth gan Lywodraeth y DU o bwysigrwydd sicrhau bod y rheolau manwl yn glir o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio, ni osodwyd rhai darnau allweddol o ddeddfwriaeth tan lawer yn ddiweddarach:

- Cafodd y Gorchymyn yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal yr etholiadau ei osod yn Senedd y DU ar 15 Mai 2012 a daeth i rym ar 25 Gorffennaf, ychydig dros **ddeng wythnos cyn dechrau cyfnod yr etholiad.**
- Cafodd y Gorchymyn yn nodi'r uchafsymiau a oedd ar gael i Swyddogion Canlyniadau (Swyddogion Canlyniadau) ar gyfer adennill costau am eu gwasanaethau a rhedeg yr etholiad ei wneud ar 12 Medi 2012 a daeth i rym y diwrnod wedyn, dim ond **3 wythnos a hanner cyn dechrau cyfnod yr etholiad.**
- Cafodd Gorchymyn 2012 yn nodi papur pleidleisio dwyieithog i'w defnyddio ar gyfer etholiadau CHTh yng Nghymru ei osod yn Senedd y DU ar 29 Hydref 2012, a daeth i rym ar 31 Hydref, dim ond **14 diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.**²

Cyfranogiad yn yr etholiadau

1.9 Ychydig dros 36 miliwn o bobl oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012. Cafodd cyfanswm o 5.49m o bleidleisiau eu bwrw yn yr etholiadau hyn, yn cynrychioli canran pleidleiswyr o ddim ond 15.1% - y lefel isaf a gofnodwyd o ran cyfranogiad mewn etholiad heb fod yn un llywodraeth leol yn y DU yn ystod cyfnod o heddwch.

1.10 Roedd y ganran a bleidleisiodd yn y tri isetholiad Seneddol y DU yn amrywio rhwng 18.3% yn etholaeth Canol Manceinion ac 44.8% yn etholaeth Corby.

1.11 Roedd y ganran a bleidleisiodd yn yr etholiad maer cyntaf ym Mryste yn 27.9%, ac yn y refferendwm llywodraeth leol yn Hartlepool roedd y ganran a bleidleisiodd yn 18%.

² Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012; Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Cyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu) 2012; Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Ffurflenni Cymraeg) 2012.

1.12 Anfonwyd mwy na 5.8 miliwn o bleidleisiau post ar gyfer yr etholiadau CHTh - 16.1% o'r etholaeth gymwys. Dychwelwyd tua 2.8 miliwn o bleidleisiau drwy'r post ar gyfer yr etholiadau CHTh. Roedd y pleidleisiau post yn cyfrif am 48.9% o'r holl bleidleisiau a gafodd eu cyfrif, a chafodd 51% o bleidleisiau eu bwrw gan bleidleiswyr neu ddirprwyon penodedig mewn gorsafoedd pleidleisio.

1.13 Ychydig o dan 50% o etholwyr a dderbyniodd bleidlais drwy'r post a'i dychwelodd. Dim ond 9.2% o bleidleiswyr 'personol' a ddefnyddiodd eu pleidlais.

1.14 Enwebwyd a safodd 191 o ymgeiswyr am etholiad i'r 41 o swyddi CHTh. Yn ogystal, safodd 34 ymgeisydd yn y tri isetholiad Seneddol y DU, ac 15 o ymgeiswyr yn yr etholiad maerol ym Mryste.

1.15 Cafodd 38 o'r 41 etholiadau CHTh Tachwedd 2012 eu cynnal gan ddefnyddio'r system etholiadol Pleidlais Atodol, ac o'r rheiny, daeth pump i ben heb orfod symud ymlaen i ail rownd oherwydd bod yr ymgeisydd buddugol wedi derbyn mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf dilys a fwriwyd. Cynhaliwyd tri etholiad CHTh gan ddefnyddio'r system etholiadol cyntaf-i'r-felin, gan mai dim ond dau ymgeisydd oedd yn sefyll.

Pam nad oedd pobl yn pleidleisio

1.16 Y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â phleidleisio yn etholiadau CHTh oedd diffyg ymwybyddiaeth (37%), yn bennaf diffyg gwybodaeth am yr etholiadau, a ddim yn gwybod pwy oedd yr ymgeiswyr neu ble i ddod o hyd i wybodaeth amdanynt. Roedd y ffigwr hwn dros bum gwaith yn fwy na'r gyfran nad oeddynt wedi pleidleisio a roddodd ymateb tebyg yn dilyn etholiadau lleol Mai 2012 (7%).

1.17 Dywedodd dros chwarter (28%) o bobl nad oeddynt yn gwybod 'dim o gwbl' a 48% yn gwybod 'fawr ddim' am ddiben yr etholiadau CHTh. Dim ond 24% a ddywedodd eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn' am yr etholiadau CHTh.

1.18 Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y diffyg gwybodaeth am yr etholiadau ac ymgeiswyr wedi cael effaith fwy sylweddol ar gyfranogiad ymhlith grwpiau sy'n draddodiadol yn fwy tebygol o bleidleisio mewn etholiadau.

1.19 'Amgylchiadau' oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan atebwyr dros beidio â throi allan i bleidleisio (31%), gyda phobl nad oeddynt wedi pleidleisio yn Lloegr yn fwy tebygol o nodi hyn fel rheswm na'r rhai yng Nghymru (32% o'i gymharu â 20% yng Nghymru). Roedd cyfran y rhai nad oeddynt wedi pleidleisio ym mis Tachwedd 2012 a nododd resymau amgylchiadol dros beidio â phleidleisio gryn dipyn yn llai na'r gyfran a nododd hyn fel rheswm yn dilyn etholiadau Mai 2012 (53%).

Profiad pobl o bleidleisio

1.20 Roedd pleidleiswyr yn parhau i adrodd ynghylch lefelau uchel o foddhad â'r broses o fwrw eu pleidlais. Roedd pleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio a phleidleiswyr drwy'r post yn parhau'n gadarnhaol ynglŷn â'u profiad. Roedd bron yr holl bleidleiswyr gorsaf bleidleisio yn fodlon ar eu profiad (94%) a 96% yn dweud ei bod

yn ffordd gyfleus o bleidleisio. Yn yr un modd, roedd 97% o bleidleiswyr drwy'r post yn fodlon gyda phleidleisio yn y ffordd hon, ac roedd cyfran debyg (96%) hefyd yn dweud ei bod yn ffordd gyfleus o fwrw eu pleidlais.

1.21 Dywedodd 94% o'r rhai a bleidleisiodd yn yr etholiad CHTh eu bod wedi cael y papur pleidleisio yn hawdd i'w gwblhau, gyda 77% wedi ei chael yn hawdd iawn. Hefyd dengys ein gwaith ymchwil bod pleidleiswyr wedi deall sut i gwblhau eu papurau pleidleisio yn yr etholiad maerol ym Mryste a'r refferendwm lleol yn Hartlepool.

1.22 Gwrthodwyd 155,883 o bapurau pleidleisio CHTh yn ystod y cam cyntaf o'r cyfrif - 2.8% o'r holl bleidleisiau a fwrwyd. Er fod hynny'n uwch nag etholiadau diweddar a oedd yn defnyddio'r system etholiadol y cyntaf-i'r-felin, mae'r ffigur hwn yn debyg i etholiadau eraill a gynhaliwyd o dan y system Bleidlais Atodol (SV).

1.23 Roedd y gyfran o bapurau pleidleisio a wrthodwyd ar gam dewis cyntaf y cyfrif yn amrywio o 1.7% yng Nglannau Humber i 7.2% yng Ngogledd Swydd Efrog. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ymgeiswyr, Swyddogion Canlyniadau Lleol a sylwedyddion yn awgrymu bod cyfran sylweddol o bapurau pleidleisio a wrthodwyd wedi cael eu difetha'n fwiadol gan etholwyr a oedd eisiau cofrestru eu pryderon am yr etholiadau, er na fu'n bosibl mesur i ba raddau y digwyddodd y math hwn o beth drwy'r data etholiadol sydd ar gael.

1.24 Ceir manylion llawn am ein canfyddiadau ymchwil ar ein gwefan.

Gwybodaeth i bleidleiswyr

1.25 Roedd yr etholiadau CHTh yn etholiadau newydd, ar gyfer rôl newydd, a chawsant eu cynnal ar adeg anghyfarwydd o flwyddyn ac fe'i cynhaliwyd gan ddefnyddio'r system Bleidlais Atodol, nad oedd llawer o bleidleiswyr yn gyfarwydd â hi. Felly, roedd yn bwysig bod pleidleiswyr wedi cael digon o wybodaeth am y system bleidleisio, y materion, a'r ymgeiswyr oedd yn sefyll, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus a gallu cymryd rhan yn hyderus.

1.26 Rhedodd y Comisiwn ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i wneud pobl yn ymwybodol o'r etholiadau ac esbonio sut i gymryd rhan ynddynt. Roedd hyn yn cynnwys anfon llyfryn gwybodaeth i bob cartref mewn ardaloedd lle'r oedd etholiadau yn cymryd lle, yn cynnwys gwybodaeth am ddyddiad yr etholiadau, y testun, a sut i lenwi'r papur pleidleisio Pleidlais Atodol.

1.27 Tra bod y wybodaeth hon yn bwysig i bleidleiswyr, y pleidiau a'r ymgeiswyr eu hunain sy'n rhoi rheswm i bobl bleidleisio; prin yw'r dystiolaeth bod ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn unig – p'un a ydynt yn cael eu rhedeg gan y Llywodraeth, y Comisiwn neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol - yn rhoi cymhelliant i bleidleisio i bleidleiswyr.

1.28 Yn y rhan fwyaf o etholiadau eraill sydd ag etholaethau daearyddol mawr,³ byddai ymgeiswyr yn cael ffordd o godi ymwybyddiaeth ymysg yr holl bleidleiswyr eu bod yn sefyll ar gyfer etholiad, i gyfleu eu polisiau ac i annog pobl i bleidleisio. Mae hyn wedi cymryd ffurf ymgyrch bostio am ddim (e.e. etholiad cyffredinol y DU) neu lyfryn gydag anerchiad gan bob ymgeisydd (e.e. etholiadau maerol). Fodd bynnag, cymerodd Llywodraeth y DU benderfyniad i beidio â rhoi'r cyfle hwn i ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau CHTh, ac yn lle hynny dewisodd adeiladu gwefan ganolog a oedd yn cynnwys gwybodaeth gan ymgeiswyr a llinell ffôn y gallai'r cyhoedd ei defnyddio i archebu deunydd printiedig.

Crynodeb o'r casgliadau

Deddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau

1.29 Er fod y Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2011, mwy na blwyddyn cyn yr etholiadau, nid oedd y ddeddfwriaeth eilaidd fanwl yn ei lle tan yn llawer nes at y diwrnod pleidleisio.

1.30 Nid oedd unrhyw reswm pam nad oedd y Llywodraeth wedi gallu osgoi cadarnhad hwyr o'r fath o'r fframwaith manwl ar gyfer cynnal yr etholiadau CHTh. Ffurfiwyd y ddeddfwriaeth gan ddefnyddio deddfwriaeth bresennol, a oedd yn gofyn am newidiadau cymharol syml i adlewyrchu gofynion penodol ar gyfer yr etholiadau CHTh. Mae angen gwell cynllunio, a dull mwy cydweithredol o ddatblygu deddfwriaeth ar draws adrannau'r Llywodraeth (a rhyngddynt), a mwy o eglurder ynglŷn â nodau polisi i gefnogi darpariaeth fwy effeithiol ac amserol o ddeddfwriaeth ar gyfer etholiadau i'r dyfodol.

1.31 Rydym yn bwriadu dychwelyd at y materion hyn yn fanylach er mwyn llywio'r broses gynllunio ar ôl mis Mai 2014 ac i wneud yn gyhoeddus ein hasesiad o gyflwr parodwydd ar gyfer cyfuno, mewn pryd ar gyfer etholiadau yn 2016.

Cyfranogiad gan bleidleiswyr

1.32 Y lefel a ddisgwylid i gymryd rhan yn etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012 oedd un o'r materion mwyaf amlwg i gynrychiolwyr etholedig a sylwebwyr y cyfryngau yn ystod y misoedd yn arwain at y diwrnod pleidleisio, ac roedd y nifer isel hanesyddol o ddim ond 15.1% yn bryder i bawb sy'n poeni am ddemocratiaeth. Mae'n bwysig defnyddio'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael o'r etholiadau hyn i ddeall pam fod cyfranogiad mor isel, er mwyn gallu dynodi p'un a allai newidiadau i bolisi a dull cyflwyno helpu i wella cyfranogiad mewn etholiadau i'r dyfodol.

1.33 Ni ddylai'r Llywodraeth gymryd yn ganiataol y bydd pobl yn awtomatig yn teimlo y gallant gymryd rhan mewn etholiadau newydd. Y diffyg canfyddedig o wybodaeth am y cystadlaethau a'r ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau hyn oedd y prif reswm pam yr oedd pobl yn dweud nad oeddent wedi pleidleisio. Yn benodol, dim

³ Cyfleusterau bostio rhadbost neu lyfrynau yn cael eu darparu i ymgeiswyr mewn etholiadau i Senedd y DU, Senedd Ewrop, Maer Llundain, a Chynulliad Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol yng Ngogledd Iwerddon

ond 22% o bobl a ddywedodd fod ganddynt ddigon o wybodaeth am yr ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad gwybodus.

1.34 Nid ydym yn credu bod anghenion gwybodaeth pleidleiswyr yn yr etholiadau hyn wedi cael eu hystyried yn ddigonol wrth benderfynu a ddylid neu sut i gefnogi darparu gwybodaeth ymgeiswyr yn uniongyrchol i etholwyr neu aelwydydd. Er na fyddai darpariaeth well o wybodaeth am ymgeiswyr ynddo'i hun yn ddigon i wella nifer y pleidleiswyr, byddai'n ymdrin â'r lefelau annerbyniol o isel o wybodaeth/ymwybyddiaeth ac yn darparu gwell sail ar gyfer annog cyfranogiad mewn etholiadau i'r dyfodol.

1.35 Mae'r casgliad hwn yn awgrymu rhai goblygiadau sylweddol ar gyfer rheoli a chyflwyno'r holl etholiadau newydd a gynigir yn y dyfodol. Dylai penderfyniadau am wybodaeth i bleidleiswyr mewn etholiadau newydd gael eu cefnogi gan ddadansoddiad llawer mwy trylwyr gan lywodraethau o ba fath o wybodaeth sydd ei hangen gan bobl i gymryd rhan a gwneud dewis gwybodus, a sut y dylent allu cael gafael ar y wybodaeth honno.

1.36 Bydd angen i Lywodraeth y DU ddechrau cynllunio nawr i gynnal dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer darparu gwybodaeth cyn etholiadau CHTh 2016. Mae gennym set gyfoethog o ddata o'r etholiadau hyn am farn ac anghenion etholwyr, sydd ar gael i hysbysu'r dadansoddiad hwnnw. Hefyd mae angen i unrhyw gynigion ar gyfer etholiadau newydd - gan gynnwys refferenda – gael eu cefnogi gan ddadansoddiad cadarn o anghenion gwybodaeth y pleidleiswyr.

1.37 Mae data etholiadol a'n hymchwil gyda phleidleiswyr yn dangos bod y rheiny sydd fel arfer yn pleidleisio wedi cael y system etholiadol pleidlais atodol a phapur pleidleisio ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn hawdd i'w defnyddio a'u cwblhau heb wneud camgymeriadau. Er fod cyfraddau'r papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cam dewis cyntaf o fewn yr ystod a gofnodwyd mewn etholiadau eraill yn y DU sy'n defnyddio systemau pleidleisio blaenoriaeth⁴, roeddynt yn uwch nag ar gyfer etholiadau a oedd yn defnyddio'r system etholiadol cyntaf-i'r-felin.

1.38 Mae'r nifer a chyfran y papurau pleidleisio na chawsant eu cynnwys yn y cyfrif yn awgrymu fodd bynnag bod lle'n dal i fod ar gyfer gwneud gwelliannau pellach i'r dyluniad a'r geiriad a ddefnyddir ar bapurau pleidleisio, er mwyn lleihau'r risg o etholwyr yn difetha eu papur pleidleisio yn anfwriadol.

Cyfranogiad gan ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

1.39 Roedd llawer o'r rheolau ar gyfer cymhwyster ac enwebu ymgeiswyr yn yr etholiadau CHTh yn sylweddol wahanol i'r rhai sydd yn eu lle ar gyfer etholiadau eraill yn y DU. Nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi deall rhai o'r gwahaniaethau hyn - yn enwedig y rheolau gwaharddiad llymach ar gyfer pobl sydd ag euogfarnau penodol blaenorol - gan arwain at ddryswch ac mewn un achos a gafodd gryn gyhoeddusrwydd, ymgeisydd yn aros ar y papur pleidleisio er gwaethaf cydnabod ei waharddiad.

⁴ Gan gynnwys y system Bleidlais Atodol a systemau Pleidlais Sengl Drosaglwyddadwy.

1.40 Mae'r Comisiwn wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sefyll etholiad yn y DU. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn cymryd i ystyriaeth farn a phrofiad ymgeiswyr yn yr etholiadau CHTh cyntaf ym mis Tachwedd 2012. Bydd ein hadolygiad yn ystyried unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cyflwyno'u hunain fel ymgeiswyr ar gyfer etholiad, ac a oes unrhyw rwystrau diangen y gellid eu dileu. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cymwysterau, gwaharddiadau a'r gofynion ar gyfer cael enwebiad fel ymgeisydd, yn ogystal â'r manteision a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr unwaith y cânt eu henwebu. Rydym yn disgwyl cyhoeddi unrhyw argymhellion ar gyfer newid deddfwriaethol erbyn diwedd 2013.

1.41 Fodd bynnag, mae un mater penodol sydd raid ymdrin ag ef cyn yr etholiadau CHTh nesaf ym mis Mai 2016. Mae angen i'r Comisiwn, pleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau a Llywodraeth y DU ddysgu gwersi am y ffordd orau i sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn deall y rheolau ynghylch cymhwyster i sefyll fel ymgeiswyr. Er fod y prif gyfrifoldeb dros sicrhau fod ymgeiswyr unigol yn deall p'un a ydynt yn gymwys neu'n anghymwys i sefyll yn parhau i aros gyda hwy a'u hasiantau etholiad, mae'n amlwg bod nifer fechan ond sylweddol o bobl wedi methu â chael mynediad at gyngor cywir ynghylch a oedd y gwaharddiad sy'n ymwneud â cholffarnau am droseddau carcharol yn berthnasol i'w hamgylchiadau penodol.

Ymddiriedaeth mewn cyflenwi'r etholiadau

1.42 Ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, dynododd Llywodraeth y DU 41 o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu (PAROs) drwy Orchymyn Seneddol, y byddai eu rôl yn un o gyd-drefnu'r gwaith o weinyddu'r etholiad ar draws pob ardal heddlu, yn ogystal â gwasanaethu fel y Swyddog Canlyniadau Lleol yn eu hawdurdod eu hunain (gweler tudalen 73).

1.43 Roedd y strwythur rheoli statudol hwn yn wahanol i'r strwythurau rhanbarthol ledled y DU a oedd ar waith ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop a Refferendwm mis Mai 2011 ar y system bleidleisio i etholiadau seneddol y DU, a hefyd i'r strwythur rhanbarthol a ddefnyddir ar gyfer etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.44 I'r rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau, yn enwedig yn Lloegr, roedd cydlynu a rheoli ffurfiol ar lefel isranbarthol yn brofiad newydd. Serch hynny, ein hasesiad yw bod y strwythur hwn yn gyffredinol wedi gweithio'n dda ar gyfer yr etholiadau hyn, ac mae Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn fel ei gilydd wedi dysgu o'r profiad o etholiadau 2012 i wella rheoli a chydlynu ar gyfer etholiadau Mai 2016. Mae angen i Lywodraeth y DU hefyd sicrhau ei bod yn dysgu gwersi am ei rôl a'i dull.

1.45 Mewn dwy ardal heddlu, roedd newidiadau annisgwyl ym mhersonél rheoli awdurdod lleol yn golygu nad oedd y PARO bellach yn gallu cyflawni'r rôl. Yn y ddau achos, gweithredodd y PARO o awdurdod gwahanol i'r tîm gwasanaethau etholiadol PARO. Er fod y newidiadau yn sicr o olygu rhywfaint o risg i gyflwyniad llwyddiannus etholiadau yn yr ardaloedd hynny, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith negyddol sylweddol ar weinyddu'r etholiadau y gellir ei briodoli, yn unig neu yn rhannol, i'r newid yn y strwythur rheoli.

1.46 Ar y cyfan, yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, ein hasesiad yw bod agweddau gweinyddol yr etholiadau hyn wedi rhedeg yn dda. Mae ymchwil a wnaed gyda'r cyhoedd hefyd yn dangos lefelau uchel o foddhad gyda gweinyddiad yr etholiadau. O ystyried y pryderon proffil uchel am y ddarpariaeth o wybodaeth am yr etholiadau a'r ymgeiswyr a drafodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig ailadrodd nad oedd Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu eu hunain yn gyfrifol am yr agweddau hynny ar yr etholiadau.

1.47 Serch hynny, rydym wedi nodi dwy agwedd benodol o weinyddu'r etholiadau y mae angen eu hadolygu yn fanylach er mwyn nodi gwelliannau ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae angen i bleidleiswyr drwy'r post gael y cyfarwyddiadau cywir ar gyfer marcio eu papurau pleidleisio yn seiliedig ar y system bleidleisio a ddefnyddir yn eu hardal heddlu (cyntaf-i'r-felin neu bleidlais atodol). Yn ail, dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu adolygu a gwerthuso eu cynlluniau ar gyfer rheoli'r dilysu a chyfrif pleidleisiau i nodi gwelliannau effeithlonrwydd cyn yr etholiadau CHTh nesaf.

1.48 Cymerodd nifer o gyfrifiadau lawer mwy o amser na'r disgwyl i'w cwblhau. Fodd bynnag, gall y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau Mai 2016 fod yn uwch nag ym mis Tachwedd 2012, yn enwedig os yw'r etholiadau CHTh yn cael eu cyfuno gydag etholiadau eraill a drefnwyd, a bydd gweinyddiaeth y cyfrif yn fwy cymhleth o ganlyniad i'r cyfuniad. Bydd Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol angen sicrhau bod eu prosesau cyfrif mor gywir ac effeithlon â phosibl, er mwyn lleihau'r risg o ganfyddiadau negyddol am ansawdd a chymhwysedd gweinyddiaeth etholiadol yn gyffredinol.

1.49 Mae'r Comisiwn wedi dechrau gweithio ar ddadansoddiad o'r gweithdrefnau mwyaf effeithlon ar gyfer rheoli'r cyfrif yn yr etholiadau mawr, gyda golwg ar nodi'r adnoddau sydd eu hangen yn fwy manwl gywir, a deall sut mae gwariant yn perthnasu i'r gweithgareddau manwl yr ymgemerir â hwy yng nghyswllt prosesau dilysu a chyfrif a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu cyflawni. Byddwn yn cynnal astudiaethau achos yn yr etholiadau a drefnwyd yn 2013 a 2014 er mwyn casglu ac asesu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall i'n galluogi i ddatblygu model cyfrif cadarn i'w gyhoeddi mewn da bryd ar gyfer ei ddefnyddio yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn 2015.

Dim dylanwad gormodol

1.50 Er gwaethaf ymdrechion rhagweithiol gan Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu i leihau'r risg o gamymddygiad etholiadol, mae cyferbyniad pryderus rhwng lefelau isel o achosion a gofnodwyd o gamymddwyn etholiadol honedig, a lefelau uwch o bryder am dwyll etholiadol a fynegwyd gan ymatebwyr yn ein harolwg ar ôl yr etholiad. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod mai ychydig iawn o honiadau sydd wedi cael eu cofnodi mewn perthynas ag etholiadau CHTh Tachwedd 2012.

1.51 Mae'r Comisiwn wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o wendidau posibl o fewn y system bleidleisio a phrosesau presennol, a fydd yn anelu at sicrhau

consensws am y cydbwysedd gorau rhwng sicrhau hygredded a hygrychedd y prosesau etholiadol yn y DU. Bydd yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu arferion er mwyn sicrhau hyder yn uniondeb etholiadau yn y DU. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adolygiad hwn mewn pryd i ddeddfwriaeth gael ei dwyn ymlaen yn ystod oes y Senedd DU hon os oes angen.

1.52 Rydym hefyd wedi cytuno ar god ymddygiad newydd ar gyfer ymgyrchwyr gyda'r pleidiau'n cael eu cynrychioli ar Banel Pleidiau Gwleidyddol Senedd y DU. Mae'r cod wedi cael ei anfon at yr holl bleidiau gwleidyddol cofrestredig ym Mhrydain Fawr, a bydd Swyddogion Canlyniadau yn dwyn y ddogfen i sylw'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau sy'n ymladd etholiadau o fis Mai 2013 ymlaen. Bydd unrhyw bryderon bod y cod wedi ei dorri yn cael ei godi gyda'r blaidd berthnasol neu ymgyrchydd os yw'n briodol, a byddwn yn cytuno ar gamau priodol i unioni neu atal unrhyw doriad rhag digwydd eto. Byddwn yn cyhoeddi canlyniad unrhyw doriadau o'r fath yn ein hadroddiadau statudol ar gyfer etholiadau i'r dyfodol.

Argymhellion

Argymhelliad 1: Gwella cynllunio a rheoli deddfwriaeth ar gyfer etholiadau i'r dyfodol

Ar gyfer etholiadau i'r dyfodol lle bo angen deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, rhaid i'r adran berthnasol o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am yr etholiadau hynny ddysgu o brofiad etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012, a rhoi yn ei le gwell cynllunio tymor canolig ar gyfer cyflwyno'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Heb fod yn hwyrach na dwy flynedd cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer unrhyw etholiadau a drefnwyd, dylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y polisi etholiadau amlinellu cynllun ynglŷn â sut y maent yn bwriadu rheoli datblygiad polisi, drafftio a chraffu'r prosesau deddfwriaethol sy'n ofynnol i gwrdd â'r cerrig milltir allweddol canlynol a dyddiadau cau:

- Cadarnhad (boed hynny drwy Gydsyniad Brenhinol i ddeddfwriaeth sylfaenol neu osod is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo gan y Senedd) o'r cyllid ymgyrch a rheolau gwario **o leiaf dri mis cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir.**
- Lle mae etholiadau'n cael eu cynnal am y tro cyntaf, neu lle mae'r cyllid ymgyrch a rheolau gwariant yn sylweddol wahanol i'r rhai mewn etholiadau blaenorol, dylai'r rheolau gael eu cadarnhau **o leiaf chwe mis cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir.**
- Cadarnhad o'r holl reolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau a chyllid ar gyfer eu cyflwyno (gan gynnwys unrhyw orchmynion sydd eu hangen i nodi papurau pleidleisio a ffurflenni dwyieithog yng Nghymru) **ddim llai na chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio.**

Heb fod yn hwyrach na 18 mis cyn y diwrnod pleidleisio, byddwn yn adolygu cynigion y Llywodraeth ac yn cyhoeddi adroddiad yn nodi ein hasesiad o'r cynnydd tuag at gwrdd â'r cerrig milltir a therfynau amser.

Bydd yn arbennig o bwysig i'r Swyddfa Gartref amlinellu'n glir **erbyn Mai 2014** sut y bydd yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru i reoli'r gwaith o ddatblygu unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016, fel bod yr heriau o gyfuno'r etholiad gyda'r etholiad cyffredinol a drefnwyd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr yn cael sylw.

Byddwn yn adolygu cynlluniau Llywodraeth y DU **erbyn mis Tachwedd 2014** ac yn cyhoeddi ein hasesiad o gynnydd tuag at gyflawni'r cerrig milltir allweddol a'r terfynau amser ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016.

Argymhelliad 2: Gwella mynediad i etholwyr at wybodaeth am ymgeiswyr mewn etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio paragraff 52 ac Atodlen 8 y Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012 i sicrhau bod etholwyr yn derbyn gwybodaeth brintiedig am ymgeiswyr sy'n sefyll am etholiad fel CHTh yn eu hardal heddlu. Dylai hyn fod ar ffurf llyfryn gydag anerchiad gan bob ymgeisydd, a anfonir gan Swyddog Canlyniadau'r Awdurdod Heddlu perthnasol i bob cartref yn ardal yr awdurdod heddlu.

Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i Orchymyn 2012 **erbyn mis Tachwedd 2015**, yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein Hargymhelliad 1 uchod ar gyfer gwella cynllunio a rheoli deddfwriaeth i etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016.

Ar gyfer unrhyw etholiadau newydd sy'n cael eu cynnig yn y dyfodol, dylai'r llywodraeth berthnasol ei gwneud yn glir **ar adeg cyflwyno deddfwriaeth** sut y byddant yn sicrhau bod etholwyr yn cael mynediad priodol at wybodaeth am ymgeiswyr.

Wrth wneud hyn, dylai'r llywodraeth berthnasol yn tynnu ar ddata a gasglwyd gan y Comisiwn Etholiadol ac eraill o'r etholiadau Tachwedd 2012, a dylent ystyried:

- I ba raddau y mae gan etholwyr fynediad dibynadwy a hawdd i ffynonellau cyhoeddedig ar-lein neu rai nad ydynt yn ffisegol o wybodaeth am ymgeiswyr.
- I ba raddau y gall ymgeiswyr eu hunain yn ymarferol gyfleu negeseuon yn uniongyrchol i etholwyr, gan gymryd i ystyriaeth daearyddiaeth yr ardaloedd heddlu a'r cyfyngiadau statudol ar wariant ymgyrch.
- Beth yw'r ffordd orau i roi gwybod i etholwyr am sut y gallant gael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr, gan gynnwys symleiddio'r broses gymaint ag y bo modd i etholwyr

Argymhelliad 3: Sicrhau gwybodaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd cost-effeithiol a niwtral am etholiadau i'r dyfodol

Rhedodd y Swyddfa Gartref a'r Comisiwn Etholiadol ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn yr etholiad.

Er fod y ddwy ymgyrch wedi sicrhau ymwybyddiaeth o'u negeseuon priodol, byddai wedi bod yn fwy cost effeithiol cael un ymgyrch integredig gan ffynhonnell annibynnol a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau, diben yr etholiadau, y dyddiad, gwybodaeth ymgeiswyr a'r system bleidleisio.

Rydym wedi dangos ein profiad a'n gallu i ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd cost-effeithiol a niwtral mewn amrywiaeth eang o etholiadau a refferenda'r DU. Dylai Seneddau barhau i roi cyfrifoldeb statudol i'r Comisiwn Etholiadol i ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr am etholiadau a sut i bleidleisio ynddynt, ac ni fyddai'n ddefnydd priodol na synhwyrol o arian cyhoeddus i lywodraethau ddyblygu'r gweithgaredd hwnnw.

Ni ddylai unrhyw lywodraeth gomisiynu gweithgaredd ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer etholiadau na refferenda i'r dyfodol, gan gynnwys etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol yn hygyrch ac wedi'u cynllunio'n dda

Dylai Llywodraeth y DU adolygu'r opsiynau ar gyfer dyluniad a geiriad y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol sy'n defnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol, er mwyn lleihau'r risg o bapurau pleidleisio ddim yn cael eu cyfrif oherwydd eu bod wedi cael eu llenwi'n anghywir.

Dylai adolygiad y Llywodraeth wneud y canlynol:

- Ystyried tystiolaeth o'r ystod o etholiadau a gynhaliwyd a ddefnyddiodd y system etholiadol pleidlais atodol, gan gynnwys yr etholiadau awdurdod lleol, maerol a maer Llundain, ac etholiadau CHTh Tachwedd 2012.
- Ystyried y dyluniadau papur pleidleisio dwy golofn sengl (gan ddefnyddio rhifolion i gofnodi'r dewis cyntaf a'r ail) yn ogystal â dyluniadau colofn ddwbl (gan ddefnyddio croesau).
- Ystyried y cyfuniadau posibl o etholiadau a gynhelir sy'n defnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol ar yr un pryd â'r rheiny sy'n defnyddio'r system cyntaf-i'r-felin.
- Cynnwys ymchwil gyda phleidleiswyr a mewnbwn gan arbenigwyr iaith blaen ac arbenigwyr hygyrchedd er mwyn sicrhau bod dyluniad a geiriad y papurau

pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol yn syml ac yn hawdd i'w ddefnyddio gan ystod mor eang â phosibl o bobl.

Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi canlyniadau ei dadansoddiad ac ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ddyluniad a geiriad y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau a gynhelir gan ddefnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol **heb fod yn hwyrach na mis Tachwedd 2014**, 18 mis cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer etholiadau CHTh a drefnwyd ym mis Mai 2016.

Os nad yw'r Llywodraeth yn penderfynu cynnal yr adolygiad hwn, byddwn yn cynnal ein dyluniad ac ymchwil ein hunain gyda phleidleiswyr ar ddyluniadau papur pleidleisio ar gyfer etholiadau a gynhelir ar y system pleidlais atodol. Byddem yn cychwyn ar y gwaith **erbyn mis Hydref 2013** ac yn cyhoeddi unrhyw gynlluniau a argymhellir ar gyfer ymgynghori **erbyn mis Tachwedd 2014**.

Dylai unrhyw newidiadau i'r ffurflen ragnodedig ar gyfer y papur pleidleisio sydd i'w ddefnyddio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016 fod yn glir (boed mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol neu ddeddfwriaeth eilaidd sydd wedi ei gosod gerbron y Senedd) **heb fod yn hwyrach na dechrau Tachwedd 2015**, chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiadau CHTh nesaf.

Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod ffurflenni a gynhyrchir yn unol â'r ddeddfwriaeth yn iawn a chywir cyn gynted â phosibl, a sicrhau y gellir eu defnyddio ar gyfer y set nesaf o etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn 2016 ac unrhyw isetholiadau a allai ddigwydd cyn hynny.

Argymhelliad 5: Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael mynediad i ganllawiau a chynghor ar y rheolau ar sefyll etholiad fel CHTh

Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda Swyddogion Canlyniadau, pleidiau gwleidyddol a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynigion i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn parhau i gael mynediad at ganllawiau a chynghor am sefyll mewn etholiad.

Yn benodol, byddwn yn adolygu adborth a chanlyniadau ein harolwg o ymgeiswyr er mwyn nodi cyfleoedd i ddarparu mwy o gynghor penodol ynghylch yr amgylchiadau lle y gallai pobl fod yn destun i anghymhwysiad ar sail euogfarn flaenorol.

Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddatblygu cynigion i ychwanegu at y canllawiau a chynghor yr ydym yn eu darparu ar gyfraith etholiadol, gan sicrhau y gellir gwneud arbenigedd ar agweddau perthnasol o'r gyfraith cyfiawnder troseddol ar gael i'r rhai sydd ei angen.

Dylai Llywodraeth y DU ystyried a oes angen eglurhad pellach o ddarpariaethau ar gyfer llenwi swydd wag Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i gynnwys amgylchiadau lle y canfyddir bod ymgeisydd yn anghymwys ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau'n ôl ond cyn y bleidlais. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod

unrhyw newidiadau yn y gyfraith yn cael eu gwneud er mwyn i'r rheolau fod yn glir erbyn mis Tachwedd 2015, chwe mis cyn yr etholiadau CHTh nesaf.

Argymhelliad 6: Sicrhau rheolaeth a chydlynu effeithiol ar gyfer etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Llywodraeth y DU adolygu ei dull o gefnogi rheoli a chydlynu etholiadau CHTh i'r dyfodol, gan dynnu ar y gwersi a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac unrhyw adborth arall gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu (PAROs).

Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau, cymdeithasau proffesiynol, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer rheoli a chydlynu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Mai 2016 sy'n cynnwys:

- Penodi Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu.
- Trefniadau wrth gefn ar gyfer ardaloedd lle mae Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu penodedig yn gadael yr awdurdod lle buont yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau.
- Cymorth a gwybodaeth i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu.

Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi ei chynllun ar gyfer rheoli a chydlynu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Mai 2016 **erbyn mis Mai 2014**, yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein Hargymhelliad 1 uchod ar gyfer gwella deddfwriaeth cynllunio a rheoli ar gyfer yr etholiadau CHTh Mai 2016.

Argymhelliad 7: Gwella gweinyddu etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau eu bod yn adolygu ac yn gwerthuso eu dull o gynllunio a chyflwyno etholiadau CHTh 2012, er mwyn nodi beth weithiodd yn dda yn ogystal â meysydd lle gellid gwella perfformiad.

Bydd y Comisiwn yn adolygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r cyfrif mewn etholiadau mawr, gyda golwg ar nodi yn fwy manwl gywir yr adnoddau sydd eu hangen a deall sut mae gwariant yn perthnasu i'r gweithgareddau manwl a gynhaliwyd.

Rydym hefyd wedi dynodi'n flaenorol yr angen i adolygu sut y dylai ein canllawiau a fframwaith safonau perfformiad weithredu ar gyfer etholiadau lle mae deiliaid swyddi statudol â grym i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ganllawiau diwygiedig, safonau perfformiad a deunyddiau ategol ar gyfer etholiadau CHTh 2016 **heb fod yn hwyrach na Rhagfyr 2015**.

2 Deddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau

2.1 Mae etholiadau yn un o gonglfeini ein democratiaeth ac mae'n hanfodol bod y rheolau sy'n gysylltiedig â hwy wedi eu drafftio'n dda, yn glir, yn ymarferol a chynbelled ag y bo modd yn gyson â'r rheolau ar gyfer mathau eraill o etholiadau.

2.2 Mae'r bennod hon yn archwilio datblygiad y ddeddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau CHTh gan y Swyddfa Gartref. Mae'n edrych ar yr oedi wrth gwblhau darnau allweddol o ddeddfwriaeth eilaidd, gan gynnwys y Gorchymyn Ffurflenni Gymraeg, a'r Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae'r bennod hon yn edrych ymlaen at etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2016 a fydd yn cael eu cynnal ochr yn ochr ag etholiad cyffredinol Cymru, ac mae'n amlinellu'r argymhellion ar gyfer sut y gall y ddeddfwriaeth gael ei chynllunio a'i gweithredu'n well ar gyfer unrhyw etholiadau i'r dyfodol.

Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

2.3 Pan gyhoeddwyd Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSR) ar gyfer ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, gwnaethom dynnu sylw at nifer o faterion i Lywodraeth y DU ymdrin â hwy:

- Roedd rhaid i'r rheolau ynglŷn â sut yr oedd yr etholiadau i gael eu cynnal fod yn glir o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio. Rydym yn pwysleisio bod y 'fframwaith cyfreithiol cwbl newydd yn cael ei weithredu' yn ei gwneud yn 'arbennig o bwysig ... y dylid glynu at yr egwyddor hon'.⁵
- Roedd rhaid sefydlu fframwaith i gefnogi cynllunio ar gyfer yr etholiadau newydd a darparu cydlynu cyffredinol, cysondeb o ran arfer, a monitro unrhyw faterion anodd. Gwnaethom bwysleisio y byddai 'cydlynu'r rhai sy'n ymwneud â rhedeg yr etholiadau newydd ar ffiniau awdurdod heddlu ... yn hanfodol i sicrhau eu bod [yr etholiadau] yn cael eu cyflwyno'n broffesiynol ac yn gyson ... mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y pleidleiswyr'.⁶

2.4 Nid ymdriniwyd yn iawn ag unrhyw un o'r materion hyn. Fel yr ydym yn trafod yn y bennod hon ac yn ddiweddarach ym mhennod 5, cafodd darnau hanfodol o ddeddfwriaeth eilaidd eu gohirio ac er gwaethaf rhai ymdrechion i gydlynu'r etholiadau, arweiniodd diffyg profiad y Swyddfa Gartref mewn cyfraith ac arfer etholiadol at wneud penderfyniadau polisi diffygiol. Gallai cyd-drefnu ffurfiol gan Swyddfa'r Cabinet fod wedi lliniaru llawer o anawsterau'r etholiadau CHTh.

⁵ Y Comisiwn Etholiadol, Papur Briffio Ail Ddarlleniad Tŷ'r Cyffredin, 13 Rhagfyr 2010 http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0016/107215/Police-Reform-And-Social-Responsibility-Bill-Second-Reading-Briefing.pdf

⁶ *ibid.*

2.5 Yn ystod hynt y Mesur PRSR, symudwyd dyddiad yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd cyntaf o ddyddiad arferol etholiadau lleol ar 3 Mai 2012 i 15 Tachwedd 2012.

2.6 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cartref dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cartref bod y newid yn ganlyniad i'r oedi yn y ddeddfwriaeth a byddai'n caniatáu amser i sicrhau bod 'pethau ymarferol yr etholiad yn eu lle, fel gyda gofynion y Comisiwn Etholiadol'. Dywedodd hefyd y byddai cynnal etholiadau ym mis Tachwedd yn caniatáu amser i'r cyhoedd ddod yn 'gwbl ymwybodol' o'r ymgeiswyr, cyfrifoldebau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a phwysigrwydd yr etholiadau, tra'n dal i alluogi'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i oruchwyllo cyllidebau'r heddlu 2013-14.⁷ Fodd bynnag, honnodd yr Wrthblaid⁸ ac adroddiadau cyfryngau⁹ bod y penderfyniad i ohirio'r etholiadau yn ganlyniad llobio gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

2.7 Er mai mater i Senedd y DU yw penderfynu ar y dyddiad ar gyfer i etholiad gael ei gynnal, rydym yn tynnu sylw at nifer o risgiau sy'n deillio o gynnal yr etholiad yn y gaeaf; sef y byddai cyfnod yr etholiad yn cyd-fynd â'r canfas blyneddol¹⁰, bod bron i hanner oriau golau dydd ar 15 Tachwedd nag sydd ar 3 Mai, a bod etholiadau annibynnol yn golygu mynd i gostau uwch na'r rhai a gyfunir â digwyddiadau etholiadol eraill. Mae effaith cynnal yr etholiadau ym mis Tachwedd, yn enwedig yr effaith ar y canfas blyneddol, yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (tudalen 79).

2.8 Derbyniodd y Mesur PRSR Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Seneddol ar 15 Medi 2011.

Is-ddeddfwriaeth

2.9 Yn ogystal â'r darpariaethau etholiad yn y Ddeddf PRSR, roedd 11 o ddarnau o ddeddfwriaeth eilaidd yn ofynnol i osod allan y rheolau manwl ar gyfer yr etholiadau. Nid yw'r maint hwn o is-ddeddfwriaeth yn annodweddiadol a dylai Llywodraeth y DU fod wedi ffactoroeddio amser yn eu cynllunio ac amserlennu. Dim ond ar ôl i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol y gallai'r ddeddfwriaeth eilaidd gael ei gwneud. Yn ôl y gyfraith, rhaid ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ar ddeddfwriaeth eilaidd berthnasol.¹¹

2.10 Pan symudwyd dyddiad yr etholiadau cyntaf, cawsom sicrwydd gan swyddogion Llywodraeth y DU na fyddai'r amserlen ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth eilaidd yn newid yn sylweddol. Cadarnhaodd bwletin a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ar 22 Rhagfyr, 2011 'Bwriedir cwblhau deddfwriaeth eilaidd ar etholiadau erbyn mis Chwefror 2012, gyda'r ddeddfwriaeth gerbron y senedd yn gynnar y

⁷ Q197 – Q200, Home Affairs Committee, Uncorrected transcript of Oral Evidence HC 1456-i i 8 September 2011 <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhaff/uc1456-ii/uc145601.htm>

⁸ *ibid.* Q199.

⁹ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-14819550>

¹⁰ Bob blwyddyn mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) yn ymgymryd ag adnewyddiad cynhwysfawr o'r gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal, a elwir y canfas blyneddol.

¹¹ Adran 7 (2) (hb) a (hc) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

flwyddyn nesaf, ymhell cyn argymhelliad y Comisiwn Etholiadol o 6 mis cyn yr etholiad.¹²

2.11 Yn ymarferol, fodd bynnag, roedd oedi sylweddol. O dan yr amserlen gychwynnol a ryddhawyd i ni gan y Swyddfa Gartref ar ôl i ddyddiad yr etholiad newid, roedd drafft o'r Gorchymyn Etholiadau CHTh (yn pennu rheolau manwl yr etholiad) i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn hwyr ym mis Tachwedd 2011; roedd amserlenni dilynol yn amserlennu'r cyhoeddiad yn hwyr ym mis Rhagfyr 2011, a chafodd ei yrru yn y diwedd ar 16 Chwefror 2012.¹³

2.12 Gan na wnaethpwyd y gorchymynion drafft ar gael yn eang, roedd oedi i'r ddeddfwriaeth yn golygu nad oedd llawer o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol wedi gweld y rheolau nes i'r Gorchymyn Etholiadau CHTh terfynol gael ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin. Er y byddai llawer o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer etholiadau mis Mai yn gynnar yn 2012, byddai cael golwg ar y ddeddfwriaeth ar gam cynnar wedi eu galluogi i neilltuo peth amser i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr etholiadau CHTh cyn mis Mai.

Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

2.13 Gosodwyd y Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012 (y 'Gorchymyn Etholiadau CHTh') yn y Senedd gyda'r nos 15 Mai 2012; union chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio ac wyth mis ar ôl i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

2.14 Roedd yr etholiadau hyn ar gyfer rôl newydd sbon, a gynhaliwyd ar ffiniau heb eu profi, gan ddefnyddio system bleidleisio a oedd i raddau helaeth yn anghyfarwydd ac o dan strwythur rheoli newydd nad oedd wedi'u profi. Roedd Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, Swyddogion Canlyniadau Lleol a gweinyddwyr angen digon o amser i roi cynlluniau clir yn eu lle i sicrhau bod etholwyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn hawdd ac yn hyderus. Hefyd roedd ymgeiswyr angen bod yn ymwybodol o'r gofynion arnynt a sut yr oedd y rheolau'n wahanol i etholiadau eraill. Achosodd yr oedi parhaus i ddeddfwriaeth eilaidd, a'r ansicrwydd yr oedd hyn yn ei greu, anawsterau i ymgeiswyr a oedd yn dymuno sefyll mewn etholiad, ac i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer yr etholiadau.

2.15 Roedd yr oedi wrth osod y Gorchymyn Etholiadau CHTh yn y Senedd hefyd wedi oedi cyhoeddi ein dogfennau canllaw a ddefnyddir gan ymgeiswyr ac asiantau i ddeall y prosesau a'r gofynion cyfreithiol o sefyll am etholiad. Rydym hefyd yn cynhyrchu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau i ddilyn arferion a gweithdrefnau

¹² Swyddfa Gartref *POLICE AND CRIME COMMISSIONERS: PCC BULLETIN No 4 – 21 December 2011* <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/police-crime-comms-bulletin/pcc-bulletin-4?view=Binary>

¹³ Cyhoeddassom ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau drafft ar 15 Mawrth 2012. Mae ar gael yn llawn ar ein gwefan: http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/147116/Electoral-Commission-Response-PCC-Secondary-Legislation-2012-03-15-FINAL.pdf

cynnal etholiadau. Mae ein canllawiau yn nodi'r hyn sydd angen i Swyddogion Canlyniadau ei wneud yn ôl y gyfraith; y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cwrdd â safonau perfformiad y Comisiwn; ac arfer a argymhellir.

2.16 Ar gyfer digwyddiad etholiadol newydd, rydym yn anelu at gyhoeddi canllawiau o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio. Er ein bod wedi gallu paratoi canllawiau drafft ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau ac ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol ar sail y ddeddfwriaeth ddrafft, nid oeddem yn gallu cwblhau a chyhoeddi ein canllawiau nes i'r Gorchymyn Etholiadau CHTh gael ei osod gerbron y Senedd, a phan yr oedd digon o sicrwydd ynghylch cynnwys y rheolau.

2.17 Ar ôl cynllunio'n wreiddiol i gyhoeddi ein canllawiau erbyn diwedd mis Mawrth 2012, nid oeddem yn gallu gwneud hynny tan ddiwedd mis Mehefin 2012. Roedd hyn ychydig dros dri mis cyn dechrau amserlen yr etholiad a'r cyfnod lle mae'n rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â rheolau am wariant etholiad, a phedwar mis a hanner cyn y diwrnod pleidleisio.

2.18 Yn ei Adolygiad Annibynnol i'r Comisiwn Etholiadol o Etholiadau Senedd a Llywodraeth Leol yr Alban 2007, argymhellodd Ron Gould na ddylai deddfwriaeth etholiadol 'gael ei defnyddio i unrhyw etholiad a gynhelir o fewn chwe mis i'r darpariaethau newydd ddod i rym'.¹⁴ Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac yn parhau i bryderu nad yw Llywodraeth y DU wedi ei dderbyn, a bod darpariaethau sy'n gwneud newidiadau i etholiadau yn cael eu cyhoeddi dro ar ôl tro o fewn amserlen chwe mis. Dylai Llywodraeth y DU gydnabod yr argymhelliad hwn yn ffurfiol a dylai swyddogion weithio i sicrhau bod deddfwriaeth yn ei lle cyn gynted â phosibl, ond erbyn y marc chwe mis fan bellaf. Nid yw'r marc chwe mis fyth yn fwy hanfodol nag mewn set gwbl newydd o etholiadau lle nad oes gan weinyddwyr ac ymgeiswyr unrhyw beth i dynnu arno i'w helpu i baratoi cyn bod y rheolau yn eu lle.

2.19 Mae etholiadau'n gymhleth a dylid eu cydnabod fel maes arbenigol o'r gyfraith. Mae'n hanfodol bod swyddogion sy'n gyfrifol am greu a goruchwylio etholiadau yn cael dealltwriaeth fanwl o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol, o ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol i ddatgan y canlyniadau. Er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o fewnbwn wedi bod gan gyfreithwyr a swyddogion Swyddfa'r Cabinet, rydym wedi cael ein siomi gan y diffyg cydlyn ac absenoldeb dull clir a chydgylltiedig i ymdrin â'r broses ar draws adrannau perthnasol Llywodraeth y DU.

2.20 Cyfarfu'r Comisiwn swyddogion Llywodraeth y DU o'r Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Cabinet o gyfnod cynnar yn natblygiad y ddeddfwriaeth, gan ddarparu cefnogaeth sylweddol i'r timau drafftio a datblygu polisi. Roedd y lefel y cymorth oedd ei angen yn llawer mwy na'r hyn a fyddai ei angen fel arfer yn y gwaith o ddatblygu digwyddiad etholiadol newydd neu mewn arfer etholiadau.

2.21 Er ein bod yn cydnabod y rheswm pam mai'r Swyddfa Gartref, sy'n gyfrifol am blismona, oedd yr adran arweiniol ar y ddeddfwriaeth PRSR yn ei gyfanrwydd, arweiniodd ei rôl yn y gwaith o ddrafftio'r rheolau manwl ar gyfer yr etholiadau CHTh at gymhlethdod diangen y gellir fod wedi ei osgoi, oedi ac ansicrwydd. Tanamcangyfrifwyd maint yr her oedd yn wynebu'r tîm polisi wrth iddynt geisio

¹⁴ <http://www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=13223> tudalen 112

drafftio deddfwriaeth ymarferol i gynnal etholiadau yn effeithiol mewn modd amserol, ac nid oedd digon o arbenigedd ac adnoddau ar gael i'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am ei chreu. Ni wnaeth Llywodraeth y DU sicrhau defnydd llawn o'r profiad a sgiliau penodol sydd gan swyddogion a chyfreithwyr yn Swyddfa'r Cabinet wrth ddelio â newidiadau i gyfraith etholiadol er mwyn cefnogi datblygiad y rheolau. Mae'n hanfodol bod gwaith o'r fath yn cael yr adnoddau priodol yn y dyfodol, ni waeth pa adran sy'n gyfrifol am y polisi etholiadol cyffredinol, er mwyn sicrhau bod y rheolau sy'n ymwneud ag etholiadau yn glir ac yn gywir.

Roedd y ddeddfwriaeth hwyr hefyd yn arbennig o ddiwerth ac roedd yn ymddangos o'r tu allan nad oedd gan y Swyddfa Gartref ddealltwriaeth sylfaenol o gynllunio etholiad ... Teimlaf mai dim ond un adran o'r llywodraeth ddylai fod â chyfrifoldeb am gynllunio etholiad er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull ac arbenigedd.

Swyddog Canlyniadau Lleol, Swydd Efrog a'r Humber

Ffurflenni a hysbysiadau

2.22 Un o flaenoriaethau allweddol y Comisiwn Etholiadol yw bod pleidleiswyr yn gallu pleidleisio yn hawdd ac yn hyderus, gan wybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn bwriadu. Roeddem yn falch felly bod Llywodraeth y DU yn cydnabod yr angen am i'r ffurflenni a hysbysiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd fod yn hawdd i bleidleiswyr eu defnyddio a'u deall.

2.23 Gwnaeth y Comisiwn yn glir dro ar ôl tro i'r Swyddfa Gartref o'r camau cynllunio cynnar iawn ar gyfer yr etholiadau, yn seiliedig ar ein profiad yn y gorffennol, mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yn ymarferol oedd i'r ddeddfwriaeth bennu'r cynnwys gofynnol (er nid o reidrwydd y geiriad manwl) ac unrhyw ofynion fformatio allweddol, ac yna i'r Comisiwn gael y pŵer i ddarparu templedi dylunio enghreifftiol a fyddai'n nodi cynllun a fformat y ffurflenni a hysbysiadau, a gallai Swyddogion Canlyniadau ddefnyddio'r rhain i gynhyrchu ffurflenni a hysbysiadau yn lleol.

2.24 Roeddem o'r farn y byddai'r dull hwn yn hawdd ei ddefnyddio i Swyddogion Canlyniadau (ROs) a gweinyddwyr etholiadol a darparwyr deunydd ysgrifennu etholiadol, ac mai dyma oedd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cysondeb a chydymffurfiad gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol. Hwn hefyd oedd y dull a ddefnyddiodd y Comisiwn yn refferendwm Mai 2011 ar system bleidleisio Seneddol y DU ac roedd yn llwyddiannus wrth gyflawni ffurflenni a hysbysiadau clir, cyson a hawdd eu defnyddio. Ers hynny, rydym wedi adeiladu ar y dull hwn i ddarparu templedi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif i'w defnyddio mewn etholiadau a refferenda eraill, ac ers Rhagfyr 2011 mae'r rhain wedi ffurfio rhan o'n safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, a gynlluniwyd i sicrhau bod etholwyr yn cael gwybodaeth sy'n glir ac yn hawdd i'w deall a'i defnyddio.

2.25 Yn hytrach, roedd Llywodraeth y DU yn glir yn ei bwriad i ragnodi mewn deddfwriaeth gynnwys a dyluniad a fformatio manwl y ffurflenni a hysbysiadau pleidleiswyr yn yr etholiadau CHTh, yn hytrach na thrwy ddarparu ar gyfer cynhyrchu

o dempledi. Roedd gennym bryderon am ymarferoldeb y dull a ddewiswyd, a'r ffordd y cafodd ei weithredu. Mae adborth gan weinyddwyr etholiadol yn awgrymu na ellid yn hawdd golygu'r fformat PDF y cafodd y ffurflenni a hysbysiadau eu darparu ynddo, gan ei gwneud yn ofynnol treulio amser sylweddol ar gynhyrchu fersiynau newydd 'tebyg' a bod y fformat ffeil a ddarparwyd yn anghydnaws â systemau rhai argraffwyr.

2.26 Yn ogystal, pan gafodd y ddeddfwriaeth ei gwneud o'r diwedd, roedd nifer o'r ffurflenni rhagnodedig yn cynnwys gwallau a chamgymeriadau, gan gynnwys mewn perthynas ag argraffu'r papur pleidleisio, na ellid eu cywiro cyn y bleidlais. Pan nodwyd y problemau hyn, rhoddodd y Comisiwn arweiniad pellach i Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ar sut i ymdrin â hwy, ond erys risg nad yw ffurflenni a gynhyrchir yn unol â'r ddeddfwriaeth yn iawn na chywir, a bydd rhaid i Swyddogion Canlyniadau nodi a chywiro gwallau yn y ffurflenni rhagnodedig er mwyn iddynt fod yn addas i'r diben ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol. Pe bai Llywodraeth y DU wedi dilyn ein dull a argymhellwyd i ddarparu templedi ffurflenni a hysbysiadau, ac nid rhagnodi, gallai camgymeriadau o'r fath fod wedi cael eu datrys yn hawdd ar unwaith, a heb angen am newid deddfwriaethol. Cafodd y fersiynau Saesneg o'r holl ffurflenni a hysbysiadau pleidleiswyr eu rhagnodi mewn deddfwriaeth.

2.27 Dylai'r Swyddfa Gartref ddatrys y ffurflenni rhagnodedig cyn gynted ag y bo modd a sicrhau y gellir eu defnyddio ar gyfer y set nesaf o etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn 2016.

Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg

2.28 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol yng Nghymru nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n bwysig bod pleidleiswyr yng Nghymru yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw etholiad a roddir drwy gyfrwng y Gymraeg pe baent yn dewis gwneud hynny. Felly, mae angen i'r holl ffurflenni etholiadol, hysbysiadau a phapurau pleidleisio fod ar gael yn ddwyieithog i bleidleiswyr eu defnyddio.

2.29 Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Etholiadau CHTh drafft ym mis Mawrth 2012, nodwyd gennym fwriad Llywodraeth y DU i aros nes bod y fersiynau Saesneg o'r ffurflenni a hysbysiadau wedi cael eu cwblhau cyn i'r fersiynau dwyieithog Cymraeg a Saesneg gael eu rhagnodi mewn Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg. Roeddem yn cydnabod hyn fel dull synhwyrol o leihau'r risg o wallau neu anghysondebau yn digwydd rhwng y ddwy fersiwn, ond gwnaethom bwysleisio ei bod yn hanfodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol yng Nghymru fod y Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg yn cael ei wneud ar yr un pryd â'r Gorchymyn Etholiadau CHTh a oedd yn rhagnodi fersiwn iaith Saesneg y ffurflenni.¹⁵

2.30 Fodd bynnag, roeddem yn pryderu gymaint oherwydd yr oedi sylweddol a ddigwyddodd i gyflwyno'r Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg i Senedd y DU fel ein bod wedi cynnig briffio seneddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ar y mater. Mewn ymdrech i gyflymu'r broses, gollyngodd Llywodraeth y DU'r nod o ragnodi fersiynau Cymraeg o'r holl ffurflenni a hysbysiadau a oedd wedi'u rhagnodi yn Saesneg, ac

¹⁵ Paragraff 4.35

aeth ymlaen â Gorchymyn drafft a oedd yn cynnwys y papur pleidleisio yn unig. Yn y diwedd, cafodd y Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (Ffurflenni Cymraeg) 2012, a oedd yn rhagnodi'r papur pleidleisio dwyieithog, ei gyflwyno i Senedd y DU ar 29 Hydref 2012, a daeth i rym ar 31 Hydref 2012. Fel y gwnaethom yn glir mewn cyfarfodydd briffio i Aelodau Seneddol yn y Senedd, petai'r Gorchymyn wedi dod i rym yn ddiweddarach, byddai pleidleiswyr yng Nghymru wedi gorfod bwrw eu pleidlais yn uniaith Saesneg am y tro cyntaf ers cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg yn 1993.

2.31 Yn ein harolwg, cadarnhaodd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yng Nghymru fod yr oedi yn y ddeddfwriaeth wedi arwain at broblemau difrifol. Er enghraifft, roedd Swyddogion Canlyniadau Lleol wedi bod yn disgwyl i'r Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg i gynnwys cyfieithiadau ar gyfer yr holl ffurflenni a hysbysiadau a oedd wedi cael eu rhagnodi yn Saesneg. Roedd penderfyniad hwyr y Swyddfa Gartref i ragnodi dim ond y papur pleidleisio'n ddwyieithog wedi methu â bodloni'r disgwyliadau hynny ac achosodd broblemau diangen a gwaith ychwanegol. Roedd rhaid i Swyddogion ddibynnu ar eu cyfieithiadau eu hunain o ffurflenni a hysbysiadau ac ar adnoddau gan y Comisiwn y gwnaethom eu darparu'n ddwyieithog ar fyr rybudd, megis y ffurflen enwebu ar gyfer ymgeiswyr.

2.32 Golygodd yr oedi i wneud y Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg bod Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu wedi rhoi trefniadau wrth gefn ar waith, gan argraffu papurau pleidleisio'n ddwyieithog ac yn Saesneg fel y gellid anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post yn brydlon. Cytunodd Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am y gost ychwanegol o argraffu pecynnau pleidleisio drwy'r post dyblyg, gyda ffynonellau Llywodraeth y DU yn amcangyfrif cost ychwanegol o £350,000.

2.33 Ar ôl yr etholiad, gofynasom i Swyddogion Canlyniadau Lleol yng Nghymru ddarparu amcangyfrif i ni o'r costau gwirioneddol a achoswyd o ganlyniad i weithredu'r trefniadau wrth gefn hyn, gan gynnwys cynhyrchu, argraffu ac unrhyw waredu papurau pleidleisio ychwanegol uniaith Saesneg. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig yr aeth y 22 o Swyddogion Canlyniadau Lleol iddi ar gyfer gweithredu'r trefniadau wrth gefn oedd £134,400.

2.34 Mae'r costau a gafodd y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn is na'r swm a neilltuwyd gan Lywodraeth y DU oherwydd fel y digwyddodd pethau, dim ond y trefniadau wrth gefn i bapurau pleidleisio drwy'r post fu rhaid i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol eu defnyddio. Cafodd y Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg ei wneud yn y Senedd erbyn 31 Hydref, yn union cyn i'r pleidleisiau drwy'r post gael eu hanfon.¹⁶ Felly, er fod y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau Lleol wedi cynhyrchu pecynnau pleidleisio drwy'r post uniaith Saesneg a gafodd eu dinistrio yn ddiweddarach, roedd y Gorchymyn yn ei le cyn iddi ddod yn angenrheidiol iddynt weithredu trefniadau wrth gefn tebyg ar gyfer papurau pleidleisio a oedd i'w defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio.

¹⁶ Gall a dylai pecynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon cyn gynted â phosibl ar ôl i'r dyddiad cau cofrestru fynd heibio er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr post gyda gymaint o amser ag y bo modd i gwblhau a dychwelyd eu pleidleisiau.

Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau

2.35 Gwnaethpwyd y Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (Cyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu) 2012 ar 12 Medi 2012 a daeth i rym y diwrnod nesaf, prin ddau fis cyn y diwrnod pleidleisio. Roedd y Gorchymyn yn nodi'r symiau adferadwy mwyaf oedd ar gael i Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer adennill costau i redeg yr etholiadau, ac yn amlinellu'r ffioedd ar gyfer eu gwasanaethau.

2.36 Mae Swyddogion Canlyniadau angen cadarnhad cynnar o'r symiau adferadwy ymhell cyn y diwrnod pleidleisio, er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, ac i wneud defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Pe bai'r ddeddfwriaeth ffioedd a thaliadau wedi cael ei rheoli'n well, ni fyddai wedi bod unrhyw reswm pam na fyddai'r Swyddogion Canlyniadau wedi cael cadarnhad o'r symiau adferadwy lawer ynghynt cyn y diwrnod pleidleisio.

2.37 Ni wnaethpwyd y canllawiau cysylltiedig ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, sy'n nodi'r rhesymeg fanwl y tu ôl i'r symiau, ac yn egluro beth sydd ac nad yw'n dderbyniol fel gwariant a ganiateir, ar gael tan 9 Tachwedd 2012, dim ond tri diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Rydym yn cytuno â'r adborth a dderbyniwyd oddi wrth Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu bod yr oedi i ganllawiau wedi bod yn annerbyniol.

2.38 Erbyn amser cyhoeddi'r ddeddfwriaeth a chanllawiau ffioedd a thaliadau, roedd Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu eisoes wedi gwneud cynlluniau ac wedi neilltuo adnoddau, gan gynnwys recriwtio staff, archebu gorsafoddd pleidleisio a lleoliadau cyfrif, a rhoi'r holl drefniadau cysylltiedig manwl yn eu lle, i gyd heb weld yr esboniadau na'r canllawiau ar wariant a ganiateir.

Byddai unrhyw gynllunydd prosiect proffesiynol yn disgwyl gwybod pa gyllideb sydd ganddynt i weithio gyda hi ar ddechrau'r prosiect. Mae'n annerbyniol ac yn hollol amhroffesiynol i lywodraeth ganolog ddisgwyl i staff gwasanaethau etholiadol 'weithio yn y tywyllwch' ar hyn.

Swyddog Canlyniadau Lleol, De-ddwyrain

2.39 Cafodd y tybiaethau cost ar gyfer yr etholiadau CHTh eu diweddarau'n seiliedig ar lefelau gwirioneddol o wariant a gafwyd mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Seneddol y DU 2010, ac felly disgwylir iddynt fod yn fwy realistig na'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod refferendwm Mai 2011 ar System Bleidleisio Seneddol y DU. Roedd y model cost yn seiliedig i raddau helaeth ar hyn a ddefnyddiwyd yn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd lle'r oedd strwythur sefydliadol rhanbarthol, yn debyg i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol, yn ei lle. Roedd ein hadroddiad ar gostau Refferendwm Mai 2011 ar System Bleidleisio

Seneddol y DU¹⁷ (Refferendwm PVS), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, yn tynnu sylw at nifer o newidiadau cadarnhaol i fanylion y broses ffioedd a thaliadau ar gyfer yr etholiadau CHTh, newidiadau yr oeddem wedi eu hargymell yn ein hadroddiad.

2.40 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn cynnal adolygiad ehangach o'r fframwaith 'ffioedd a thaliadau' ar gyfer etholiadau mawr. Rydym yn disgwyl gweld cwmpas a chylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn, ac i'r adroddiad ymdrin â p'un a gafodd buddiannau'r newidiadau a gyflawnwyd yn yr etholiadau CHTh ym mis Tachwedd 2012 eu gwireddu.

2.41 Fodd bynnag, byddem hefyd yn hoffi gweld ein holl argymhellion eraill a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys:

- Llywodraeth y DU i gyhoeddi manylion llawn o gostau'r etholiadau CHTh ar ôl i'r broses gael ei chwblhau.
- Dylai Llywodraeth y DU hefyd dderbyn ac yn gweithredu'r egwyddor o gytuno ar ddeddfwriaeth cyllid ar gyfer etholiadau chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio.

Rheolau cyllid a gwariant ymgyrch

Amseru

2.42 Yn y rhan fwyaf o etholiadau, mae rheolau ynglŷn â faint y gall ymgyrchwyr wario cyn, diwrnod pleidleisio a rheolaethau ar bwy y gallant dderbyn rhoddion ganddynt. Gelwir yr amser pryd mae'r rheolau hyn yn berthnasol yn 'cyfnod a reoleiddir'. Ein nod yw cynhyrchu canllawiau ar y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr o leiaf dri mis cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau. Gan mai'r rhain oedd yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd cyntaf, roedd yn hanfodol bod y rheolau'n cael eu setlo mewn da bryd i ni gynhyrchu'r canllawiau hyn, er mwyn galluogi ymgyrchwyr i gynllunio ymlaen llaw a sicrhau eu bod yn barod i gydymffurfio â'r rheolau.

2.43 Tynasom sylw Gweinidogion y Swyddfa Gartref at hyn yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2010, a gwnaethom barhau i bwysleisio'r pwynt mewn trafodaethau dilynol ar yr etholiadau. Ym mis Chwefror 2012, nododd Llywodraeth y DU na fyddai'r rheolau ond yn cynnwys ymgyrchu gan ymgeiswyr, a chan ymgyrchwyr lleol o blaid neu yn erbyn ymgeiswyr unigol, ac y byddent yn cynnwys y cyfnod rhwng dechrau mis Hydref 2012 a diwrnod pleidleisio ar 15 Tachwedd 2012.

2.44 Dim ond ar ôl gosod y Gorchymyn Etholiadau CHTh 2012 yn y Senedd ganol Mai 2012 y cafwyd cadarnhad terfynol o'r rheolau ymgyrchu. Yna roeddem yn gallu paratoi canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr mewn pryd i'w cyhoeddi ar 29 Mehefin 2012, ychydig dros dri mis cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir ar 8 Hydref 2012. Fodd bynnag, roedd y cyfnod o chwe wythnos rhwng cadarnhad o'r rheolau a chyhoeddi ein canllawiau yn creu amserlen heriol, a oedd yn ei gwneud yn anodd cynllunio defnydd effeithlon o'n hadnoddau cyfyngedig. Nid ydym yn credu bod y cyfnod

¹⁷ http://www.electoralcommission.org.uk/data/assets/pdf_file/0009/153000/Costs-of-UK-May-2011-UKPVS-referendum.pdf

rhybudd hwn o'r rheolau yn ddigonol ar gyfer etholiadau sy'n cael eu cynnal am y tro cyntaf, neu pan fo'r rheolau yn sylweddol wahanol i'r rhai mewn etholiadau blaenorol.

Datblygiad y rheolau ymgyrchu

2.45 Deallwn fod Llywodraeth y DU yn ystod 2011 ac yn gynnar yn 2012 wedi archwilio sawl opsiwn ar gyfer fframio'r rheolau, gan gynnwys gosod terfynau ar ymgyrchu cenedlaethol o blaid neu yn erbyn grwpiau o ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol ac eraill. Ym mis Gorffennaf 2011, diwygiodd Llywodraeth y DU y Mesur PRSR i gynnwys pŵer eang i osod y rheolau drwy ddeddfwriaeth eilaidd ar ôl i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

2.46 Ym mis Hydref 2011, gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cartref farn gan y Comisiwn a phleidiau gwleidyddol ar ystod o opsiynau rheolau ymgyrchu gan ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill. Yn ein hymateb gwnaethom amlinellu ein barn ar yr opsiynau ac unwaith eto pwysleisio'r angen i'r ddeddfwriaeth eilaidd ar y rheolau ymgyrchu gael ei chwblhau'n gyflym.

2.47 Roedd ymgyngoriad Chwefror 2012 ar y Gorchymyn Etholiadau CHTh drafft yn cynnwys rheolau ar ymgyrchu gan ymgeiswyr a chan y rhai sy'n ymgyrchu o blaid neu yn erbyn ymgeiswyr unigol, ond nid oedd unrhyw reolau o ran ymgyrchu cenedlaethol. Yn ein hymateb, gwnaethom argymhell nifer o newidiadau i'r rheolau drafft gan gynnwys y defnydd o gyfyngiadau penodedig ar wariant ymgyrchu, yn hytrach na fformiwla a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr gael gwybodaeth am y nifer o etholwyr cofrestredig ym mhob ardal bleidleisio er mwyn cyfrifo'r cyfyngiad oedd yn berthnasol iddynt hwy.

2.48 Fel y disgrifiwyd uchod, derbyniasom gadarnhad o benderfyniadau terfynol Llywodraeth y DU ar y rheolau ymgyrchu pan gafodd y Gorchymyn ei osod yn y Senedd ar 15 Mai 2012. Roeddem yn falch fod y Gorchymyn wedi mabwysiadu'r holl newidiadau i'r rheolau ymgyrchu yr oeddem wedi eu hargymhell yn ein hymateb i'r ymgyngoriad.

Gwerthuso'r modd y gweithiodd y rheolau'n ymarferol

2.49 Ar gyfer yr etholiadau CHTh 2012, roedd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen i'w Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu perthnasol erbyn 25 Ionawr 2013, yn nodi eu gwariant ymgyrch rhwng 8 Hydref, 2012 a'r diwrnod pleidleisio, a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt tuag at ymgyrchu; rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu wneud y ffurflenni hyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o ddwy flynedd.

2.50 Mewn dogfen canllawiau a anfonwyd i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ar ôl yr etholiad ynglŷn â thrin ffurflenni a gyflwynwyd yn hwyr, argymellasom fod y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn cyhoeddi copiâu wedi'u hailolygu o'r ffurflenni ar-lein. Ychydig cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni, cawsom sylwadau ar ran rhai pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn mynegi pryderon am yr argymhelliad hwn, gan gynnwys diffyg cyfeiriad at y dull hwn yn ein prif ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, ymgeiswyr ac asiantau. Daethom i'r casgliad nad oedd ymgeiswyr a gweinyddwyr wedi derbyn rhybudd digonol o'r cynnig, a

chysylltwyd â Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu i dynnu'r argymhelliad yn ôl. Rydym wedi ymddiheuro i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, ymgeiswyr ac asiantau am unrhyw anghyfleustra a achoswyd gan hyn. Byddwn yn ystyried sut orau i symud ymlaen cyhoeddiad ar-lein o ffurflenni ymgeiswyr yn etholiadau i'r dyfodol.

2.51 Yn unol â'n dull yn y rhan fwyaf o etholiadau eraill, rydym ar hyn o bryd yn casglu data pennawd ar wariant a rhoddion ymgeiswyr gan bob Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, a byddwn yn cyhoeddi hwn ar ein gwefan yn ystod Gwanwyn 2013. Gan mai'r rhain oedd yr etholiadau CHTh cyntaf, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad pellach a fydd yn trafod pa wersi y gellir eu tynnu o'r ffurflenni ymgeiswyr ac o ymgyrchu yn yr etholiadau CHTh 2012 yn fwy cyffredinol. Bydd yn asesu pa mor dda y mae'r rheolau wedi gweithio yn 2012 i hysbysu ystyriaeth Llywodraeth a Senedd y DU o'r rheolau ymgyrchu ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad hwn yn cymryd i ystyriaeth farn ar reolau ymgyrchu o'n hymchwil barn gyhoeddus a'n harolwg ymgeiswyr ac asiantau.

Etholiadau yng Nghymru 2016

2.52 Mae etholiadau nesaf y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi eu trefnu ar gyfer mis Mai 2016, ar yr un diwrnod â'r etholiad cyffredinol nesaf ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith i'r pleidleisio yn y ddau etholiad gael eu cyfuno.

2.53 Yn ein barn ni, mae rhai risgiau sylweddol sy'n gynhenid yn y cyfuniad arbennig hwn o etholiadau, y bydd angen eu lliniaru er mwyn i'r ddwy set o etholiadau gael eu rhedeg yn dda (mae manylion pellach ar y materion hyn i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad hwn):

- Bydd dwy system etholiadol wahanol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys tri dull o bleidleisio, a thri phapur pleidleisio.
- Nid yw'r ardaloedd pleidleisio ar gyfer y ddwy set o etholiadau'r un fath, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru yn cael eu cwmpasu gan wahanol ranbarthau heddlu a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.
- Bydd Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu i'r etholiadau CHTh yn cael eu penodi gan y Swyddfa Gartref, tra bod Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol Cynulliad yn cael eu penodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.
- Bydd angen ystyried amseriad y cyfrif ym mhob etholiad ochr yn ochr â lefelau disgwylidig y nifer a bleidleisiodd.

2.54 Bydd goblygiadau ymarferol unrhyw gynigion i gyfuno'r etholiadau ar gyfer yr etholiadau hyn angen eu hystyried gan ymgyrchwyr, Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol mewn da bryd cyn mis Mai 2016 er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio effeithiol a rheoli gweithgareddau allweddol. Bydd deddfwriaeth bellach yn ofynnol er mwyn galluogi cyfuno'r pleidleisiau, a dylai Llywodraeth y DU anelu at gyfathrebu p'un a yw'n bwriadu deddfu i gyfuno'r etholiadau ymhell cyn y diwrnod pleidleisio.

2.55 Os mai'r bwriad Llywodraeth y DU yw i'r etholiadau CHTh gael eu cyfuno â'r rhai ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid cael cadarnhad mewn da bryd y bydd y ddeddfwriaeth alluogi yn cael ei dwyn ymlaen er mwyn i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru allu cynllunio'n drylwyr. Byddwn yn craffu'n agos ar gynlluniau Llywodraeth y DU i reoli datblygiad unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016, fel y gellir rhoi sylw i'r heriau penodol o gyfuno'r bleidlais ar gyfer etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau llywodraeth leol Lloegr a drefnwyd. Yn yr un modd, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu na ddylid cyfuno'r pleidleisiau ar gyfer yr etholiadau hyn, dylai hynny gael ei gyfleu i Swyddogion Canlyniadau ar y cyfle cyntaf.

Deddfwriaeth ar gyfer yr etholiadau: casgliadau ac argymhellion

2.56 Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Tachwedd 2012 oedd y gyfres newydd gyntaf o etholiadau yn y DU ers mwy na degawd. Roedd sefydlu'r fframwaith ar gyfer yr etholiadau yn gofyn am wneud ystod o benderfyniadau polisi sylweddol a newydd a datblygu deddfwriaeth gynhwysfawr newydd. Mae'r adran hon yn nodi ein casgliadau ynglŷn â'r broses o sefydlu'r fframwaith ar gyfer yr etholiadau hyn, ac yn nodi ein hargymhellion ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol a'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer unrhyw etholiadau newydd.

2.57 Er i'r Ddeddf PRSR dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2011, fwy na blwyddyn cyn yr oedd yr etholiadau i fod i ddigwydd, ni chwblhawyd datblygiad y ddeddfwriaeth eilaidd fanwl tan yn llawer agosach at y diwrnod pleidleisio: gosodwyd y gorchymyn rheoli manwl ar gyfer yr etholiadau chwe mis a daeth i rym lai na phedwar mis cyn y diwrnod pleidleisio; gosodwyd y gorchymyn sy'n pennu'r symiau y gellid eu hawlio gan Swyddogion Canlyniadau Lleol i gynnal yr etholiadau a daeth i rym ddau fis cyn y diwrnod pleidleisio; gosodwyd y gorchymyn sy'n pennu'r ffurflen i'w defnyddio ar gyfer papurau pleidleisio dwyieithog yng Nghymru a daeth i rym lai na thair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio.

2.58 Dylai fod wedi bod yn bosibl i Lywodraeth y DU osgoi'r fath gadarnhad hwyr ac, yn achos y Gorchymyn Ffurflenni Cymraeg, cadarnhad costus o'r fframwaith manwl ar gyfer cynnal yr etholiadau CHTh. Roedd llawer o fframwaith yn seiliedig ar ddeddfwriaeth bresennol, a oedd angen newid cymharol syml i adlewyrchu gofynion penodol ar gyfer yr etholiadau CHTh. Byddai gwell cynllunio, a dull mwy cydweithredol o ddatblygu deddfwriaeth ar draws (a rhwng) adrannau, a mwy o eglurder ynglŷn â nodau polisi, yn helpu i gefnogi darpariaeth fwy effeithiol ac amserol o ddeddfwriaeth ar gyfer etholiadau i'r dyfodol.

2.59 Rydym yn falch bod Swyddfa'r Cabinet eisoes wedi dosbarthu i Swyddogion Canlyniadau sydd wedi'u cynrychioli ar ei grŵp cynllunio a chydlynu ei hun, amserlen sy'n amlinellu'r gweithgareddau cynllunio allweddol, cerrig milltir a therfynau amser ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop a drefnwyd ar gyfer yr haf 2014. Bydd hyn yn galluogi Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn i fonitro a dwyn y Llywodraeth i gyfrif am y cynnydd y mae'n ei wneud tuag at sicrhau bod fframweithiau cynllunio a deddfwriaethol yn eu lle mewn da bryd cyn y bleidlais.

2.60 Rydym yn bwriadu dychwelyd at y materion hyn yn fanylach er mwyn llywio'r broses gynllunio ar ôl mis Mai 2014 ac i wneud yn gyhoeddus ein hasesiad o gyflwr parodrydd ar gyfer cyfuno, mewn pryd ar gyfer yr etholiadau yn 2016. Byddwn yn cynnal ymarfer tebyg petai etholiadau yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cyfuno ag Etholiad Cyffredinol Senedd Prydain yn 2015.

Argymhelliad 1: Gwella cynllunio a rheoli deddfwriaeth ar gyfer etholiadau i'r dyfodol

Ar gyfer etholiadau i'r dyfodol lle mae deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig yn ofynnol, rhaid i'r adran berthnasol o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am yr etholiadau hynny ddysgu o brofiad etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012 i roi gwell cynllunio tymor canolig ar gyfer cyflwyno'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Heb fod yn hwyrach na dwy flynedd cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer unrhyw etholiadau a drefnwyd, dylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y polisi etholiadau amlinellu cynllun ar gyfer sut y maent yn bwriadu rheoli'r prosesau datblygu polisi, drafftio a chraffu deddfwriaethol sy'n ofynnol i gwrdd â'r cerrig milltir allweddol canlynol a dyddiadau cau:

- Cadarnhad (boed hynny drwy Gydsyniad Brenhinol i ddeddfwriaeth sylfaenol neu osod is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo gan y Senedd) o'r cyllid ymgyrch a rheolau gwario **o leiaf dri mis cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir.**
- Pan fo etholiadau'n cael eu cynnal am y tro cyntaf, neu lle mae'r cyllid ymgyrch a rheolau gwariant yn sylweddol wahanol i hwnnw mewn etholiadau blaenorol, dylai'r rheolau gael eu cadarnhau **o leiaf chwe mis cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir.**
- Cadarnhad o'r holl reolau manwl ar gyfer cynnal a chyllid ar gyfer cyflwyno'r etholiadau (gan gynnwys unrhyw orchmynion gofynnol i nodi papurau pleidleisio a ffurflenni dwyieithog yng Nghymru) **ddim llai na chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio.**

Heb fod yn hwyrach na 18 mis cyn y diwrnod pleidleisio, byddwn yn adolygu cynigion y Llywodraeth ac yn cyhoeddi adroddiad yn nodi ein hasesiad o'r cynnydd tuag at gwrdd â'r cerrig milltir a therfynau amser.

Bydd yn arbennig o bwysig i'r Swyddfa Gartref osod allan yn glir **erbyn Mai 2014** sut y bydd yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru i reoli'r gwaith o ddatblygu unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016, fel bod yr heriau o gyfuno'r etholiad gyda'r etholiad cyffredinol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr a drefnwyd yn cael sylw.

Byddwn yn adolygu cynlluniau Llywodraeth y DU **erbyn mis Tachwedd 2014** ac yn cyhoeddi ein hasesiad o gynnydd tuag at gyflawni'r cerrig milltir allweddol a'r terfynau amser ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016.

3 Cyfranogiad pleidleiswyr

3.1 Dylai cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda fod yn syml, a dylai pobl fod yn hyderus bod eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn bwriadu. Mae'r bennod hon yn edrych ar gyfranogiad gan y cyhoedd yn etholiadau Tachwedd 2012, gan gynnwys pam na wnaeth pobl bleidleisio yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a p'un a oedd pobl yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am yr etholiadau ac ymgeiswyr i allu gwneud dewis gwybodus.

3.2 Lle bo data ar gael, rydym wedi ceisio nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol yn safbwyntiau pobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â gwahanol grwpiau demograffig. Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol, ac mae unrhyw wrthgyferbyniadau nodedig yn cael eu hamlygu yn y testun isod.

Y nifer a bleidleisiodd

3.3 Roedd cyfanswm o bron i 36.3m o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Tachwedd 2012, a chafodd 5.49m o bleidleisiau eu bwrw. Ar 15.1%, roedd y ganran a bleidleisiodd yn yr etholiadau CHTh y lefel isaf o gyfranogiad a gofnodwyd mewn etholiad nad oedd yn etholiad llywodraeth leol yn y DU mewn cyfnod o heddwch¹⁸.


3.4 Roedd y ganran uchaf a gofnodwyd o'r rhai a bleidleisiodd, sef 19.8%, yn Ardal Heddlu Swydd Northampton, a oedd yn cynnwys etholaeth Seneddol Corby, lle'r oedd isetholiad proffil uchel yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod. Roedd y ganran isaf o bleidleiswyr sef 12% yn Ardal Heddlu Swydd Stafford. Dengys Siart 1 ar dudalen 35 isod lefel y nifer a bleidleisiodd ar gyfer pob un o'r 41 o ardaloedd heddlu.

3.5 Cafodd mwy na 5.8 miliwn o etholwyr bleidleisiau post ar gyfer etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012, sy'n cynrychioli 16.1% o'r etholwyr cymwys. Ychydig o dan hanner (48.2%) y rhai yr anfonwyd pleidlais drwy'r post iddynt a'i dychwelodd, tra mai dim ond 9.2% o'r holl etholwyr eraill a bleidleisiodd yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio. Yn Lloegr a Chymru, roedd pleidleisiau drwy'r post yn cynrychioli tua hanner yr holl bleidleisiau a gafodd eu cyfrif yn yr etholiadau Tachwedd 2012.


3.6 Dengys Siart 2 ar dudalen 36 isod y nifer o bleidleiswyr ymhlith etholwyr a dderbyniodd bleidleisiau drwy'r post ac etholwyr eraill a bleidleisiodd yn bersonol mewn amrywiaeth o etholiadau ers 2010. Tra bod cyfranogiad gan etholwyr a dderbyniodd bleidleisiau drwy'r post yn etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012 yn gyson â thuedd gyffredinol o nifer uwch o bleidleiswyr o'i gymharu ag etholwyr eraill a bleidleisiodd yn bersonol mewn gorsaf oedd pleidleisio, roedd y nifer a bleidleisiodd ymhlith pleidleiswyr drwy'r post ym mis Tachwedd 2012 yr isaf ar gyfer unrhyw etholiad nad oedd yn un llywodraeth leol y mae gennym ddata ar eu cyfer.

¹⁸ Cofnodwyd y nifer a bleidleisiodd yn etholaeth Senedd y DU Poplar South yn 1942 yn 8.5%.

Siart 1: Y ganran a bleidleisiodd yn ôl ardal heddlu yn etholiadau CHTH yn Nhachwedd 2012



Siart 2: Y ganran a bleidleisiodd yn ôl dull pleidleisio mewn etholiadau dethol 2010-12




3.7 Cafodd tua 24,000 o etholwyr eu penodi fel dirprwy ar gyfer etholwr arall yn yr etholiadau CHTH, yn cynrychioli 0.07% o'r cyfanswm etholwyr. O'r cyfanswm hwnnw, penodwyd 196 yn ddirprwyon o ganlyniad i argyfyngau meddygol.

Pam fod pobl yn pleidleisio?

3.8 Archwiliodd ein hymchwil barn gyhoeddus pam fod pobl yn pleidleisio yn yr etholiadau CHTH. Fel y dangosir yn y siart isod ac yn gyson yn fras â chanfyddiadau o etholiadau blaenorol, y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros bleidleisio oedd teimlad o ddyletswydd ddinesig (75%) ac i fynegi barn (30%).

3.9 Dim ond 4% o bleidleiswyr ddywedodd eu bod wedi pleidleisio er mwyn anfon neges i'r llywodraeth, a oedd yn llai na Mai 2012 pan ddywedodd 16% eu bod wedi pleidleisio am y rheswm hwn. Dim ond 2% a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio o ganlyniad i resymau sy'n gysylltiedig â throeddau.

Siart 3: Pam wnaethoch chi bleidleisio? Cymhariaeth rhwng etholiadau llywodraeth leol Mai 2012 ac etholiadau CHTH Tachwedd 2012




Pam na wnaeth pobl bleidleisio?

3.10 Hefyd archwiliodd ein hymchwil barn gyhoeddus y rhesymau a roddwyd gan bobl a ddywedodd nad oeddent wedi pleidleisio yn yr etholiadau Tachwedd 2012, a dengys Siart 4 isod y prif resymau a roddwyd gan bobl pam nad oeddent wedi pleidleisio. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd dros beidio â phleidleisio oedd diffyg ymwybyddiaeth (37%), yn bennaf diffyg gwybodaeth am yr etholiadau, a heb wybod pwy oedd yr ymgeiswyr neu ble i ddod o hyd i wybodaeth amdanynt. Roedd y gyfran o'r rhai na

wnaeth bleidleisio a nododd ddiffyg ymwybyddiaeth dros bum gwaith yn fwy na'r gyfran a roddodd ymateb tebyg yn dilyn etholiadau lleol Mai 2012 (pan nododd 7% faterion ymwybyddiaeth).

Siart 4: Pam na wnaethoch chi bleidleisio? Cymhariaeth rhwng etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2012 ac etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012



3.11 Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y diffyg gwybodaeth am yr etholiadau ac ymgeiswyr wedi cael effaith fwy sylweddol ar gyfranogiad ymhlith grwpiau sy'n draddodiadol yn fwy tebygol o bleidleisio mewn etholiadau.¹⁹ Roedd y rhai 18-24 oed yn

¹⁹ Mae ein sampl arolygon barn gyhoeddus a chyfran gweddol gyfartal o bleidleiswyr a rhai nad oeddynt wedi pleidleisio sy'n ei wneud yn anaddas i ddarparu amcangyfrifon y nifer a bleidleisiodd. Fodd bynnag, mae'n ein galluogi i ddweud pa grwpiau demograffig sy'n fwy neu'n llai tebygol o bleidleisio mewn perthynas â'i gilydd. Mae'r arolwg hwn, yn unol ag ymchwil yn y gorffennol, yn dangos fod grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o bleidleisio, yn enwedig 65+ a 55-64, gyda phobl yn y grŵp oedran 18-24 y lleiaf tebygol o droi allan. Yn llai nodweddiadol, mae aelodau o'r grŵp cymdeithasol lleiaf cefnog DE yn fwy

llai tebygol na phobl mewn grwpiau oedran hŷn i ddweud nad oeddent wedi pleidleisio oherwydd 'diffyg ymwybyddiaeth', ac yn fwy tebygol o ddweud bod 'amgylchiadau' wedi eu hatal rhag pleidleisio. Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau oedran iau²⁰ o ddweud nad oeddent wedi pleidleisio am resymau oedd ymwneud â phleidiau neu ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys rhesymau megis 'Doeddwn i ddim yn hoffi'r ymgeiswyr', 'Maent i gyd yr un fath' a 'Doeddwn i ddim yn hoffi 'r dewisiadau oedd ar gael'.

3.12 Roedd ymatebwyr mewn yn y graddau cymdeithasol uwch AB yn fwy tebygol na'r rhai mewn graddau DE i ddweud nad oeddent wedi pleidleisio oherwydd diffyg ymwybyddiaeth am yr etholiadau. Hefyd roedd y rhai yn y graddau cymdeithasol AB a C1 yn fwy tebygol na graddau eraill i ddweud nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad gwybodus.

3.13 'Amgylchiadau' oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan atebwyr dros beidio troi allan i bleidleisio (31%), gyda phobl nad oeddynt wedi pleidleisio yn Lloegr yn fwy tebygol o nodi hyn fel rheswm na'r rhai yng Nghymru (32% o'i gymharu â 20% yng Nghymru). Roedd cyfran y rhai nad oeddynt wedi pleidleisio a nododd resymau amgylchiadol dros beidio â phleidleisio ym mis Tachwedd 2012 gryn dipyn yn llai na'r gyfran a nododd hynny fel rheswm yn dilyn etholiadau Mai 2012 (53%). Y prif resymau dros beidio â phleidleisio a ddosberthir fel rhai 'amgylchiadol' yw 'Diffyg amser', 'Anghofiais' ac 'Roeddwn wir eisiau pleidleisio ond gwnaeth amgylchiadau ar y diwrnod fy atal'. Nid yw problemau gyda'r tywydd neu amser o'r flwyddyn yn cael eu nodi gan unrhyw ymatebwyr i'n hymchwil barn gyhoeddus fel rhesymau pam nad oeddent wedi pleidleisio, ond dywedodd 2% o'r rhai na phleidleisiodd nad oeddynt wedi gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio neu ei fod yn anghyfleus.


3.14 Yn syth ar ôl yr etholiadau, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cartref y gellid disgwyl nifer is o bleidleiswyr mewn etholiadau newydd.²¹ Er y gall fod yn wir y bydd y nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau nesaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn 2016 yn uwch nag yr oedd yn 2012, dengys Siart 5 isod bod nifer y pleidleiswyr yn yr etholiadau CHTH Tachwedd 2012 serch hynny'n sylweddol is o'i gymharu â lefelau cyfranogiad yn yr etholiadau cyntaf ar gyfer sefydliadau eraill.

tebygol o droi allan i bleidleisio na'r holl grwpiau eraill a gafodd eu dosbarthu yn gymdeithasol, gan gynnwys yr ABs.

²⁰ Dengys ffigyrau o'n hymchwil barn gyhoeddus fod pobl yn y grŵp oedran 65 + yn llawer mwy tebygol na'r rhai 35-54 oed i fod heb bleidleisio o ganlyniad i resymau sy'n ymwneud ag ymgeiswyr. Er y gwelwyd y gwahaniaeth rhwng y rhai oed 65 + a phob grŵp oedran, mae'r maint sylfaen bach mewn rhai achosion yn golygu nad yw'r gwahaniaethau eraill yn ystadegol arwyddocaol.

²¹ Y Gwir Anrh. Theresa May, 16 Tachwedd 2012 wedi'i dyfynnu yn The Telegraph <http://www.telegraph.co.uk/news/politics/9682898/Police-and-commissioner-elections-and-parliamentary-by-elections-Live.html> 'Yn amlwg cefais fy siomi yn y nifer o bobl a bleidleisiodd, ond roedd y rhain yn etholiadau cyntaf ac mae etholiadau cyntaf bob amser yn anodd. Rwy'n siŵr y tro nesaf byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio oherwydd erbyn y tro nesaf bydd pobl wedi arfer i'r syniad o gomisiynwyr yr heddlu a throsedd, byddant wedi eu gweld ar waith ac, wrth gwrs, bydd yn deiliaid swydd yn o fydd yn cael ei herio.'

Siart 5: Y ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau cyntaf i gyrff newydd ers 1998^{22 23 24 25}



Ymwybyddiaeth o'r etholiadau

3.15 Roeddem hefyd yn gofyn i bobl yn ein harolwg barn gyhoeddus faint yr oeddynt yn credu eu bod yn ei wybod am yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac mae'r prif ganfyddiadau'n cael eu crynhoi a'u cymharu â'r pleidleisiau eraill a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2012 yn Siart 6 isod.

²² Tabl 5.2, tudalen 11

<http://www.niassembly.gov.uk/Documents/RaISe/Publications/2011/General/5511.pdf>


²³ Tabl 2, tudalen 7 <http://www.parliament.uk/documents/commons/lib/research/rp99/rp99-051.pdf>

²⁴ Ffigyrau lefel etholaeth;

http://www.scottish.parliament.uk/Electionresults/2011%20election/5_Turnout_Region.pdf

²⁵ London Elects, <http://www.londonelects.org.uk/im-voter/results-and-past-elections/results-2000>

Siart 6: Gwybodaeth am yr etholiadau CHTh, etholiad maerol a refferendwm



3.16 Dywedodd dros chwarter (28%) o bobl nad oeddynt yn gwybod 'dim byd o gwbl' a 48% nad oeddynt yn gwybod 'fawr ddim' am ddiben yr etholiadau CHTh. Dim ond 24% a ddywedodd eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn' am yr etholiadau CHTh. ²⁶

3.17 Ym mis Mai 2012, dywedodd 52% eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn' am yr etholiadau cyngor lleol²⁷ a 73% ar gyfer etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf.

²⁶ Nid oedd ein harolwg barn gyhoeddus yn cynnwys samplu pleidleiswyr a'r rhai na bleidleisiodd mewn ardaloedd lle y cynhaliwyd isetholiadau seneddol. Tra ein bod yn gwybod ymlaen llaw lle'r oedd yr etholiadau CHTh a'r rhai maerol i gael eu cynnal, nid oeddem yn gwybod lle byddai'r isetholiadau yn cael eu cynnal tan ychydig cyn iddynt ddigwydd. Yn ymarferol, roedd hyn yn rhy fyr rybudd ar gyfer dylunio holiadur a samplu.


²⁷ Mae'r ffigwr hwn wedi cael ei gyfuno ar gyfer etholiadau cyngor lleol yng Nghymru, yr Alban a Chymru ym Mai 2012.

3.18 Hefyd roedd llawer mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn oedd diben etholiad maerol ym Mryste a refferendwm Hartlepool ym mis Tachwedd 2012: dywedodd 56% a 40% o bobl yn y drefn honno yn yr ardaloedd hynny eu bod yn gwybod 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn' am yr etholiadau.

Mynediad at wybodaeth

3.19 Cytunodd ychydig o dan draean (30%) o bobl a ymatebodd i'n harolwg barn gyhoeddus eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall rôl y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, gyda phleidleiswyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth (46% yn erbyn 22% na wnaeth bleidleisio). Nododd ychydig dros chwarter (27%) nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i bleidleisio yn yr etholiadau, ac unwaith eto roedd pleidleiswyr yn debygol o ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth (43% yn erbyn 18% na wnaeth bleidleisio).

Siart 7: Mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r etholiadau CHTh



3.20 Mewn cymhariaeth, cytunodd 70% o bobl ym Mryste eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i bleidleisio yn yr etholiad maerol. Ar gyfer refferendwm Hartlepool ar drefniadau llywodraethu lleol, roedd 44% o bobl yn

cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i bleidleisio. Efallai y gellir esbonio'r ganran uwch ym Mryste o bobl oedd yn cytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth trwy'r ffaith bod pob cartref wedi derbyn llyfryn a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar sut i bleidleisio ac am yr ymgeiswyr oedd yn sefyll.

3.21 Roedd bron i hanner y bobl a ymatebodd i'n harolwg (48%) wedi ei chael hi'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd cael gafael ar wybodaeth am sut i bleidleisio yn yr etholiadau CHTh. Dywedodd tri deg y cant eu bod wedi ei chael hi'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd cael gafael ar wybodaeth am 'ddiben etholiadau CHTh a rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd'. Roedd pobl yng Nghymru yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn 'anodd iawn' (26% yn erbyn 20% yn Lloegr).

3.22 Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr (55%) eu bod yn ei chael hi'n weddol anodd (21%) neu'n anodd iawn (34%) cael gafael ar wybodaeth am yr ymgeiswyr yn sefyll yn yr etholiad, tra bod 21% wedi ei chael yn hawdd.

Adborth yn uniongyrchol gan y cyhoedd am yr etholiadau

3.23 Yn ystod y pedwar diwrnod gwaith yn dilyn yr etholiad, derbyniodd y Comisiwn dros 500 o negeseuon e-bost gan y cyhoedd am yr etholiadau CHTh. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o fwy na 600% o'i gymharu â nifer y negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd ar ôl etholiadau Mai 2012.²⁸

3.24 Prif themâu'r sylwadau a gafwyd mewn e-byst gan y cyhoedd oedd:

- Roedd pobl yn teimlo bod yr etholiadau wedi cael eu gorfodi arnynt ac y dylai fod refferendwm wedi ei gynnal cyn i'r etholiadau ddigwydd.
- Pryder ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am yr etholiadau ac am ymgeiswyr, gan gynnwys bod y wybodaeth am ymgeiswyr ar gael yn bennaf ar y rhynggrwyd.
- Dylai ymgeiswyr fod wedi bod yn annibynnol yn hytrach nag yn gysylltiedig â phlaid.
- Llyfryn gwybodaeth y Comisiwn heb ei dderbyn.
- Cost yr etholiadau.
- Pryder ynglŷn â'r nifer o bleidleisiau a wrthodwyd.

3.25 Rydym yn nodi isod ddetholiad o ddyfyniadau a dderbyniwyd mewn negeseuon e-bost gan aelodau o'r cyhoedd, sydd yn enghreifftiol o ystod o bryderon a godwyd:

²⁸ Roedd etholiadau Mai 2012 yn cynnwys etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, yr Alban a Chymru, Maer Llundain ac etholiadau Cynulliad, a refferenda llywodraeth leol mewn rhai rhannau o Loegr.

Wnes i ddim pleidleisio ddoe oherwydd yr wyf yn ei chael yn mor anodd cefnogi'r cysyniad o gomisiynwyr etholedig, ac yn teimlo nad yw'r broses gyfan yn cynrychioli defnydd da o arian cyhoeddus. Ystyriais gyflwyno papur pleidleisio wedi'i ddifetha gan mai dyma'r etholiad cyntaf mewn tua 30 mlynedd i mi beidio â phleidleisio.

Difethais fy mhapur pleidleisio am y tro cyntaf yn fy mywyd ac rwyf wedi bod yn pleidleisio ym mhob etholiad ers yr 1950au. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol i Gomisiynwyr yr Heddlu fod yn wleidyddol. Nid oedd gan yr amser o'r flwyddyn ddim i'w wneud â'm penderfyniad.

Nid oedd unrhyw ddiben o gwbl dweud ei fod i gyd ar y wefan NID OES GAN GANRAN UCHEL O ETHOLWYR FYNEDIAD I'R RHYNGRWDYD AC NID YDYNT EI EISIAU CHWAITH.²⁹

Wnes i ddim traferthu pleidleisio oherwydd doedd gen i ddim syniad pwy oedd yn sefyll, eu cefndir na'u barn. Ni chafodd unrhyw ddeunydd etholiad ei ddsbarthu, ac ni chafwyd unrhyw ganfasio.

Negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd Tachwedd 2012

3.26 Hefyd roedd adborth anecdotaidd gan Swyddogion Canlyniadau, ymgeiswyr a sylwedyddion eraill a oedd yn bresennol yn lleoliadau cyfrif hefyd yn awgrymu bod barn debyg wedi'i mynegi gan bleidleiswyr drwy sylwadau ysgrifenedig yn uniongyrchol ar eu papurau pleidleisio (gweler paragraff 3.94).

Adborth gan ymgeiswyr am fynediad at wybodaeth

3.27 Yn yr wythnos ar ôl yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, anfonasom arolwg drwy'r post i bob un o'r 191 o ymgeiswyr a chawsom 96 o ymatebion erbyn 18 Rhagfyr.³⁰ Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin i'n harolwg ymgeiswyr yn ymwneud ag absenoldeb ymgyrch bostio ymgeiswyr. Teimlai ymgeiswyr yn gryf nad oedd etholwyr wedi cael digon o wybodaeth am yr etholiadau (yn gyffredinol, ac ar ymgeiswyr unigol) a'u bod yn credu bod hyn wedi cyfrannu at y nifer isel a bleidleisiodd.

3.28 Nododd ymgeiswyr fod pleidleiswyr wedi mynegi pryder ynghylch pleidleisio mewn etholiad lle nad oedd ganddynt wybodaeth am yr holl ymgeiswyr, ond hefyd nodwyd y costau ac adnoddau gwaharddol o drefnu ymgyrch bostio'n unigol. Roedd hefyd teimlai ymgeiswyr bod yr her o ymgysylltu pleidleiswyr cael ei waethygu gan sylw

²⁹ Pwyslais y gohebydd ei hun.

³⁰ Mewn rhai achosion, lle nad oedd cyfeiriad yr ymgeisydd ar gael, ysgrifenasom at yr asiant etholiad i ofyn a fyddent yn pasio'r arolwg ymlaen. Y 191 o ymgeiswyr a ymgyrchodd yn weithredol, ac eithrio'r ymgeisydd a gafodd ei hun wedi'i wahardd, ond yr oedd ei enw'n parhau ar y papur pleidleisio.

canfyddedig elyniaethus neu negyddol yn y wasg, yn aml yn canolbwyntio ar bersonoliaethau yn hytrach na'r materion dan sylw.

3.29 Mynegodd yr ymgeiswyr bryder fod dibynnu ar bleidleiswyr yn cael mynediad ar-lein yn unig at wybodaeth yn annigonol ac yn anfanteisiol i bleidleiswyr (yn enwedig pobl hŷn) nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd. Hefyd teimlai ymgeiswyr bod hyd yn oed pleidleiswyr a oedd gyda mynediad i'r rhyngwrwd yn ymddangos yn amharod i gael mynediad at y math hwn o wybodaeth ar-lein. Yn ogystal, nodwyd problemau technegol gyda gwefan y Swyddfa Gartref a'r llinell ffôn ategol, megis oedi wrth anfon gwybodaeth copi caled am ymgeiswyr y gofynnwyd amdani.

3.30 Nodwn isod ddetholiad o ddyfyniadau o ymatebion gan ymgeiswyr sy'n enghreifftiol o'r ystod o bryderon a godwyd:

Cafodd difaterwch y cyhoedd ei waethygu gan y diffyg ymgyrch bostio ymgeiswyr. Dylai hyn fod wedi cael ei ddarparu er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd yn y broses.

Yn fy marn i roedd [y penderfyniad i beidio â darparu ymgyrch bostio i ymgeiswyr] yn ddiangen o grintachlyd ac yn hynod o gibddall. Arweiniodd at rwystredigaeth pleidleiswyr, a gyfrannodd yn ei dro at ddifaterwch pleidleiswyr.

Yn syml, ni wyddai'r cyhoedd ddim am y newid sylfaenol hwn i lywodraethu'r heddlu nac unrhyw beth am y system bleidleisio nac unrhyw un o'r ymgeiswyr ... dylai mwy o ymdrech fod wedi ei gwneud i hysbysu'r cyhoedd.

Sylwadau gan ymatebwyr i'n harolwg o ymgeiswyr CHTh

Darparu gwybodaeth i bleidleiswyr

Penderfyniadau ynghylch ymgyrch bostio ymgeiswyr

3.31 Penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â darparu ymgyrch bostio rhabdost i ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn yr etholiadau. Roedd hyn yn newid sylweddol o etholiadau eraill o raddfa gymharol³¹ ac roeddem wedi mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl penderfyniad y Llywodraeth ar ymwybyddiaeth pleidleiswyr tra bod y Mesur PRSR yn dal i fod gerbron y Senedd.³²

³¹ Nid yw postio Rhabdost yn cael ei ddarparu mewn etholiadau llywodraeth leol (ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon) ac, er bod maint cymharol yr ardaloedd etholiadol yn wahanol iawn, nid yw'n annirnadwy i ymgeisydd a'u cefnogwyr ganfasio neu ddisbarthu tafenni ar draws y cyfan o ward yr awdurdod lleol. Fel ym mis Hydref 2012, y nifer fwyaf o etholwyr seneddol mewn ward yn Lloegr oedd ward Springfield yn Birmingham gydag ychydig dros 20,000 a'r lleiaf yn ward Ravenstonedale ward yn nyffryn Eden, Cumbria, tua 800 (Ffynhonnell: Y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr). Mae hyn yn cyferbynnu â'r ardal heddlu fwyaf, Manceinion Fwyaf, gyda tua 2 filiwn o etholwyr a'r lleiaf, a Dyfed Powys, gyda 380,000.

³² Llythyr oddi wrth Jenny Watson, Cadeirydd i'r Farwnes Browning - 27 Gorffennaf, 2011

3.32 Er fod amser rhwng ein gwrthwynebiad cychwynnol a'r ddeddfwriaeth a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol, ni wnaeth Llywodraeth y DU archwilio effaith peidio â darparu postio rhad ac ddim i ymgeiswyr mewn digon o fanylder.

3.33 Esboniodd Llywodraeth y DU fod y dewis o ymgyrch bostio ymgeiswyr wedi ei wrthod ar sail cost, yr amcangyfrifir y byddai hyd at £35 miliwn.³³ Gwnaethom herio'r ffigwr hwn ac awgrymu ffyrdd o leihau costau - megis cynhyrchu un llyfryn ar gyfer pob ardal heddlu oedd â datganiadau gan bob ymgeisydd y gellid ei anfon i gartrefi, yn hytrach na bod ymgeiswyr unigol yn postio ar wahân. Yn ogystal â datganiadau gan ymgeiswyr, gallai'r llyfryn fod wedi cynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr etholiadau a sut i bleidleisio ynddynt.

3.34 Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o gostau galw heibio'r drws, byddai £9-10 miliwn yn amcangyfrif mwy rhesymol o'r gost i gynhyrchu 41 o fersiynau gwahanol (i bob ardal heddlu) o lyfryn 16-tudalen canolog yn cynnwys manylion ymgeiswyr, y gellid ei anfon drwy'r post i bob cartref.³⁴ Pe bai hyn wedi digwydd, fel y gwnaethom yn glir, ni fyddai'r Comisiwn wedyn wedi gorfod anfon ei lyfryn gwybodaeth gyffredinol i bob cartref ar gost o oddeutu £1.2 miliwn, gan y gallem fod wedi cynnwys y wybodaeth yn y llyfryn ymgeiswyr. Hefyd byddai rhedeg ond un ymgyrch hysbysebu wedi cynhyrchu arbedion cost pellach (costiodd ymgyrch y Swyddfa Gartref tua £3 miliwn).

3.35 Fodd bynnag, nid ymgymerwyd â'r naill opsiwn na'r llall ac yn hytrach, penderfynodd Llywodraeth y DU gynnal gwybodaeth ymgeiswyr ar wefan ganolog gyda chopïau wedi'u hargraffu ar gael ar gais drwy linell ffôn archebu awtomataidd. Tynasom sylw at nifer o bryderon sylweddol gyda'r dull arfaethedig,³⁵ ar y sail bod pleidleiswyr angen derbyn gwybodaeth gan ymgeiswyr, drwy ddull dibynadwy, er mwyn gwneud dewis gwybodus yn yr etholiadau. Tynasom sylw Llywodraeth y DU at dystiolaeth bod amcangyfrif fod cymaint â saith miliwn o bobl yn Lloegr (tu allan i Lundain) a Chymru heb ddefnyddio'r Rhyngwrdd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.³⁶

3.36 Wrth ymateb i bryderon y Comisiwn ynghylch y cynigion a gynhwyswyd yn y *Gorchymyn Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012*, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref:

Er fy mod wyf yn ymwybodol bod hyn yn cynrychioli newid o'r hyn sy'n digwydd mewn rhai etholiadau, mae gwaith manwl wedi ei wneud i edrych ar yr effaith ymarferol y caiff polisi ar etholwyr, ymgeiswyr a gweinyddwyr. Fel y gŵyr y Comisiwn o'n trafodaethau helaeth ar y mater, rydym wedi ystyried nifer o opsiynau'n ofalus iawn ac wedi dod i'r casgliad mai cyfuniad o wefan a

³³ 'Gallai postio ar gyfer postio etholiad gan bob ymgeisydd CHTh i bob etholwr fod wedi costio cymaint â £35 miliwn yn gyfan gwbl, a byddai hyd yn oed postio llyfryn cyfunol i bob etholwr, fel sy'n digwydd mewn etholiadau maerol, fod wedi costio tua £12 miliwn' Nick Herbert AS, 26 Mehefin 2012, Ail Bwyllgor Deddfwriaeth Ddirprwyedig yn Col 4

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmgeneral/deleg2/120626/120626s01.htm>

³⁴ Awgrymodd ein cyflenwr rheoli galw heibio'r drws, hyd yn oed yn bod yn hael â'r ffigyrau, y byddai £9-10m yn amcangyfrif tecach o'r gost.

³⁵ Llythyr oddi wrth Jenny Watson, Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cartref - Chwefror 22, 2012

³⁶ Mynegai Grŵp Targed – Q1 2012 (<http://kantarmedia-tqigb.com/tqi-surveys/gb/>)

gwasanaeth argraffu-ar-alw yw'r ffordd fwyaf effeithiol, a'r gwerth gorau am arian, o ddarparu gwybodaeth ymgeiswyr a sicrhau maes chwarae gwastad o dan yr amgylchiadau. Byddwn wrth gwrs yn cyhoeddi asesiad o effaith y cynigion o ran hyrwyddo cydraddoldeb pan fydd y Gorchymyn yn cael ei osod yn y Senedd.

**Y Gwir Anrh. Anrhydeddus Theresa May AS, Ysgrifennydd Cartref
Mai 2012³⁷**

3.37 Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Ddatganiad Polisi Cydraddoldeb ar ei gynigion ar gyfer defnyddio gwefan i roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ymgeiswyr.³⁸ Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn dadlau y byddai dull Llywodraeth y DU yn galluogi mynediad cost-effeithiol at wybodaeth ymgeiswyr o fewn amser byr ac, oherwydd bod amcangyfrif bod tua 80% o gartrefi â mynediad i'r rhyngwrwd, yn gwneud y wybodaeth 'yn llawer mwy hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol nag un sianel yn unig, ac yn enwedig y grwpiau hynny sydd fel arfer yn llai tebygol o gymryd rhan mewn etholiadau '. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn anghytuno y byddai ymgyrch bostio gwybodaeth ymgeiswyr a anfonir yn uniongyrchol at etholwyr neu gartrefi yn decach, gan ddadlau nad yw pobl yn aml yn darllen post na ofynnwyd amdano. Yn hytrach, honnodd bod 'gwasanaeth ar-alw yn sicrhau bod pawb sydd eisiau'r wybodaeth yn ei derbyn, ac y byddant yn disgwyl iddo gyrraedd.'

3.38 Derbyniodd gwefan y Swyddfa Gartref choosemypcc.org.uk dros 1.9 miliwn o ymweliadau rhwng 5 Hydref -15 Tachwedd 2012.³⁹ Gwnaeth rhagor na 122,000 o bobl archebu gwybodaeth ymgeiswyr wedi'i argraffu (90,000 trwy linell gymorth y Swyddfa Gartref a 32,000 drwy choosemypcc.org.uk). Mae hyn yn cyfateb i tua 0.3% o bleidleiswyr cymwys yn gweld gwybodaeth ymgeiswyr argraffedig gan y Swyddfa Gartref. Hyd yn oed os yw pob person a edrychodd ar y wefan choosemypcc wedi lawrlwytho neu edrych ar y wybodaeth am ymgeiswyr yn eu hardal, mae hyn, ynghyd â deunydd printiedig, yn cyfateb i 5.6% o bleidleiswyr cymwys yn gweld gwybodaeth ymgeiswyr gan y Swyddfa Gartref. Yn ogystal, roedd nifer sylweddol o alwyr i linell gymorth y Comisiwn a ddywedodd eu bod yn cael problemau cael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr, dros 55 oed. Er y gall hyn fod yn rhannol oherwydd bod pobl hŷn yn tueddu i ymgysylltu mwy, gall hefyd fod yn ganlyniad i'w defnydd prinnach o'r rhyngwrwd.

3.39 Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth o'r etholiadau yn awgrymu bod y Swyddfa Gartref wedi goramcangyfrif yn sylweddol i ba raddau y byddai'r cyhoedd yn chwilio am wybodaeth am eu hymgeiswyr, ac mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad bod

³⁷ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cartref i Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol derbyniwyd 17 Mai 2012.

³⁸ Swyddfa Gartref, *Policy Equality Statement (PES): Police and Crime Commissioners – Candidate addresses* (Mai 2012) <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/pcc-policy-equality-statement?view=Binary>

³⁹ Roedd nifer o wefannau eraill hefyd yn cynnal gwybodaeth gan ymgeiswyr, gyda rhai ohonynt yn cychwyn gwneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau. Mae www.topofthecops.com a www.policeelections.com yn engrheiffiau o'r rhain.

penderfyniad y Swyddfa Gartref ynghylch sut i ddarparu'r wybodaeth hon wedi ei yrru'n bennaf gan gost.

Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn

3.40 Darparodd y Ddeddf PRSR 2011 ar gyfer i'r Comisiwn Etholiadol ymgymryd â'r 'camau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol' i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau. Roedd hyn yn gyson â'n rôl ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn etholiadau eraill.

3.41 Roedd ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cynnwys llyfryn gwybodaeth a anfonwyd i bob cartref yn y 41 o ardaloedd heddlu yn Lloegr (tu allan i Lundain) a Chymru. Roedd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, sut i lenwi'r papur pleidleisio system Bleidlais Atodol, a manylion am rif ffôn a gwefan lle gallai pobl gael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr.

3.42 Cafodd hyn ei gefnogi gan ymgyrch hysbysebu a oedd yn rhedeg o 22 Hydref - 15 Tachwedd ar y teledu, radio, yn y wasg ranbarthol a lleol, a thrwy weithgarwch chwilio ar-lein. Roedd y neges ymgyrch yn annog pobl i gadw golwg am eu llyfryn ac yn egluro sut i gael un, pe na bai un yn eu cyrraedd. Yn y dyddiau cyn y diwrnod pleidleisio, roedd ein hysbysebion hefyd yn tynnu sylw at oriau agor gorsafoedd pleidleisio.

3.43 Fel gydag ymgyrchoedd blaenorol, roedd yr holl hysbysebion cyfeirio pobl i wefan y Comisiwn www.fymhleidlaisi.co.uk lle gallent lawrlwytho copi o'r llyfryn. Roedd yna hefyd llinell gymorth ffôn wedi'i sefydlu ar gyfer cyfnod yr ymgyrch y gallai pobl ei galw am fwy o wybodaeth, neu i ofyn am gopi o'r llyfryn.

3.44 Er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth mor hygyrch â phosibl i bobl â nam ar eu golwg neu glyw, i bobl ag anabledau dysgu, ac i'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gwnaethom greu nifer o rifynnau gwahanol o'r llyfryn. Yn ogystal â fersiynau Cymraeg a Saesneg, roedd ein llyfryn gwybodaeth hefyd ar gael mewn Arabeg, Bengali, Tsieinëeg, Gwjarati, Hindi, Punjabi, Urdu ac roedd y rhain ar gael ar www.fymhleidlaisi.co.uk o ddechrau mis Hydref 2012. Roedd y llyfryn hefyd ar gael mewn sain, Easy Read, fformatau Print Braille, BSL a Mawr. Gellir gweld canlyniadau'r ymgyrch isod (tudalen 51).

Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd Llywodraeth y DU

3.45 Yn ystod camau cynllunio cynnar yr etholiadau CHTh, awgrymodd Llywodraeth y DU y byddent yn rhedeg ymgyrch gwybodaeth pleidleiswyr ar gyfer yr etholiadau. Rhesymeg Llywodraeth y DU dros ymgymryd ag ymwybyddiaeth y cyhoedd oedd esbonio diben y polisi a rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Gwnaethom yn glir y byddai ein llyfryn gwybodaeth yn esbonio rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gwnaethom gwestiynu'r angen i Lywodraeth y DU redeg ei hymgyrch ei hun.

3.46 Gwnaethom hefyd fynegi pryderon ynghylch materion priodoldeb sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth yn ymgymryd ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â'r etholiadau hyn neu unrhyw etholiadau eraill, a'r dryswch a allai gael ei achosi wrth i bleidleiswyr weld dwy ymgyrch ar wahân. Ceisiasom gadarnhad buan o gynlluniau Llywodraeth y DU - nid oedd yn glir, er enghraifft, a oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu rhedeg ymgyrch gyhoedduswydd graddfa fawr ar y teledu a'r radio ynteu dim ond rhedeg ymgyrch ar-lein syml, wedi'i chefnogi gan friffio golygyddol i'r cyfryngau – er mwyn hysbysu'r gwaith o ddatblygu ein cynlluniau ymwybyddiaeth y cyhoedd.

3.47 Dim ond yng Ngorffennaf 2012 y gallodd y Swyddfa Gartref gadarnhau wrthym eu bod yn bwriadu cynnal ymgyrch hysbysebu ar y teledu a'r radio.⁴⁰

3.48 Pe byddai hyn wedi'i gadarnhau yn gynharach, mae'n debygol y byddem wedi adolygu ein cynlluniau eu hunain er mwyn cyd-drefnu datblygiad ein hymgyrch gyda'u hymgyrch hwy ac wedi cynnig cyngor ar yr hyn y gallent ei gynnwys.

3.49 Er y byddem yn dal i fod wedi darparu gwybodaeth i bleidleiswyr ar sut i gymryd rhan yn yr etholiadau, ni fyddem wedi argymhell cynnal dwy ymgyrch hysbysebu ar wahân yn y cyfryngau torfol - pob un yn cynnwys cyfeiriad gwefan ar wahân i bleidleiswyr gysylltu â hi a phob un â goblygiadau cost sylweddol. Roedd perygl y byddai'r dull hwn yn creu dryswch i bleidleiswyr gyda negeseuon gwahanol, ac o ystyried bod cost ymgyrch y Swyddfa Gartref wedi bod oddeutu £3 miliwn, roedd yn risg ei bod yn ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus.

3.50 Yn anffodus, daeth penderfyniad Llywodraeth y DU i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar wahân yn rhy hwyr i ni newid ein cynlluniau, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo gwariant ac wedi dechrau cynhyrchu deunyddiau hysbysebu.

3.51 Felly'r flaenoriaeth oedd sicrhau bod y trefniadau yn gweithio i bleidleiswyr. Cytunasom i weithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddwy ymgyrch wedi eu cyd-drefnu a bod pobl yn cael mynediad at y wybodaeth yr oeddynt ei hangen ar yr adeg iawn.

3.52 Yn absenoldeb ymgyrch bostio ymgeiswyr, cytunasom mai'r flaenoriaeth oedd gwneud y wefan ymgeiswyr CHTh (www.choosemypcc.org.uk) a'r llinell ffôn mor hawdd i bleidleiswyr ddod o hyd iddynt ag y bo modd. Roedd y llinell ffôn yn wasanaeth awtomatig ar gyfer archebu llyfrynnau. Diwygiasom y wefan fymhleidlaisi i gynnwys panel mawr y gallai pleidleiswyr a oedd ar ein safle ni yn chwilio am wybodaeth ei glicio er mwyn symud ymlaen yn uniongyrchol i'r safle choosemypcc (gweler Atodiad C). Hefyd gwnaethom gynnwys manylion y cyfeiriad gwefan choosemypcc a rhif ffôn mewn man amlwg yn ein llyfryn gwybodaeth. Sicrhaodd ein protocol canolfan alwadau bod pob galwr yn cael yr opsiwn o ddarganfod gwybodaeth am ymgeiswyr os dymument trwy gael eu trosglwyddo i linell y Swyddfa Gartref ar ddiwedd pob galwad.

⁴⁰ Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cartref i Jenny Watson - 12 Gorffennaf, 2012.

Gorgyffwrdd cyfathrebu i bleidleiswyr

3.53 Er mwyn lleihau'r dryswch i bleidleiswyr, gwnaethom ofyn am beidio â chael unrhyw orgyffwrdd yn amseriad y ddwy ymgyrch. Fodd bynnag, dewisodd Llywodraeth y DU redeg ei hymgyrch 6-24 Hydref (cychwyn y cyfnod cyn-etholiad) ar draws y teledu, y wasg ac ar-lein. Arweiniodd hyn at orgyffwrdd tri diwrnod lle'r oedd pleidleiswyr yn agored i'r ddwy ymgyrch, y ddwy'n cyfeirio pleidleiswyr i wahanol gyfeiriadau gwefan er mwyn cael mynediad at wybodaeth.

3.54 Gan na chafodd anerchiadau ymgeiswyr eu lanlwytho tan ddydd Gwener 26 Hydref (dau ddiwrnod ar ôl i ymgyrch Llywodraeth y DU ddod i ben), roedd etholwyr yn cael eu cyfeirio at wefan Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd cyn i wybodaeth ymgeiswyr fod ar gael. Er mwyn lliniaru hyn, roedd y wefan yn cynnwys cyfleuster i bobl ofyn am e-bost i'w hatgoffa i ailymweld â'r wefan unwaith y byddai'r anerchiadau wedi cael eu cyhoeddi. Roedd hefyd opsiwn i bobl a alwodd y llinell ffôn gwybodaeth argraffedig am ymgeiswyr ar alw awtomataidd i adael eu manylion cyn i'r anerchiadau fod ar gael.

3.55 Fel y rhagnodwyd mewn deddfwriaeth, argraffodd y Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) gyfeiriad y wefan choosemypcc a rhif ffôn ar gardiau pleidleisio, a anfonwyd mewn llawer o achosion ar 22 Hydref 2012; unwaith eto, cyn i'r wybodaeth am ymgeiswyr fod ar-lein. Yn anecdotaidd, roedd yn ymddangos fod gweinyddwyr yn meddwl nad oedd yn effeithiol iawn, gan nad yw pobl wedi arfer edrych ar gardiau pleidleisio i'w cyfeirio tuag at wybodaeth am ymgeiswyr.

3.56 Roedd hyn hefyd ar yr un diwrnod yr anfonwyd ein llyfryn gwybodaeth i bob cartref yn Lloegr (ac eithrio Llundain) a Chymru. O ganlyniad, gwelsom gynnydd sydyn yn nifer y galwadau i'n llinell gymorth gan bleidleiswyr a oedd wedi derbyn ein llyfryn a/neu eu cerdyn pleidleisio, ac wedi ceisio cael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr, ac a oedd yn teimlo'n rhwystredig nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael ac nad oedd y gwasanaeth deunydd argraffedig ar alw'n rhoi cyfle iddynt siarad â rhywun. Roedd y cynnydd sydyn yn golygu nad oedd pleidleiswyr bob amser yn gallu cyrraedd ymgynghorydd galwadau.

3.57 Amlygodd y galw hwn am wybodaeth nifer o faterion gyda'r llinell ffôn gwybodaeth argraffedig am ymgeiswyr. Derbynasom gwynion gan bobl am faterion defnyddioldeb fel y system yn amseru allan cyn iddynt allu gadael eu cyfeiriad llawn, yn ogystal â dim opsiwn o siarad â chynghorydd.

3.58 Ar ôl rhybuddio swyddogion Llywodraeth y DU am y cynnydd hwn mewn galwadau, cytunwyd y dylai pobl a oedd yn ffonio llinell gymorth y Comisiwn i gwyno am y diffyg gwybodaeth oedd ar gael am ymgeiswyr neu etholiadau yn cael rhif ffôn ymholiadau cyhoeddus y Swyddfa Gartref llinell fel y gallent gofrestru eu cwyn. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod galwadau i'r rhif hwn yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Comisiwn

gan y switsfwrdd⁴¹, gan arwain at rwystredigaeth bellach i'r galwyr. Ar ôl ceisiadau pellach i ddarparu cyfleuster i bobl alw a siarad â chynghorydd, cytunodd swyddogion i gymryd galwadau drwy dîm polisi'r Swyddfa Gartref.

3.59 Roedd yn amlwg nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi ystyriaeth i'r seilwaith yr oedd ei angen er mwyn delio â'r nifer a'r mathau o alwadau gan bobl ar ôl cael y wefan ymgeiswyr a rhif ffôn cyn iddynt gael y wybodaeth am ymgeiswyr, neu a oedd eisiau rhagor o wybodaeth am y polisi y tu ôl yr etholiadau.

3.60 Dengys y canlyniadau bod ymgyrch y Swyddfa Gartref yn cael ei hadnabod gan etholwyr a'i bod wedi codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau cyn ein hymgyrch ni. Mae ein canlyniadau olrhain yn dangos nad oedd niwtraliaeth ymgyrch y Swyddfa Gartref yn broblem na'n bryder i etholwyr, er fod un cynrychiolydd sefydliad ieuenctid yn awgrymu fod yr hysbysebion yn cyflwyno darlun negyddol o bobl ifanc.⁴²

Ymwybyddiaeth o ymgyrch y Comisiwn

3.61 Yn ystod cyfnod yr ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus, derbyniodd llinell gymorth y Comisiwn 23,000 o alwadau a'r tri chwestiwn pennaf a ofynnwyd oedd: 'Pam na allaf gael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr eto?', 'Pwy sy'n sefyll yn fy ardal i?' a 'Pwy yw'r ymgeiswyr?' Roedd 74% o alwyr yn 55+ oed, sy'n awgrymu bod pobl sy'n ymgysylltu'n draddodiadol yn ei chael yn anodd dod o hyd i wybodaeth. Derbyniodd hafan aboutmyvote.co.uk 300,000 o ymweliadau.

3.62 Cawsom ein gwneud yn ymwybodol o nifer o godau post nad oeddynt wedi derbyn llyfryn. Buom yn gweithio'n agos gyda'n cyflenwyr rheoli galw heibio'r drws i wirio'r cyflenwi ar wahanol gamau yn y broses o gyflenwi galw heibio'r drws. Er na allwn gadarnhau dosbarthiad i bob cartref, oherwydd y nifer fawr o gartrefi oedd yn gysylltiedig â'r cyflenwi, dangosodd yr archwiliad llyfryn galw heibio'r drws annibynnol,⁴³ gyfradd cyflwyno'r llyfryn o 96%. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn sylweddol uwch na nifer y bobl a adnabu'r llyfryn gwybodaeth (gweler isod) ac mae'r gwahaniaeth amlwg hwn yn debygol o fod yn ganlyniad i o leiaf ddau ffactor. Yn gyntaf, er y gallwn ddisgwyl bod 96% o gartrefi wedi derbyn y llyfryn - fel gydag unrhyw gyflenwad a ddanfonir o ddrws i ddrws o'r math hwn – efallai ei fod wedi cael ei daflu heb ei ddarllen gan nifer sylweddol neu na wnaeth pawb yn y cartref ei weld. Yn ail, rydym yn gwybod o brofiad blaenorol bod gallu pobl i adnabod ac yna cofio gweld llyfryn yn debygol o fod yn gysylltiedig ag amlygrwydd y materion y mae'n ymdrin â hwy. Roedd y Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd wrth gwrs yn fater o amlygrwydd isel iawn i'r rhan fwyaf o'r cyhoedd.

⁴¹ Mae'r Comisiwn Etholiadol a'r Swyddfa Gartref yn rhannu switsfwrdd a ddefnyddir gan nifer o Adrannau Llywodraeth y DU a chyrrff cyhoeddus.

⁴² Tony Gearing, sylfaenydd Pobl Ifanc y Flwyddyn, adroddwyd gan y Press Association 10 Hydref 2012.

⁴³ Archwiliad galw heibio'r drws wedi'i gynnal gan The Front Door, asiantaeth ddilysu arbenigol sy'n archwilio cyfraddau cyflenwi mewn codau post penodol i gyfrifo'r gyfradd gyflenwi gyffredinol.

3.63 Cynaliasom waith ymchwil olrhain yn edrych ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n hysbysebu cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymgyrch. Mae ymchwil olrhain yn defnyddio cyfweiliadau gydag etholwyr i olrhain ymwybyddiaeth o'n hymgyrchoedd dros gyfnod o amser. Dangosodd ein canlyniadau olrhain fod 50% o bobl yn honni eu bod wedi gweld o leiaf un elfen o'r ymgyrch; 32% o bobl yn adnabod y llyfryn gwybodaeth, 60% o'r rhai a oedd yn honni eu bod wedi darllen y llyfryn yn gwybod y gallech bleidleisio trwy ddefnyddio dewis cyntaf neu ail ddewis, a 46% yn gwybod dyddiad yr etholiadau. Roedd y canlyniadau hyn yn bodloni neu ragori ar bob un o'n mesurau perfformiad allweddol. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth ymchwil arall a'r lefelau isel iawn o bobl yn pleidleisio, maent yn hefyd yn dangos bod ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd effeithiol sydd â'r nod o esbonio diben yr etholiadau a sut i gymryd rhan ddim yn cael llawer o effaith ar benderfyniad pobl i bleidleisio os nad ydynt yn cael eu cymell i wneud hynny gan y materion a'r hyn maent yn ei wybod am yr ymgeiswyr.

3.64 Hefyd gofynnwyd i'n hasiantaeth ymchwil olrhain edrych ar yr effaith gafodd rhedeg dwy ymgyrch hysbysebu ar wahân ar ymwybyddiaeth pobl o'r etholiadau. O ystyried y gorgyffwrdd yn amseriad y ddwy ymgyrch, roedd yn anodd iawn asesu effaith pob ymgyrch yn unigol. Fodd bynnag, gweithiodd y ddwy gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau ac o ddyddiad yr etholiad. Er fod ymgyrch y Swyddfa Gartref wedi torri drwodd yn well ac wedi ennill adnabyddiaeth uwch nag ymgyrch y Comisiwn Etholiadol, ymddengys bod ymgyrch y Comisiwn wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth gyflwyno negeseuon manwl am yr etholiadau a sut i bleidleisio. O ystyried y gorgyffwrdd rhwng y ddwy ymgyrch ac ymhellach y diffyg gwahaniaethu rhwng pwy oedd yn gyfrifol, mae hyn yn awgrymu nad yw cael dwy ymgyrch ar wahân gan y Swyddfa Gartref a'r Comisiwn Etholiadol yn ddefnydd effeithlon o arian cyhoeddus. Er fod y ddwy ymgyrch wedi cyflawni ymwybyddiaeth o'u negeseuon priodol, byddai wedi bod yn fwy cost effeithiol cael un ymgyrch integredig o ffynhonnell annibynnol a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau, diben yr etholiadau, y dyddiad, gwybodaeth ymgeiswyr a'r system bleidleisio.

Profiad pobl o bleidleisio

3.65 Fel gydag etholiadau blaenorol, cafodd pleidleiswyr yn gyffredinol brofiad cadarnhaol o fwrw eu pleidlais naill ai'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio neu drwy'r post. Roedd y ddau ddull yn cael eu hystyried yn gyfleus ac ni fynegwyd unrhyw bryderon am y gefnogaeth a'r canllawiau ysgrifenedig oedd ar gael.

3.66 Roedd bron yr holl bleidleiswyr gorsaf bleidleisio yn fodlon ar eu profiad (94%) a dywedodd 96% ei bod yn ffordd gyfleus o bleidleisio. Yn yr un modd, roedd 97% o bleidleiswyr drwy'r post yn fodlon gyda phleidleisio yn y ffordd hon, ac roedd cyfran debyg (96%) hefyd yn dweud ei bod yn ffordd gyfleus o fwrw eu pleidlais.

3.67 Hefyd nid ydym yn ymwybodol o unrhyw anawsterau a gafodd pobl wrth gwblhau a dychwelyd eu papur pleidleisio drwy'r post – dywedodd 95% o bleidleiswyr drwy'r post eu bod yn ei chael yn hawdd deall sut i'w lenwi.

Pleidleisiau drwy'r post annilys

3.68 Ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ni chafodd ychydig dan 132,000 o bleidleisiau post (4.7% o'r holl rai a ddychwelwyd) eu cynnwys yn y cyfrif gan Swyddogion Canlyniadau oherwydd nad oedd y pecyn pleidleisio drwy'r post wedi ei lenwi'n gywir neu wedi ei ddychwelyd. Nodir ystod o broblemau a oedd yn atal pleidleisiau post rhag cael eu cynnwys yn y cyfrif yn Nhabl 1 isod. Mae'r gyfradd gyffredinol hon yn cymharu â chyfradd o 4.6% y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2012 Mai, a 7.6% o bleidleisiau post a ddychwelwyd yn refferenda maerol Mai 2012.

Tabl 1: Rhesymau pam na chynhwyswyd pleidleisiau post a ddychwelwyd yn y cyfrif ar gyfer etholiadau CHTh Tachwedd 2012

	Cyfran y cyfanswm cyffredinol na chynhwyswyd yn y cyfrif
Angen llofnod	17%
Angen dyddiad geni	4%
Angen y ddau	10%
Llofnod ddim yn cyfateb	21%
Dyddiad geni ddim yn cyfateb	16%
Dim un o'r ddau yn cyfateb	7%
Datganiad pleidleisio drwy'r post neu bapur pleidleisio ar goll	25%

3.69 Mae'n parhau i fod yn wir mai'r rhesymau mwyaf cyffredin pam nad yw pleidleisiau post a ddychwelwyd yn cael eu cynnwys yn y cyfrif yw oherwydd nad yw'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd gan y pleidleisiwr yn cyfateb i'r cofnodion sy'n cael eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2012, roedd bron i hanner (44%) y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd na chafodd eu cynnwys yn y cyfrif wedi eu gwrthod am nad oedd y meysydd hynny'n cyfateb.

3.70 Rydym yn croesawu'r darpariaethau sydd bellach wedi'u gwneud yn y Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 a fydd yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi gwybod i etholwyr nad oedd eu pleidlais drwy'r post wedi'i chynnwys yn y cyfrif gan nad oedd y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi cael ei gwblhau'n briodol, ac

i ofyn etholwyr gadarnhau eu dyddiad geni neu ddarparu sampl o lofnod newydd. Mae angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn cychwyn mewn pryd ar gyfer etholiadau 2014 i helpu sicrhau y gall mwy o bleidleisiau drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd yn cael eu cyfrif yn yr etholiad cyffredinol i Senedd y DU a drefnwyd ym Mai 2015, tra hefyd yn sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn parhau i ddiogelu a chynnal uniondeb ceisiadau am bleidlais drwy'r post.

Papurau pleidleisio

3.71 Ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau lle'r oedd mwy na dau o ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys, roedd yn ofynnol i bleidleiswyr nodi eu dewis cyntaf a'r ail drwy ddefnyddio'r papur pleidleisio ddwy golofn.⁴⁴ Mae enghraifft i'w gweld yn Ffigwr 1 isod.

Ffigwr 1: Enghraifft o bapur pleidleisio mewn etholiad CHTh

Ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer ardal heddlu (rhowch enw'r ardal heddlu)

Pleidleisiwch unwaith yng ngholofn 1 ar gyfer eich dewis cyntaf, a Pleidleisiwch unwaith yng ngholofn 2 ar gyfer eich ail ddevis

	Colofn 1 dewis cyntaf	Colofn 2 ail ddevis
BOOTS, Dusty Ymgeisydd dros Gyng rhair Dawnsyr Linell	□	□
GREY, Earl Ymgeisydd dros Blaid yr Hetiwr Hurt	□	□
HOOD, Robin Ymgeisydd dros Blaid y Goedwig	□	□
JIANG, Mike Annibynnol	□	□
MILLER, Windy Ymgeisydd dros Fforwm Pwer Amgen	□	□
WILLIAMS, Rhys Annibynnol	□	□

3.72 Argymellasom i'r Swyddfa Gartref yn 2011 y dylent roi prawf ar ddyluniad y papur pleidleisio a oedd i'w ddefnyddio yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

⁴⁴ Lle'r oedd ond dau ymgeisydd wedi'u henwebu'n ddilys, roed gofyn i bleidleiswyr farcio papur pleidleisio colofn unigol i ddangos eu dewis.

er mwyn lleihau dryswch ymysg pleidleiswyr wrth gwblhau eu papurau pleidleisio system Bleidlais Atodol. Ymgwymerodd y Swyddfa Gartref ag ymchwil gyda'r cyhoedd i brofi eu dyluniad papur pleidleisio arfaethedig a nododd rhai problemau gyda'r cynllun, a chafodd ei ddiwygio wedi hynny. Nid ydym yn ymwybodol bod y Swyddfa Gartref wedi ystyried rhoi prawf ar bapur pleidleisio un golofn sy'n gofyn i bleidleiswyr ddefnyddio rhifau i nodi eu dewis cyntaf ac ail ddewis.

3.73 Hefyd argymellasom y dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu dull tebyg i dyluniad papurau pleidleisio eraill y system Bleidlais Atodol, yn enwedig ar gyfer etholiadau maerol yn Lloegr. Roeddem yn falch bod Llywodraeth y DU wedi gweithredu ar ein hargymhelliad ac ym mis Mehefin 2012, gosodwyd deddfwriaeth ddrafft gerbron y Senedd yn rhagnodi papurau diwygiedig sy'n wynebu'r pleidleisiwr ar gyfer etholiadau maerol yn Lloegr - gan gynnwys papur pleidleisio diwygiedig system Bleidlais Atodol, sydd union yr un fath â'r papur pleidleisio a brofwyd â defnyddwyr ac a ddefnyddiwyd yn yr etholiadau CHTh; a chyfarwyddiadau pleidleisio diwygiedig a oedd yn anelu at esbonio'n glir ac yn syml sut i gwblhau'r papur pleidleisio.

3.74 Yn y dyfodol, dylai Llywodraeth y DU wneud y gwaith hwn mewn ffordd gydgyssylltiol ar gyfer pob etholiad, i sicrhau bod arfer da cyson ar draws yr holl etholiadau ac i osgoi gwahaniaethau cynyddol, a'u heffeithiau negyddol ar bleidleiswyr, a grëwyd gan ddull mwy tameidiog o ymdrin â newid.

Cwblhau'r papur pleidleisio

3.75 Roedd ein harolwg barn gyhoeddus yn gofyn i bleidleiswyr pa mor hawdd yr oeddynt yn meddwl ei bod i lenwi'u papurau pleidleisio. Dywedodd naw deg pedwar y cant o'r rhai a bleidleisiodd yn yr etholiadau CHTh yn unig eu bod yn ei chael yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd, gyda 77% yn dweud ei bod yn hawdd iawn.

3.76 Ym Mryste a Hartlepool lle y cyfunwyd etholiadau CHTh â digwyddiad etholiadol arall, cafodd y rhan fwyaf o bleidleiswyr hi'n hawdd llenwi'r papur pleidleisio etholiad CHTh (88% ym Mryste ac 86% yn Hartlepool). Cafodd 94% o bleidleiswyr ym Mryste a 90% yn Hartlepool hi'n hawdd cwblhau'r papur pleidleisio ar gyfer eu hetholiadau maerol a'r refferendwm. Yn Hartlepool lle cynhaliwyd yr etholiadau gan ddefnyddio dwy system bleidleisio wahanol (y system Bleidlais Atodol a'r cyntaf-i'r-felin), roedd 63% o bleidleiswyr yn dweud nad oeddent wedi ei chael yn ddryslyd i bleidleisio gan ddefnyddio mwy nag un system bleidleisio. Dywedodd 23% eu bod wedi ei chael yn ddryslyd, a 9% wedi ei chael yn ddryslyd iawn.

Ail ddewisiadau

3.77 Mewn etholiadau system Bleidlais Atodol, y pleidleisiau dewis cyntaf sy'n cael eu cyfrif yn gyntaf. Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dilys a fwriwyd yna cânt eu hethol. Os nad oes unrhyw ymgeisydd wedi ennill mwy na 50% o'r bleidlais, mae pob ymgeisydd ar wahân i'r rhai yn y safle cyntaf a'r ail safle'n cael eu dileu. Mae unrhyw bleidleisiau yn dangos dewis cyntaf ar gyfer yr ymgeiswyr sydd wedi'u dileu yn

cael eu gwirio ar gyfer eu hail ddewis. Yna caiff unrhyw bleidleisiau ail ddewis ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill yn cael eu hychwanegu at eu pleidleisiau dewis cyntaf a'r ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau sy'n ennill.

3.78 Gallai pleidleiswyr fwrw pleidlais ail ddewis mewn 38 o'r 41 o etholiadau CHTh. Fodd bynnag, mewn pump o'r ardaloedd hynny derbyniodd un ymgeisydd dros 50% o bleidleisiau dewis cyntaf a chafodd ei ddatgan yn enillydd. Ni chafodd y pleidleisiau ail ddewis yn y cystadlaethau hyn eu cyfrif felly.

3.79 Yn y 33 ardal arall, roedd 1,597,027 o bleidleisiau ail ddewis ar gael, h.y. dyma'r nifer o bleidleisiau dewis cyntaf dilys a gafodd eu bwrw ar gyfer un o'r ymgeiswyr a ddilëwyd. O'r cyfanswm hwnnw, cafodd 721,747 o bleidleisiau ail ddewis dilys eu bwrw dros un o'r ymgeiswyr a oedd yn weddill (45.2%), 635,130 (39.8%) eu bwrw i ymgeisydd a oedd eisoes wedi'u ddileu a 240,150 (15%) wedi eu difetha. O'r rhai a gafodd eu gwrthod, roedd 91% wedi methu â chofnodi ail ddewis (heb ei farcio).

Papurau pleidleisio a wrthodwyd

3.80 Cyn cael eu cyfrif, mae papurau pleidleisio yn mynd drwy broses ddi-doli. Bydd papurau pleidleisio 'da' lle mae'r pleidleiswyr wedi marcio eu papur pleidleisio gan ddilyn y cyfarwyddiadau yn union – neu'n agos iawn. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cyfrif a'u dyrannu i'r ymgeisydd perthnasol. Yna bydd y papurau pleidleisio hynny lle nad yw'r pleidleiswyr wedi dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer eu marcio. Gelwir y papurau pleidleisio hyn yn 'bapurau pleidleisio amheus' ac maent yn cael eu rhoi i'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer dyfarniad.

3.81 Mae'r papurau pleidleisio hynny nad ydynt yn cael dyfarnu fel rhai 'da' yn cael eu gwrthod yn ffurfiol gan y Swyddog Canlyniadau. Gweler y rhesymau a chategoriâu ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd yn y tabl isod.

Tabl 2: Rhesymau dros wrthod papurau pleidleisio CHTh yn ystod y cam dewis cyntaf

Pleidleisiau CHTh dewis cyntaf a wrthodwyd	Cyfanswm	Canran
Heb eu marcio	50,530	32.4%
Ansicr	51,733	33.2%
Pleidleisio ar gyfer gormod o bobl	51,026	32.7%
Ysgrifennu yn dynodi'r pleidleisiwr	2460	1.6%
Heb farc swyddogol	134	0.1%
Cyfanswm	155,884	
Fel % o'r holl bleidleisiau	2.8%	

3.82 Cafodd cyfanswm o 155,884 o bapurau pleidleisio CHTh eu gwrthod yn ystod cam cyntaf y cyfrif, yn cynrychioli 2.8% o'r holl bleidleisiau a fwriwyd. Mae cyfran y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif yn amrywio o 1.7% yng Nglannau Humber i 7.2% yng Ngogledd Swydd Efrog.

3.83 Er fod y gyfran yn uwch na'r etholiadau diweddar megis y Refferendwm PVS 2011 ac etholiadau llywodraeth leol (1%) ac Etholiad Cyffredinol 2010 Senedd y DU (0.3%), mae'n debyg i etholiadau eraill lle defnyddiwyd y system Bleidlais Atodol. Er enghraifft, roedd y cyfraddau gwrthod mewn etholiadau maerol SV diweddar (a oedd wedi'u cyfuno ag etholiadau eraill) yn 4.3% yn Bedford a 3.3% Middlesbrough yn 2011 a 2.8% yn Lerpwl yn 2012.

3.84 Roedd gan yr ardal heddlu oedd â'r lefel uchaf o bapurau pleidleisio a wrthodwyd (Gogledd Swydd Efrog - 7.2%) ond dau ymgeisydd yn sefyll etholiad ac felly defnyddiwyd y system etholiadol cyntaf-i'r-felin a fyddai fel arfer yn cofnodi lefelau isel iawn o wrthod. Yn ogystal, cafodd pum gwaith gymaint o bapurau pleidleisio eu gwrthod ym Mryste yn yr etholiadau CHTh (6.4%) ag yn yr etholiad maerol (1.2%) a oedd yn digwydd ar yr un pryd, er fod y ddau etholiad yn defnyddio'r system Bleidlais Atodol. Yn Hartlepool, gwrthodwyd 88 o bapurau pleidleisio yn y refferendwm, o'i gymharu â 699 yn yr etholiad CHTh. Er na ellir gwneud union gymariaethau ar gyfer yr isetholiadau seneddol, cafodd 110 o bleidleisiau seneddol eu gwrthod drwy'r cyfan o etholaeth Corby o'i gymharu â 742 yn yr etholiad CHTh o fewn bwrdeistref Corby yn unig.

3.85 Yn yr ardaloedd eraill a oedd yn defnyddio'r cyntaf-i'r-felin, Dyfed-Powys a Swydd Stafford, roedd y lefelau gwrthod yn agosach at y cyfartaledd cyffredinol ar gyfer yr etholiadau CHTh, sef 4.3% a 2.8% yn y drefn honno. Er fod y rhain yn dal i fod yn gyfraddau gwrthod uchel ar gyfer etholiad cyntaf-i'r-felin ac, unwaith eto, efallai, yn dangos rhywfaint o ddifetha papurau pleidleisiau'n fwriadol, mae'r dystiolaeth yn amhendiant ac nid yw'r raddfa o unrhyw ddifetha papurau pleidleisiau'n fwriadol yn glir.

3.86 Er ein bod wedi derbyn adborth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol fod rhai pobl wedi difetha eu papurau pleidleisio'n fwriadol, nid yw'n bosibl mesur cyfanswm y papurau pleidleisiau a gafodd eu difetha yn fwriadol oherwydd y categorïau a ddefnyddir i gofnodi rheswm ar gyfer gwrthod. Nid oes gan Swyddogion Canlyniadau Lleol unrhyw bŵer i wrthod papur pleidleisio o dan gategori ar wahân, fel 'difetha yn fwriadol'. Byddwn yn archwilio gyda Swyddogion Canlyniadau p'un ai a sut y gallai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi mewn etholiadau yn y dyfodol.

Cyfranogiad gan bleidleiswyr: Casgliadau ac argymhellion

3.87 Roedd y lefel cyfranogiad a ddisgwyliwyd yn etholiadau CHTh yn Nhachwedd 2012 yn fater allweddol i gynrychiolwyr etholedig a sylwebwyr y cyfryngau yn ystod y misoedd yn arwain at y diwrnod pleidleisio. Wrth i ganlyniadau gael eu datgan yn ystod y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio, gwnaethom nodi bod y nifer isel hanesyddol o

ddim ond 15.1% yn bryder i bawb sy'n poeni am ddemocratiaeth. Mae'n bwysig defnyddio'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael o'r etholiadau hyn i ddeall pam fod cyfranogiad mor isel, er mwyn gallu nodi p'un a allai newidiadau i bolisi a dull cyflwyno helpu i wella cyfranogiad mewn etholiadau i'r dyfodol.

3.88 Awgryma'n gwaith ymchwil gydag aelodau o'r cyhoedd, yn bleidleiswyr a'r rhai nad ydynt yn pleidleisio, bod lefelau boddhad â'r broses a'r trefniadau ymarferol ar gyfer pleidleisio yn yr etholiadau hyn yn gyffredinol yn uchel iawn, ac yn debyg i'r rhai a welwyd mewn etholiadau diweddar eraill. Ymddengys nad oedd hyd yn oed amseriad yr etholiadau - ym mis Tachwedd yn hytrach na'r cyfnod arferol ar gyfer etholiadau rhwng Ebrill a Mehefin - wedi cael llawer o effaith ar barodrwydd neu allu pobl i bleidleisio yn yr etholiadau hyn.

3.89 Ein casgliad allweddol yw mai'r diffyg canfyddedig o wybodaeth am y cystadlaethau a'r ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau hyn oedd y prif reswm nad oedd pobl wedi pleidleisio. Yn enwedig, canfu ein hymchwil barn gyhoeddus mai dim ond 22% o bobl wedi cael digon o wybodaeth am ymgeiswyr a'r hyn yr oeddynt yn sefyll drosto i allu gwneud penderfyniad gwybodus.

3.90 Ni all llunwyr polisi gymryd yn ganiataol y bydd pobl yn awtomatig yn teimlo y gallant gymryd rhan mewn etholiadau newydd dim ond oherwydd eu bod yn cael eu cynnal. Er nad ydym o'r farn y byddai cyflwyno gwell gwybodaeth am ymgeiswyr ynddo'i hun yn ddigon i wella'r nifer sy'n pleidleisio, byddai'n ymdrin â'r lefelau annerbyniol o isel o wybodaeth/ymwybyddiaeth a byddai'n darparu gwell sail ar gyfer annog cyfranogiad mewn etholiadau i'r dyfodol.

3.91 Roedd y casgliad hwn yn awgrymu rhai goblygiadau sylweddol ar gyfer rheoli a chyflwyno etholiadau i'r dyfodol, nid yn unig ar gyfer etholiadau nesaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ond hefyd ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau etholiadol newydd a allai gael eu sefydlu yn y dyfodol. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod anghenion gwybodaeth y pleidleiswyr yn yr etholiadau hyn yn cael eu hystyried yn ddigonol gan lunwyr polisi wrth benderfynu a ddylid neu sut i gefnogi darparu gwybodaeth ymgeiswyr yn uniongyrchol i etholwyr. Dylai penderfyniadau am wybodaeth i bleidleiswyr mewn etholiadau newydd a gynigir yn y dyfodol gael eu cefnogi gan ddadansoddiad llawer mwy trylwyr gan lywodraethau o ba fath o wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan a gwneud dewis gwybodus, a sut y dylent fod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth honno.

3.92 Mae angen i Lywodraeth y DU ddechrau cynllunio nawr i gynnal dadansoddiad o opsiynau ar gyfer darparu gwybodaeth cyn etholiadau CHTh 2016. Erbyn hyn mae gennym set gyfoethog o ddata o'r etholiadau hyn am farn ac anghenion etholwyr sydd ar gael i hysbysu'r dadansoddiad hwnnw. Bydd angen i unrhyw gynigion am etholiadau newydd - gan gynnwys refferenda yn y dyfodol – gael eu cefnogi gan ddadansoddiad cadarn o anghenion gwybodaeth pleidleiswyr.

3.93 Mae data etholiadol a'n gwaith ymchwil gyda phleidleiswyr hefyd yn dangos bod y rhai a wnaeth pleidleisio wedi cael y system etholiadol a phapur pleidleisio pleidlais

atodol newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn gyffredinol yn hawdd i'w defnyddio ac i'w cwblhau heb wneud camgymeriadau. Er fod cyfraddau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd ar y cam dewis cyntaf o fewn yr ystod a gofnodwyd mewn etholiadau eraill yn y DU gan ddefnyddio systemau pleidleisio ffafriol, serch hynny roeddynt yn dal i fod yn uwch nag ar gyfer etholiadau a gynhelir gan ddefnyddio'r system etholiadol cyntaf-i'r-felin.

3.94 Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ymgeiswyr, Swyddogion Canlyniadau Lleol a sylwedyddion yn awgrymu bod cyfran sylweddol o bapurau pleidleisio a wrthodwyd wedi cael eu difetha yn fwriadol gan etholwyr a oedd eisiau cofrestru eu pryderon am yr etholiadau, er nad yw wedi bod yn bosibl mesur graddfa'r gweithgaredd hwn trwy'r data etholiadol sydd ar gael. Mae nifer a chyfran y papurau pleidleisio na chawsant eu cynnwys yn y cyfrif yn awgrymu bod lle yn dal i fod, fodd bynnag, ar gyfer gwelliannau pellach i'r dyluniad a'r geiriad a ddefnyddir ar bapurau pleidleisio, er mwyn lleihau'r risg o etholwyr yn difetha eu papur pleidleisio yn anfwriadol.

Argymhelliad 2: Gwella mynediad i etholwyr at wybodaeth am ymgeiswyr mewn etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio paragraff 52 ac Atodlen 8 Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 2012 i sicrhau bod gwybodaeth brintiedig am ymgeiswyr sy'n sefyll am etholiad fel CHTh yn eu hardal heddlu yn cael ei hanfon i bleidleiswyr. Dylai hyn fod ar ffurf llyfryn gydag anerchiadau gan bob ymgeisydd a anfonir gan Swyddog Canlyniadau'r Awdurdod Heddlu perthnasol i bob cartref yn ardal yr awdurdod heddlu.

Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i Orchymyn 2012 **erbyn mis Tachwedd 2015**, yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein Hargymhelliad 1 uchod ar gyfer gwella cynllunio a rheoli deddfwriaeth ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016.

Ar gyfer unrhyw etholiadau newydd sy'n cael eu cynnig yn y dyfodol, dylai'r Llywodraeth berthnasol ei gwneud yn glir **ar adeg cyflwyno'r ddeddfwriaeth** sut y byddant yn sicrhau bod etholwyr yn cael mynediad priodol at wybodaeth am ymgeiswyr.

Wrth wneud hyn, dylai'r Llywodraeth berthnasol dynnu ar ddata a gasglwyd gan y Comisiwn Etholiadol ac eraill o etholiadau Tachwedd 2012, a dylent ystyried:

- Y graddau y mae etholwyr yn cael mynediad dibynadwy a hawdd at ffynonellau cyhoeddus o wybodaeth am ymgeiswyr ar-lein neu eraill nad ydynt yn rhai ffisegol.
- Y graddau y gall ymgeiswyr eu hunain yn ymarferol gyfleu negeseuon yn uniongyrchol i etholwyr, gan gymryd i ystyriaeth daearyddiaeth ardaloedd yr heddlu a'r cyfyngiadau statudol ar wariant ymgyrch.

- Beth yw'r ffordd orau i roi gwybod i etholwyr am sut y gallant gael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr, gan gynnwys symleiddio'r broses cymaint ag y bo modd i etholwyr.

Argymhelliad 3: Sicrhau gwybodaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd cost-ffeithiol a niwtral am etholiadau i'r dyfodol

Rhedodd y Swyddfa Gartref a'r Comisiwn Etholiadol ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn yr etholiad.

Er fod y ddwy ymgyrch wedi sicrhau ymwybyddiaeth o'u negeseuon priodol, byddai wedi bod yn fwy cost effeithiol cael un ymgyrch integredig gan ffynhonnell annibynnol a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth ynglŷn â'r etholiadau, diben yr etholiadau, y dyddiad, gwybodaeth ymgeiswyr a'r system bleidleisio.

Rydym wedi dangos ein profiad a'n gallu i ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd cost-ffeithiol a niwtral mewn amrywiaeth eang o etholiadau a refferenda'r DU. Dylai Seneddau barhau i roi cyfrifoldeb statudol i'r Comisiwn Etholiadol i ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr am etholiadau a sut i bleidleisio ynddynt, ac ni fyddai'n ddefnydd priodol na synhwyrol o arian cyhoeddus i lywodraethau ddyblygu'r gweithgaredd hwnnw.

Ni ddylai unrhyw lywodraeth gomisiynu gweithgaredd ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer etholiadau na refferenda i'r dyfodol, gan gynnwys etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2016.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol yn hygyrch ac wedi'u cynllunio'n dda

Dylai Llywodraeth y DU adolygu'r opsiynau ar gyfer dyluniad a geiriad y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol sy'n defnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol, er mwyn lleihau'r risg o bapurau pleidleisio ddim yn cael eu cyfrif oherwydd eu bod wedi cael eu llenwi'n anghywir.

Dylai adolygiad y Llywodraeth wneud y canlynol:

- Ystyried tystiolaeth o'r ystod o etholiadau a gynhaliwyd a ddefnyddiodd y system etholiadol pleidlais atodol, gan gynnwys yr etholiadau awdurdod lleol, maerol a maer Llundain, ac etholiadau CHTh Tachwedd 2012.
- Ystyried y dyluniadau papur pleidleisio dwy golofn sengl (gan ddefnyddio rhifolion i gofnodi'r dewis cyntaf a'r ail) yn ogystal â dyluniadau colofn ddwbl (gan ddefnyddio croesau).

- Ystyried y cyfuniadau posibl o etholiadau a gynhelir sy'n defnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol ar yr un pryd â'r rheiny sy'n defnyddio'r system cyntaf-i'r-felin.
- Cynnwys ymchwil gyda phleidleiswyr a mewnbwn gan arbenigwyr iaith blaen ac arbenigwyr hygyrchedd er mwyn sicrhau bod dyluniad a geiriad y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r dyfodol yn syml ac yn hawdd i'w ddefnyddio gan ystod mor eang â phosibl o bobl.

Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi canlyniadau ei dadansoddiad ac ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ddyluniad a geiriad y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau a gynhelir gan ddefnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol **heb fod yn hwyrach na mis Tachwedd 2014**, 18 mis cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer etholiadau CHTh a drefnwyd ym mis Mai 2016.

Os nad yw'r Llywodraeth yn penderfynu cynnal yr adolygiad hwn, byddwn yn cynnal ein dyluniad ac ymchwil ein hunain gyda phleidleiswyr ar ddyluniadau papur pleidleisio ar gyfer etholiadau a gynhelir ar y system pleidlais atodol. Byddem yn cychwyn ar y gwaith **erbyn mis Hydref 2013** ac yn cyhoeddi unrhyw gynlluniau a argymhellir ar gyfer ymgynghori **erbyn mis Tachwedd 2014**.

Dylai unrhyw newidiadau i'r ffurflen ragnodedig ar gyfer y papur pleidleisio sydd i'w ddefnyddio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016 fod yn glir (boed mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol neu ddeddfwriaeth eilaidd sydd wedi ei gosod gerbron y Senedd) **heb fod yn hwyrach na dechrau Tachwedd 2015**, chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiadau CHTh nesaf.

Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod ffurflenni a gynhyrchir yn unol â'r ddeddfwriaeth yn iawn a chywir cyn gynted â phosibl, a sicrhau y gellir eu defnyddio ar gyfer y set nesaf o etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn 2016 ac unrhyw isetholiadau a allai ddigwydd cyn hynny.

4 Cyfranogiad gan ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth am gyfranogiad gan ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r etholiadau maerol a refferendwm a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2012. Mae hefyd yn edrych ar hyder ymgyrchwyr a boddhad gyda'r gefnogaeth a chyingor a roddwyd iddynt a'r ffordd yr oedd yr etholiadau a refferendwm wedi cael eu rhedeg.

4.2 Rydym eisiau bod yn fodlon bod ymgeiswyr ac asiantau wedi cael gwybodaeth glir ac amserol er mwyn eu galluogi i gymryd rhan effeithiol yn y broses etholiadol, a'i bod yn syml iddynt gymryd rhan.

4.3 Cawsom ein calonogi fod pob Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn dweud eu bod yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantau ar y broses etholiadol a darparu sesiynau briffio, gan gynnwys trefniadau lleol, cyn y diwrnod pleidleisio.

Sefyll ar gyfer etholiad


4.4 Pan gaeodd yr enwebiadau, roedd 194 o bobl wedi cael eu henwebu'n ddilys i sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau CHTh. Tynnodd dau ymgeisydd eu hymgeisyddiaeth yn ôl cyn i'r dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl basio ac yn ddiweddarach dywedodd un ymgeisydd ei fod yn anghymwys (gweler tudalen 66).

4.5 Ar y cyfan, dengys ein harolwg o ymgeiswyr eu bod yn gwybod beth oedd rhaid iddynt ei wneud i sefyll yn yr etholiadau CHTh. Roedd tri-chwarter o'r ymatebwyr⁴⁵ (77%) i'n harolwg yn cytuno ei bod yn hawdd cael gwybod am yr hyn yr oedd rhaid iddynt ei wneud i ddod yn ymgeisydd CHTh.

4.6 Er fod mwyafrif o ymgeiswyr (86%) yn deall y rheolau ar gyfer dod yn ymgeiswyr CHTh a sut i'w dilyn, teimlai dros bedwar o bob deg bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r anerchiad etholiadol yn rhy dynn.

⁴⁵ Mae unrhyw gyfeiriadau yn yr adroddiad hwn i gyfran o ymgeiswyr – h.y. 'mwyafrif yr ymgeiswyr' - yn cyfeirio at yr ymgeiswyr a ddychwelodd ein harolwg, ac ni ddylid ei gymryd i gynrychioli barn yr holl ymgeiswyr.

Siart 8 - Ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer etholiad CHTh yn ôl Plaid (%)⁴⁶



Enwebu

4.7 I enwebu fod yn ddilys, roedd gofyn i ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau CHTh sicrhau llofnodion a rhifau etholwyr 100 o etholwyr (a elwir yn llofnodwyr) a oedd wedi'u cynnwys mewn cofrestr etholiadol o fewn yr ardal heddlu berthnasol. Roedd y nifer o lofnodwyr yn 100, waeth beth fo maint yr ardaloedd heddlu, ac yn sylweddol fwy na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau Seneddol y DU neu etholiadau llywodraeth leol (deg yn y ddau achos). Nid oes angen unrhyw lofnodwyr cyn cael enwebiad i etholiadau Senedd Ewrop.

4.8 Mae gofyn i ymgeiswyr sy'n ceisio enwebiad i sefyll ar gyfer etholiad fel Maer Llundain ddarparu 330 o lofnodwyr, sy'n cynnwys deg o lofnodwyr o bob un o'r 32 Bwrdeistref Llundain a Dinas Llundain. Nid oedd unrhyw ofyniad tebyg i lofnodwyr i ffurflenni enwebu CHTh gael eu tynnu o bob awdurdod lleol perthnasol, ond nododd Swyddogion Canlyniadau Lleol bod rhai ymgeiswyr wedi gofyn am lofnodwyr yn benodol ar draws ardal yr heddlu 'heb sylweddoli na fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu ag unrhyw un'.⁴⁷

⁴⁶ Mae'r siart yn cynnwys yr ymgeisydd na wnaeth ymgyrchu ond a oedd yn aros ar y papur pleidleisio yn Ardal Heddlu Swydd Northampton. Gweler trafodaeth bellach ym mharagraff 4.24

⁴⁷ LRO, Rhanbarth y De Orllewin

4.9 Awgryma adborth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol bod rhai ymgeiswyr yn ei chael yn anodd i gwblhau eu ffurflenni enwebu'n iawn a threuliodd staff gwasanaethau etholiadol lawer o amser yn cadarnhau bod y llofnodwyr yn etholwyr cofrestredig.

Roedd y gofyniad am 100 llofnod yn broses feichus, nid yn unig i'r ymgeiswyr ond i'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu a'r tîm etholiad wrth weinyddu. Byddwn hefyd yn awgrymu bod hyn yn rhwystr i lawer o ymgeiswyr annibynnol rhag sefyll ar gyfer etholiad.
Swyddog Canlyniadau Lleol, Gogledd Orllewin

4.10 Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn yn ein harolwg o ymgeiswyr. Dywedodd mwy na phedwar o bob deg ymgeisydd (44%) ei bod yn anodd cael y nifer o lofnodwyr a oedd yn ofynnol i sicrhau eu henwebiad. Roedd hyn yn arbennig o wir am ymgeiswyr annibynnol: roedd tri chwarter (74%) o annibynnol yn cytuno/ tueddu i gytuno ei bod yn anodd cael y nifer o lofnodwyr a oedd yn ofynnol i sicrhau eu henwebiad, o'i gymharu â 29% o'r ymatebwyr a safodd etholiad ar ran plaid wleidyddol.

4.11 Mae cyfyngiadau ar bwyl all gael copi o'r gofrestr etholiadol a phryd y gellir eu rhoi iddo. Yn ôl y gyfraith, gall pleidiau gwleidyddol gael copi o'r gofrestr etholiadol ar unrhyw adeg at ddibenion etholiadol, ac ar gyfer gwirio p'un a yw rhoddion yn ganiataol.

4.12 Ar y llaw arall, dim ond o'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad y gall ymgeiswyr gael copïau o'r gofrestr etholiadol. Mae hyn yn golygu mai'r cynharaf y gall ymgeisydd annibynnol gael copi o'r gofrestr etholiadol yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, tra bod ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol yn gallu cael mynediad at y gofrestr i ddibenion ymgyrchu ac enwebu ar unrhyw adeg.

4.13 Yn ogystal â chael llofnodion 100 o etholwyr cymwys, roedd gofyn i ymgeiswyr posibl godi blaendal o £5000 er mwyn cael eu henwebu'n ddilys. Gallai hyn gael ei wneud naill ai mewn arian parod neu drwy ddrafft banc neu drwy drosglwyddo arian electronig neu drwy gerdyn credyd neu ddebyd.

4.14 Roedd y blaendal yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd ar ôl yr etholiad os oeddynt wedi derbyn pump y cant o gyfanswm nifer y pleidleisiau dewis cyntaf dilys. Roedd y blaendal i ymgeiswyr nad oeddynt wedi derbyn pump y cant o nifer y pleidleisiau dewis cyntaf dilys yn cael ei eu fforffedu i'r Llywodraeth.

4.15 Mae lefel y blaendal yr un fath ag yn etholiadau Senedd Ewrop a deg gwaith mwy na'r hyn sy'n ofynnol i sefyll mewn etholiadau Seneddol y DU. Fel y digwyddodd pethau, ychydig o ymgeiswyr a gollodd eu blaendal. Nid ydym yn gallu mesur faint o bobl benderfynodd yn erbyn sefyll fel canlyniad uniongyrchol i'r blaendal gofynnol.

4.16 Dywedodd bron i bedwar o bob deg (39%) ymgeisydd a ymatebodd i'n harolwg ei bod yn anodd codi'r blaendal a oedd ei angen i sicrhau enwebiad. Roedd ymgeiswyr annibynnol yn fwy tebygol o gytuno ei bod yn anodd codi'r blaendal a oedd ei angen i'r enwebiad diogel o'i gymharu ag ymgeiswyr a oedd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol (58% a 29% yn y drefn honno).

Anghymhwyso

4.17 Yn dilyn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Mesur PRSR yn gynnar yn 2011, cyflwynwyd gwelliant gan y Llywodraeth a'i dderbyn yn ystod Cyfnod Pwyllgor y Mesur ym mis Chwefror 2011 a oedd yn atal unrhyw un sy'n euog o unrhyw drosedd garcharol (hyd yn oed os nad oeddynt wedi cael eu carcharu mewn gwirionedd neu fod yr euogfarn wedi ei threulio) rhag sefyll i'w ethol fel CHTh. Mae hyn yn cynnwys troseddau a ddigwyddodd fel person ifanc.

4.18 Mae hwn yn drothwy is ar gyfer anghymhwyso ar sail gweithgarwch troseddol nag y gelwir amdano ar gyfer unrhyw un o swyddfeydd etholedig eraill gan gynnwys llywodraeth leol neu Senedd y DU. Er enghraifft, nid yw Aelodau Seneddol a ddedfrydwyd i lai na deuddeng mis yn y carchar yn gorfod ymddiswyddo o'r Senedd ac mae eu gwaharddiad o swydd yn cael ei gyfyngu i rhwng tair a phum mlynedd ar ôl yr euogfarn. Mae rhai troseddau etholiadol penodol yn anghymhwyso pobl rhag dal swydd am rhwng tair a phum mlynedd, hyd yn oed os nad yw'r troseddwr wedi'i garcharu.

4.19 Serch hynny, mae'r ddarpariaeth anghymhwyso yn y Ddeddf PRSR yn adlewyrchu consensws rhwng Llywodraeth y DU a'r Wrthblaid bod sensitifrwydd y rôl CHTh yn cyfiawnhau gwaharddiad llym reolau o'r fath.

Nid yw ... trosedd garcharol yn debygol o fod mor fychan. Rydym yn defnyddio prawf y safon honno i swyddogion yr heddlu, ac rydym yn ymwybodol yn cymhwyso prawf llawer uwch i gomisiynwyr yr heddlu a throsteddu mewn ffordd na wneir i berson mewn unrhyw swydd etholedig arall.

**Nick Herbert AS, y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol,
Chwefror 8, 2011⁴⁸**

Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd y bydd aelodau o'r cyhoedd yn ei roi ar hygredd y person sy'n sefyll ar gyfer comisiynydd yr heddlu a throsteddu; byddai'n annirnadwy i beidio â chael y prawf mwyaf llym ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Vernon Coaker AS (Llafur), 8
Chwefror, 2011⁴⁹**

4.20 Er y bwriadwyd i'r ddarpariaeth anghymhwyso lem adlewyrchu gofynion ar gyfer swyddogion unigol o'r heddlu, mae rhywfaint o ddisgresiwn i heddluoedd ystyried cofnodion troseddol ymgeiswyr unigol ar sail achos wrth achos. Nid oes disgresiwn o'r fath yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd i bobl sy'n ystyried sefyll am etholiad fel CHTh.

⁴⁸ Dadl Cam Pwyllgor ar y Mesur PRSR yn Nhŷ'r Cyffredin
<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmpublic/pollicereform/110208/pm/110208s01.htm>
yng ngholofn 483

⁴⁹ *ibid* yng ngholofn 482

4.21 Arweiniodd natur anarferol yr anghymwyso at ddryswch ymhlith ymgeiswyr posibl ynghylch p'un a oeddynt yn gallu sefyll ar gyfer etholiad ai peidio. Canfu nifer o ddarpar ymgeiswyr eu bod yn anghymwys a chawsant eu gorfodi i dynnu'n ôl. Roedd dryswch penodol ynghylch defnyddio anghymwyso yn achos troseddau a ddigwyddodd pan yn berson ifanc yn gwahardd oedolyn o'i swydd, mewn rhai achosion, degawdau'n ddiweddarach.

4.22 Straeon unigol a wnaed penawdau, fel cyn-filwr Rhyfel y Falklands Simon Weston⁵⁰, a Bob Ashford⁵¹ a oedd wedi gweithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, y ddau wedi derbyn dirwyon am droseddau carcharol fel pobl ifanc dan oed, ac felly ni allent sefyll ar gyfer etholiad er gwaetha'r ffaith nad oedd ganddynt unrhyw euogfarnau dilynol.

4.23 Amlinellasom y cymwysterau a'r anghymwysterau ar gyfer sefyll etholiad fel CHTh yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau (a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2012), a oedd yn datgan 'ni ellwch sefyll ar gyfer etholiad os ... ydych wedi'ch cael yn euog o drosedd garcharol (hyd yn oed os na chawsoch eich carcharu mewn gwirionedd neu fod yr euogfarn wedi ei threulio)'.⁵² Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn flaenorol, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein canllawiau tan 15 Mehefin 2012, ac erbyn hynny roedd sawl ymgeisydd posibl wedi nodi eu bwriad i gyflwyno papurau enwebu.

4.24 Ni wnaeth un ymgeisydd i'w ethol yn CHTh ar gyfer Swydd Northampton sylweddoli ei fod yn anghymwys i sefyll etholiad fel CHTh oherwydd euogfarn flaenorol tan i'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fynd heibio. Nid oedd y ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth i'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu gymryd unrhyw gamau mewn ymateb, ac arhosodd yr ymgeisydd ar y papur pleidleisio. Er na wnaeth yr ymgeisydd ymgyrchu, roedd etholwyr yn dal i allu pleidleisio drosto ac fel y digwyddodd pethau, aeth ymlaen i ail rownd y cyfrif ond ni dderbyniodd y nifer fwyaf o bleidleisiau unwaith yr oedd yr ail dewisiadau wedi cael eu cyfrif.

4.25 Tra bod y Ddeddf PRSR yn cynnwys darpariaethau ar gyfer llenwi swydd wag Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sy'n codi ar ôl etholiad, nid yw'n glir eu bod yn ymdrin yn ddigonol â'r amgylchiadau a gododd yn Swydd Northampton. Dylai Llywodraeth y DU ystyried a oes angen eglurhad pellach o'r gyfraith cyn yr etholiadau CHTh nesaf.

Gwariant ymgeiswyr a rhoddion

4.26 Mae rheolau ar wariant ymgyrchu ymgeiswyr mewn etholiadau CHTh ac ar y rhoddion a gânt i ariannu eu hymgyrchoedd. Yn 2012 roedd y rheolau hyn yn rheoli gwariant ymgyrch ymgeiswyr rhwng 8 Hydref, 2012 a'r diwrnod pleidleisio ac unrhyw roddion tuag at y gwariant hwn. Cyhoeddasom ganllawiau i ymgeiswyr ac asiantau ar 29 Mehefin 2012, cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl i'r rheolau gael eu

⁵⁰ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-18670400>

⁵¹ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-somerset-19181071>

⁵² http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/148743/PCC-Part-1-Can-you-stand-for-election.pdf

cadarnhau yng nghanol mis Mai 2012, gan ganiatáu amser i gadarnhau bod ein canllawiau yn iawn ac yn gywir. Yn y cyfnod cyn i'r rheolau gael eu cwblhau, rhoesom wybodaeth am elfennau allweddol y drafft ymgynghori'r Gorchymyn Etholiadau CHTh ar ein gwefan, ac agor rhestr bostio ar gyfer darpar ymgeiswyr ac eraill oedd â diddordeb i dderbyn diweddariadau rheolaidd am y rheolau ar gyfer yr etholiadau.

4.27 Cymerodd staff y Comisiwn ran mewn sawl cynhadledd a digwyddiad wedi'u hanelu at ymgeiswyr CHTh yn y cyfnod cyn yr etholiadau, gan gynnwys sesiynau briffio Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu a chynadleddau Cymdeithas Llywodraeth Leol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rheolau ymgyrchu yn ogystal â'r rheolau ar sefyll mewn etholiad.

4.28 Am y tro cyntaf gwnaethom gynnal dwy seminar ar y we, un cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn helpu ymgeiswyr ac asiantau i ddeall y rheolau ar ymgyrchu a sefyll yn yr etholiad, ac un ar ôl y bleidlais ynglŷn â sut i gwblhau eu ffurflenni gwariant; hefydd rhoddodd y gwe-seminarau gyfle i gyfranogwyr ofyn cwestiynau a chael atebion ar unwaith. Yn y cyfnod rhwng cyhoeddi ein canllawiau a'r diwrnod pleidleisio, fe wnaethom ymateb 236 o ymholiadau am y rheolau ar gofrestru pleidiau ac ymgyrchu yn ystod etholiadau, gan gynnwys yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Gwnaethom gofrestru 23 o bleidiau newydd a 21 o newidiadau i ddisgrifiadau pleidiau dros y cyfnod hwn.

4.29 Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, gwnaethom gynnal rhaglen o fonitro ymgyrchu. Pwrpas y gwaith oedd codi ymwybyddiaeth ymgeiswyr ac asiantau o'r rheolau, i ddynodi materion oedd yn codi a chyfleoedd i'r Comisiwn gynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai y mae'n eu rheoleiddio, ac i gael gwybodaeth am ymgyrchu i lywio ein hadolygiad o ffurflenni gwariant ymgeiswyr. Cyn yr etholiadau gwnaethom gyhoeddi nodyn briffio ar ein gwaith:

http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0013/150502/Briefing-note-campaign-monitoring-Nov-2012.pdf

4.30 O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaethom gysylltu â thîm un ymgeisydd ar ddau achlysur i gynnig cyngor ynghylch deunydd ar wefan yr ymgeisydd yn ymwneud â rhoddion, a hefyd gwnaethom gysylltu ag ymgyrchwyr trydydd parti posibl i wirio eu bod yn ymwybodol o'r rheolau sy'n effeithio arnynt a'u cyfeirio at ein canllawiau.

4.31 Mae ymgeiswyr a gafodd eu hethol fel CHTh yn cael eu dosbarthu fel deiliaid swyddi etholedig o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) a rhaid iddynt gydymffurfio â rheolaethau ar roddion a benthyciadau a roddwyd iddynt mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol. Ar ôl yr etholiadau, gwnaethom gysylltu â'r holl ymgeiswyr llwyddiannus i roi cyngor iddynt ar sut i gydymffurfio â'r rheolau.

4.32 Os byddwn yn gwneud unrhyw waith gorfodi mewn cysylltiad â thorri potensial o'r rheolau yn yr etholiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth amdano maes o law yn unol â'n polisi datgelu.

4.33 Yn ein harolwg o ymgeiswyr, roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y rheolau ar wariant ymgyrch yr ymgeisydd yn briodol, gyda thraean (33%) o ymatebwyr yn anghytuno a 15% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd ymatebwyr a oedd yn sefyll fel ymgeiswyr annibynnol yn llai tebygol o gytuno bod y rheolau ar wariant yn briodol (36% v 58% o'r rhai oedd yn sefyll dros blaid wleidyddol). Gan nad ydym wedi cynnwys y cwestiwn hwn mewn etholiadau diweddar ar gyfer etholiadau eraill, mae'n anodd nodi a yw'r canfyddiad hwn yn benodol i'r etholiad hwn neu'n gyffredin i bob cystadleuaeth. Yn yr etholiadau hyn, gwelwyd canran uwch o ymgeiswyr annibynnol yn sefyll nag mewn cystadlaethau eraill uwchlaw lefel llywodraeth leol. Byddwn yn rhoi sylwadau manylach ar y rheolau ar wariant ymgyrchu mewn etholiadau CHTh yn yr adroddiad pellach y byddwn yn ei gyhoeddi ar ôl i ni dderbyn yr holl ffurflenni gwariant ymgeiswyr (gweler tudalen 30).

4.34 Yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio cawsom broblem anesboniadwy ar ein gwefan a oedd yn golygu, er ein bod wedi cyhoeddi fersiynau o'r ffurflen treuliau ymgeisydd a oedd union yr un fath (ac yn gywir) ar ein gwefan, mewn fformat Excel a fformat PDF, ymddangosodd y fersiwn PDF o'r ffurflen ar ein gwefan heb yr adran ar gyfer adrodd treuliau personol yr ymgeisydd am gyfnod o tua wyth wythnos. Daethpwyd â hyn i'n sylw ar 12 Tachwedd 2012 ac yn syth aethom ati i gywiro'r broblem fel o 13 Tachwedd ymlaen, roedd y ddwy fersiwn o'r ffurflen yn gywir unwaith eto.

4.35 Yn y cyfnod cyn y dyddiad cau 25 Ionawr ar gyfer adrodd am dreuliau, gwnaethom gysylltu â'r ymgeiswyr a'u hasiantau i wirio bod ganddynt y fersiwn gywir o'r ffurflen. Gwnaethom hefyd gysylltu â phob Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu (PARO) a gofyn iddynt wirio bod y ffurflenni a oedd eisoes wedi eu cyflwyno iddynt yn defnyddio'r fformat cywir, yn ogystal ag unrhyw rai eraill a oedd wedi cyrraedd erbyn y dyddiad cau. Cafodd tua 30 o ymgeiswyr eu heffeithio gan y broblem hon a gwnaethom gysylltu â phob un ohonynt, esbonio'r broblem a helpu i gwblhau'r adran treuliau personol a oedd ar goll. Rydym yn cydnabod nad oedd y broblem hon gyda'r ffurflen yn gyfleus i ymgeiswyr ac asiantau, ac rydym wedi ymddiheuro i bawb dan sylw am y camgymeriad hwn.

Adborth ar gymorth a chanllawiau i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr


4.36 Gofynasom i ymgeiswyr restru'r ffynonellau gwahanol o wybodaeth am y broses etholiadol yn ôl pa mor ddefnyddiol oeddent. Y meysydd hyn oedd: y broses enwebu; gwariant etholiad a rhoddion, a gweinyddu cyffredinol yr etholiadau.

4.37 Nododd tri o bob deg (31%) o ymgeiswyr y Swyddogion Canlyniadau (Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu / Swyddog Canlyniadau Lleol / staff Etholiadol) fel y ffynhonnell o ble cawsant y wybodaeth fwyaf am y broses enwebu. Dywedodd chwarter mai eu plaid (27%) a chwarter arall (24%) mai eu hasiant oedd y ffynhonnell a ddefnyddiwyd amlaf ganddynt. Nododd 18% mai'r Comisiwn oedd y ffynhonnell a ddefnyddiwyd amlaf ganddynt (gweler y siart isod)

4.38 Dywedodd bron i dri o bob deg (28%) mai'r Comisiwn oedd y ffynhonnell a roddodd iddynt y wybodaeth fwyaf ar wariant etholiad a rheolau rhoddion. Roedd hyn ychydig yn fwy na'r 26% a nododd eu hasiant etholiadol fel y brif ffynhonnell a 24% a ddywedodd eu bod wedi cael y wybodaeth hon gan eu Swyddog Canlyniadau neu dîm gwasanaethau etholiadol lleol.

4.39 Dywedodd bron i ddwy ran o dair (64%) o'r ymatebwyr mai Swyddogion Canlyniadau oedd y brif ffynhonnell wybodaeth ar weinyddiaeth yr etholiadau, ac yna eu hasiant etholiadol (19%). Dim ond chwech y cant a nododd y Comisiwn fel y ffynhonnell a ddefnyddiwyd amlaf ganddynt, gyda'r un ganran yn dweud mai eu plaid wleidyddol a ddefnyddiwyd amlaf ganddynt.

Siart 9 - Ymgeiswyr: Prif ffynhonnell gwybodaeth ynghylch cyfranogi yn yr etholiadau CHTh 2012



Tachwedd 2012 Arolwg Ymgeiswyr CHTh Ffynhonnell: Comisiwn Etholiadol

Sail: Bob atebydd (96)

C: Gan feddwl nawr am wybodaeth, hoffem wybod pa ffynonellau a roddodd i chi'r wybodaeth fwyaf ar dair agwedd wahanol o'r etholiad (Mae'r siart yn dangos canran cyfradd y ffynhonnell lle cawsant y wybodaeth fwyaf)

4.40 Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am gyngor y Comisiwn ac arweiniad; cytunodd tri chwarter fod canllawiau ysgrifenedig y Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau yn glir ac yn hawdd i'w defnyddio (nid oedd 16% yn cytuno nac yn anghytuno; 10% yn anghytuno).

4.41 Hefyd canfu ein harolwg dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod ymgeiswyr annibynnol, nad oeddynt yn gallu dibynnu ar eu pleidiau am wybodaeth, yn fwy tebygol o edrych tuag at y Comisiwn am gymorth a chefnogaeth. Er enghraifft, dywedodd 39% o'r rhai annibynnol mai'r Comisiwn oedd y brif ffynhonnell o wybodaeth am y broses enwebu (o gymharu ag 8% o ymgeiswyr a oedd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol). Roedd ymgeiswyr annibynnol yn fwy tebygol o gytuno bod cyngor y Comisiwn yn ddefnyddiol (65% yn cytuno â'r datganiad hwn, o'i gymharu â 46% o ymgeiswyr plaid).

4.42 Defnyddiwyd canllawiau a chyngor y Comisiwn ar y rheolau treuliau etholiad er gwybodaeth i raddau llawer mwy gan yr ymgeiswyr annibynnol nag ymgeiswyr plaid. Cafodd bron i hanner yr ymgeiswyr annibynnol (45%) y rhan fwyaf o'u gwybodaeth gan y Comisiwn o'i gymharu ag un o bob pump (20%) o'r rhai oedd yn sefyll dros blaid wleidyddol.

Cyfranogiad gan ymgeiswyr ac ymgyrchwyr: casgliadau ac argymhellion

4.43 Roedd llawer o'r rheolau ar gyfer cymhwyster ac enwebu ymgeiswyr yn yr etholiadau CHTh yn sylweddol wahanol i'r rhai a oedd yn eu lle ar gyfer etholiadau eraill yn y DU. Nid oedd rhai o'r gwahaniaethau hyn - yn enwedig y rheolau anghymwysu llymach ar gyfer pobl oedd ag euogfarnau blaenorol – wedi cael eu deall yn iawn gan ymgeiswyr, gan arwain at ddryswch ac, mewn un achos a gafodd gryn gyhoeddusrwydd, arhosodd un ymgeisydd ar y papur pleidleisio er gwaethaf cydnabod ei fod yn anghymwys i sefyll.

4.44 Mae'r Comisiwn wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sefyll etholiad yn y DU. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn cymryd i ystyriaeth farn a phrofiad ymgeiswyr yn yr etholiadau CHTh cyntaf ym mis Tachwedd 2012. Bydd ein hadolygiad yn ystyried unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cyflwyno'u hunain fel ymgeiswyr ar gyfer etholiad, ac a oes unrhyw rwystrau diangen y gellid eu dileu. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cymwysterau, anghymwysterau, a'r gofynion ar gyfer cael enwebiad fel ymgeisydd, yn ogystal â'r manteision a chefnogaeth sydd ar gael i ymgeiswyr unwaith y cânt eu henwebu. Rydym yn disgwyl cyhoeddi unrhyw argymhellion ar gyfer newid deddfwriaethol erbyn diwedd 2013.

4.45 Fodd bynnag, mae un mater penodol y mae'n rhaid ymdrin ag ef cyn yr etholiadau CHTh nesaf ym mis Mai 2016. Mae gwersi pwysig sydd angen eu dysgu gan y Comisiwn, pleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau a Llywodraeth y DU am y ffordd orau i sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn deall y rheolau ynghylch cymhwyster i sefyll fel ymgeisydd. Er fod y prif gyfrifoldeb am sicrhau bod ymgeiswyr unigol yn deall

p'un a ydynt yn gymwys neu'n anghymwys i sefyll yn parhau i aros gyda hwy a'u hasiantau etholiad, mae'n amlwg bod nifer fechan ond sylweddol o bobl wedi methu â chael mynediad at gyngor cywir ynghylch a oedd yr anghymwyster a oedd yn ymwneud ag euogfarnau am droseddau carcharol yn berthnasol i'w hamgylchiadau penodol hwy.

Argymhelliad 5: Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael mynediad i ganllawiau a chyngor ar y rheolau ar sefyll etholiad fel CHTh

Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda Swyddogion Canlyniadau, pleidiau gwleidyddol a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynigion i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'r dyfodol yn parhau i gael mynediad at ganllawiau a chyngor am sefyll mewn etholiad.

Yn benodol, byddwn yn adolygu adborth a chanlyniadau ein harolwg o ymgeiswyr er mwyn nodi cyfleoedd i ddarparu mwy o gyngor penodol ynghylch yr amgylchiadau lle y gallai pobl fod yn destun i anghymhwysiad ar sail euogfarn flaenorol.

Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddatblygu cynigion i ychwanegu at y canllawiau a chyngor yr ydym yn eu darparu ar gyfraith etholiadol, gan sicrhau y gellir gwneud arbenigedd ar agweddau perthnasol o'r gyfraith cyfiawnder troseddol ar gael i'r rhai sydd ei angen.

Dylai Llywodraeth y DU ystyried a oes angen eglurhad pellach o ddarpariaethau ar gyfer llenwi swydd wag Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gynnwys amgylchiadau lle y canfyddir bod ymgeisydd yn anghymwys ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau'n ôl ond cyn y bleidlais. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y gyfraith yn cael eu gwneud er mwyn i'r rheolau fod yn glir erbyn mis Tachwedd 2015, chwe mis cyn yr etholiadau CHTh nesaf.

5 Ymddiriedaeth yng nghyflenwad yr etholiadau

Strwythur a rheolaeth yr etholiadau

Ardaloedd yr Heddlu

5.1 Cynhaliwyd pedwar deg un o etholiadau CHTh ar wahân ar 15 Tachwedd 2012, gyda phob ardal heddlu'n ffurfio etholaeth unigol. Mae'r 41 o ardaloedd heddlu yng Nghymru a Lloegr yn amrywio'n fawr o ran maint a phoblogaeth o Fanceinion Fwyaf gyda dwy filiwn o etholwyr i Heddlu Dyfed Powys gyda llai na 400,000. Nid yw maint yr etholaeth yn unig, fodd bynnag, yn rhoi darlun cywir o raddfa'r etholaethau newydd hyn, er enghraifft, er fod ganddi'r nifer lleiaf o etholwyr cofrestredig, mae Dyfed Powys hefyd yn ddaearyddol yr ardal heddlu fwyaf, yn rhychwantu dros 4000 o filltiroedd sgwâr.

5.2 Mae ardaloedd yr heddlu yn cynnwys nifer gwahanol o awdurdodau lleol, yn amrywio o ddau (yn swydd Durham a Wiltshire) i gymaint â 16 (Dyffryn Tafwys).

5.3 Yn disgyn yn weinyddol o fewn awdurdod unigol, mae etholiadau lleol a Seneddol yn cael eu gweinyddu gan Swyddogion Canlyniadau unigol. Roedd y Swyddfa Gartref yn cydnabod y byddai natur gymhleth yr etholaethau ac etholiadau newydd angen rheolaeth ychwanegol, yn debyg i'r un sydd yn ei le ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ac ar gyfer y Refferendwm PVS 2011.

Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu (PAROs) a Swyddogion Canlyniadau Lleol (LROs)

5.4 Dynododd y Swyddfa Gartref 41 o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu (PAROs) drwy Orchymyn Seneddol a'u rôl fyddai i gyd-drefnu'r gwaith o weinyddu'r etholiad ar draws yr ardal heddlu gyfan, yn ogystal â gwasanaethu fel y Swyddog Canlyniadau Lleol yn ôl eu hawdurdod eu hunain.

5.5 Roedd gan y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gyfrifoldeb am y modd cyffredinol yr oedd yr etholiad CHTh yn cael ei gynnal yn eu hardal heddlu perthnasol ac roedd disgwyl iddynt roi arweiniad a hybu arfer da i Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau bod yr etholiad yn rhedeg yn dda a bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel lle bynnag yr oeddynt yn pleidleisio.

5.6 Er mwyn dynodi Swyddogion Canlyniadau Lleol addas i lenwi'r swyddi statudol newydd fel Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, dynododd y Swyddfa Gartref, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Etholiadol, feini prawf gofynnol yr oedd

rhaid i bartïon â diddordeb eu bodloni. Roedd y meini prawf hyn yn cynnwys bod yn 'Swyddog Canlyniadau Gweithredol (ARO) i etholaeth Seneddol y DU ddynodedig a oedd yn syrthio yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu',⁵³ bod â phrofiad blaenorol o etholiadau ar raddfa fawr, a bodloni neu ragori ar safonau perfformiad PS1 (sgiliau a gwybodaeth) a PS2 (prosesau cynllunio yn eu lle) y Comisiwn.⁵⁴ Gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb gan bob ARO perthnasol. Sefydlwyd panel cyfweld gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Etholiadol.

5.7 Derbyniwyd ceisiadau gan AROs yn cynrychioli 36 o'r 41 o ardaloedd yr heddlu; cafodd cyfweiliadau eu cynnal ddiwedd mis Awst/dechrau Medi 2011. Ar gyfer ardaloedd lle na ddaeth unrhyw geisiadau i law, cytunwyd ar broses ddynodi, y penodwyd y gweddill o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu drwyddi.

5.8 Arhosodd y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn 'ddarpar' hyd nes i'r *Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (Dynodi Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu)* ddod i rym ar 25 Gorffennaf 2012. Roedd y Gorchymyn yn dynodi'r ARO penodedig ar gyfer etholaeth Seneddol y DU benodol yn Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn hytrach nag enwi unigolyn. Mewn dau achos, gadawodd Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yr awdurdod cyn yr etholiad ac yn yr achosion hynny, cafodd strwythurau eraill eu rhoi ar waith gyda'r tîm gwasanaethau etholiadol yn aros yn yr awdurdod lleol gwreiddiol ond gyda'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu wedi'i leoli mewn man arall.

5.9 Rhoddwyd pŵer i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu roi cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau Lleol y gellid ei ddefnyddio i sicrhau cysondeb ar draws eu hardal heddlu yn ogystal ag i ymyrryd ac i wella perfformiad. Y pŵer i gyfarwyddo oedd dim ond un o'r arfau oedd y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, a oedd yn atebol am gyflenwad cyffredinol yr etholiad, yn gallu ei ddefnyddio wrth gynllunio'r etholiad a gweithio gydag awdurdodau eraill. Gwnaeth pob Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ymarfer y pŵer yn wahanol gyda rhai'n dewis cyhoeddi cyfarwyddiadau ar amrywiaeth eang o faterion ac eraill yn ffafrio dull colegol, lle'r oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud fel grŵp a Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn gweithredu fel y 'prif un ymhlith cydraddolion'.

**Gwnaeth y cyfarfodydd cynnar gyda PAROs ganolbwyntio ar yr allbynnau oedd eu hangen – mae'r holl awdurdodau Ardal Heddlu wedi arfer gweithio gyda'i gilydd ac roedd hwn yn rhoi sylfaen dda ar gyfer yr etholiad CHTh.
Swyddog Canlyniadau Lleol, Gogledd Ddwyrain**

5.10 Oherwydd y nifer o ardaloedd heddlu, enwebodd pob rhanbarth un Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, fel arweinydd rhanbarthol, i'w cynrychioli mewn rhai cyfarfodydd. Yn wahanol i'r Refferendwm PVS 2011 neu etholiadau Senedd Ewrop,

⁵³ http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0005/119435/PCC-Elections-PARO-Job-description-12-07-2011-FINAL.pdf

⁵⁴ Cymerwyd y safonau hyn o'n system safonau perfformiad flaenorol a oedd yn bodoli ar y pryd.

cafodd y rôl ranbarthol ei sefydlu ar sail anstatudol ac nid oedd y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu Rhanbarthol yn derbyn unrhyw bwerau ychwanegol.

5.11 O fis Chwefror 2011 tan ar ôl yr etholiad, cynullodd y Swyddfa Gartref gyfarfodydd panel ymgynghorol rheolaidd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa'r Cabinet, y Comisiwn, SOLACE⁵⁵ a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, a rhai Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu Rhanbarthol. Roedd y panel yn trafod materion ar draws pob agwedd o redeg etholiadau i'w helpu'r cynllunio. Roedd y grŵp hwn yn gweithredu fel corff arbenigol y gallai swyddogion ofyn cwestiynau iddo a thrafod rhinweddau cymharol gwahanol ddewisiadau. Fodd bynnag nid oedd gan y panel unrhyw rôl i bennu deddfwriaeth neu benderfyniadau bolisi.

5.12 Rhedodd y Swyddfa Gartref ddwy seminar ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ym mis Mawrth a mis Medi 2012. Roedd y seminar yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau penodol y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gan gynnwys y cyfrif a'r pŵer i roi cyfarwyddyd. Awgryma'r adborth gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu er fod y cysyniad o seminarau yn ddefnyddiol, nad oedd yr amseriad yn ddelfrydol, yn enwedig yn achos sesiwn Medi a oedd yn canolbwyntio ar y dilysu a'r cyfrif, a oedd yn rhy hwyr i fod o'r defnydd gorau posibl. Ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol, dylai'r Swyddfa Gartref fod â strategaethau cliriach ar waith ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth ar sail amserol i Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu.

Perfformiad a boddhad gyda chyflenwad yr etholiadau

Monitro perfformiad

5.13 Rydym yn defnyddio fframwaith safonau perfformiad i nodi lle mae etholiadau'n cael eu rhedeg yn dda ac i herio Swyddogion Canlyniadau lle mae'r gwasanaeth a dderbynnir gan etholwyr yn is na'r safon.⁵⁶ Gyda'r safonau hyn rydym yn anelu at sicrhau bod pleidleiswyr yn rhannu profiad cyson, ac yn derbyn yr un gwasanaeth o ansawdd uchel waeth lle maent wedi'u cofrestru i bleidleisio. Rydym yn cyhoeddi canllawiau ar-lein ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar bob agwedd ar weinyddu etholiadau, ynghyd â thempledi ac adnoddau, sydd hefyd yn eu helpu i gyrraedd y safonau perfformiad. Mae ein canllawiau a safonau perfformiad wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

⁵⁵ SOLACE – Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (Society of Local Authority Chief Executives and Senior Managers)

⁵⁶ Rhoddodd Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 bwerau i'r Comisiwn bennu a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer ROs, eu cyfeirio i roi adroddiadau ynghylch eu perfformiad i'r Comisiwn, a chyhoeddi ei asesiad o lefel y perfformiad gan swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd.

5.14 Roedd gofyn i Swyddogion Canlyniadau Lleol gyflwyno ffurflenni monitro ar adegau a bennwyd ymlaen llaw cyn ac yn ystod cyfnod yr etholiad, gan ddangos eu perfformiad yn erbyn y safonau. Hefyd buom yn asesu data ategol a thystiolaeth o sampl o Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Lloegr a Chymru.⁵⁷

5.15 Rhoddodd ein monitro cyn-arolwg a gweithgaredd dilyn i fyny gyda Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrwydd digonol bod yr etholiadau yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n effeithiol. Drwy gydol cyfnod ein monitro perfformiad, gwnaethom gyfleu unrhyw faterion a nodwyd gennym gyda pherfformiad Swyddog Canlyniadau Lleol i'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu perthnasol trwy adroddiadau rheolaidd yn nodi'r prif bwyntiau, er mwyn eu galluogi i gyfarwyddo neu argymhell unrhyw welliannau fel y mynnent.


5.16 Ar y cyfan, perfformiodd y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn dda yn erbyn y safonau perfformiad yn yr etholiadau CHTh. Mae gwybodaeth am berfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol unigol gyda'r cyfleuster i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau ar gael ar ein gwefan.⁵⁸

5.17 Dengys Siart 10 isod y gyfran o Swyddogion Canlyniadau Lleol a fodlonodd (neu na wnaeth fodloni) pob un o'n safonau ar gyfer gweinyddu'r etholiadau a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2012.

⁵⁷ Gellir gweld ein hasesiad blynyddol diweddaraf (4^{ydd}) o berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ein gwefan: <http://www.electoralcommission.org.uk/performance-standards>. Disgwylir i'r 5^{ed} asesiad blynyddol gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013 a bydd yn cynnwys y cyfnod sy'n cynnwys yr etholiadau CHTh. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

⁵⁸ Gellir cael y wybodaeth hon ar ein gwefan yn www.electoralcommission.org.uk/performance-standards/results_and_analysis/assessment

Siart 10: Safonau perfformiad Swyddog Canlyniadau Lleol: etholiadau CHTh



5.18 Ni wnaeth cyfanswm o 32 o Swyddogion Canlyniadau Lleol (10%) fodloni un neu fwy o'n safonau perfformiad. Yn y mwyafrif o achosion, roedd hyn oherwydd datganiadau pleidleisio drwy'r post nad oedd yn unol â'r ffurflen ragnodedig neu ein canllawiau; caiff hyn ei drafod yn fwy manwl isod ym mharagraff 5.36 isod.

Perfformiad Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu

5.19 Roedd ein gwaith o fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn canolbwyntio ar agweddau rheoli a chydlynu rôl y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, yn enwedig o ran pwysigrwydd sicrhau cysondeb cyflenwi'r etholiad gan Swyddogion Canlyniadau Lleol, gan gynnwys yr angen am strategaethau cyfathrebu clir ac effeithiol. Gwnaethom fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu mewn tri maes: cynllunio a threfniadaeth; ymgeiswyr ac asiantau, a dilysu a chyfrif. Yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu wedi cyflawni'r safonau a pherfformio'n dda. Pan nodwyd unrhyw faterion yn ystod ein gwaith monitro roedd y rhain yn cael eu bwydo'n ôl i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu unigol, a hefyd rhoesom adborth i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn dilyn yr etholiadau, gan gynnwys nodi unrhyw feysydd lle gellid gwneud gwelliannau ar gyfer etholiadau i'r dyfodol.

Bodddhad â chyflenwad yr etholiadau

5.20 Ledled Cymru a Lloegr, nid oedd dros hanner (54%) yr ymatebwyr i'n hymchwil barn gyhoeddus yn hyderus bod yr etholiadau CHTh wedi cael eu rhedeg yn dda. Mae hyn yn cyferbynnu â'r etholiad ar gyfer Maer ym Mryste a refferendwm yn Hartlepool lle'r oedd 21% a 44% o ymatebwyr yn y drefn honno naill ai 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' fod eu hetholiadau wedi cael eu rhedeg yn dda. Mae hefyd yn cynrychioli gostyngiad sylweddol mewn lefelau o hyder mewn perthynas ag etholiadau Mai 2012, pan mai dim ond 13% o'r ymatebwyr (ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru) a ddywedodd nad oeddent yn hyderus fod yr etholiadau wedi cael eu rhedeg yn dda.

5.21 Mae'n bwysig nodi mai'r prif reswm a roddwyd dros ddiffyg hyder o'r fath yn yr etholiadau CHTh oedd diffyg gwybodaeth am yr etholiadau, yn hytrach na'r broses o redeg yr etholiadau eu hunain. Nododd 79% o bobl nad oeddynt yn hyderus fod yr etholiadau wedi'u rhedeg yn dda anfodlonrwydd gyda'r wybodaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd bodddhad â'r weithdrefn ar gyfer pleidleisio yn gyffredinol mor uchel mewn perthynas ag etholiadau Tachwedd 2012 ag yr oedd yn etholiadau Mai 2012 (78% a 79% o ymatebwyr yn y drefn honno yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y broses o bleidleisio).


5.22 Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng pobl yng Nghymru a Lloegr o ran hyder fod yr etholiadau wedi'u rhedeg yn dda.

5.23 Gwnaethom hefyd geisio barn gan ymgeiswyr yn yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a derbyn ymatebion i'r arolwg drwy'r post gan 96 allan o 191 o ymgeiswyr.

5.24 Fel y dangosir yn Siart 11 isod, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr (74%) yn fodlon â gweinyddiad yr etholiad yn ardal eu heddlu.⁵⁹ Roedd ymgeiswyr annibynnol, fodd bynnag, yn llawer mwy tebygol o fynegi anfodlonrwydd gyda gweinyddiad yr etholiadau na'r ymgeiswyr oedd yn sefyll am etholiad ar ran plaid wleidyddol (23% v 6%).

⁵⁹ Os gwelwch yn dda nodwch efallai na fydd canrannau bob amser yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

Siart 11 - Boddhad ymgeiswyr â gweinyddiaeth yr etholiad CHTH



5.25 Roedd bron yr holl ymatebwyr (96%) yn cytuno bod Swyddogion Canlyniadau Lleol/staff wedi bod o gymorth yn ystod yr ymgyrch, a mwy nag wyth o bob deg (83%) yn cytuno bod yr etholiadau wedi'u rhedeg yn dda. Roedd cyfran debyg (82%) o'r ymatebwyr yn fodlon ar ba mor effeithlon y cafodd y broses ddilysu a chyfrif ei rhedeg.

Materion gweinyddol etholiadol

Effaith yr etholiadau ar y canfas blynyddol

5.26 Bob blwyddyn mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) yn ymgymryd ag adnewyddiad cynhwysfawr o'r gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal, a elwir y canfas blynyddol. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei chymryd drwy gyfeirio at aelwyd felly mae hi ar 15 Hydref (a elwir y 'dyddiad cyfeirnod'). Fel arfer bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cynnal y canfas ym mis Hydref a mis Tachwedd a rhaid cyhoeddi'r gofrestr erbyn 1 Rhagfyr y flwyddyn benodol.

5.27 Golygai'r penderfyniad i gynnal yr etholiadau CHTH ar 15 Tachwedd, 2012 bod yr etholiadau yn cael eu trefnu yn ystod y cyfnod canfas blynyddol arferol. Er mwyn

sicrhau bod y cofrestri a oedd i'w defnyddio ar gyfer yr etholiadau mor gywir a chyflawn ag y bo modd, er lles pleidleiswyr a phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr, argymhellodd y Comisiwn fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn ardaloedd ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ddechrau'r canfas cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 2 Gorffennaf (os nad cyn hynny), ac i gyhoeddi eu cofrestr ddiwygiedig ar 16 Hydref.

5.28 Er mwyn bod wedi'u henwebu'n ddilys, rhaid i ymgeiswyr ar gyfer etholiadau CHTh fod ar y gofrestr etholiadol yn yr ardal heddlu berthnasol ar y dyddiad y cânt eu henwebu ac ar ddiwrnod yr etholiad ei hun. Ar ben hynny, rhaid i ymgeiswyr dderbyn cefnogaeth 100 o etholwyr cofrestredig cymwys ('llofnodwyr') yn yr ardal heddlu lle maent yn dymuno sefyll ynddi (gweler tudalen 63). Rhaid i ymgeiswyr (a'u hasiantau) ddefnyddio'r gofrestr etholiadol i sicrhau bod y llofnodwyr sydd wedi llofnodi eu henwebiad wedi cael eu cofrestru.

5.29 Gan fod amserlen yr etholiad CHTh eisoes wedi dechrau erbyn yr adeg honno, dim ond os oeddent ar y gofrestr a oedd mewn grym cyn y canfas (cofrestr 2 Gorffennaf fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddiweddariadau isetholiad) yr oedd llofnodwyr yn ddilys. Felly roedd ymgeiswyr yn wynebu un gofrestr ar gyfer casglu llofnodwyr a fersiwn arall, a gyhoeddwyd ar 16 Hydref, a fyddai'n mewn grym ar gyfer y diwrnod pleidleisio.

5.30 Gyda'r gofrestr diwrnod pleidleisio ar gael yn ddiweddarach o lawer nag arfer, roedd yn anos i ymgeiswyr gynllunio eu hymgyrchoedd. Roedd hefyd yn anos i Swyddogion Canlyniadau Lleol baratoi ar gyfer tasgau etholiad allweddol fel anfon cardiau pleidleisio a pharatoi pecynnau pleidleisio drwy'r post.

5.31 Roedd adborth gan rai Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yn dangos bod symud y canfas a sicrhau bod cofrestri'n barod ar gyfer yr etholiad wedi arwain at gynyddu costau canfasio a phrosesu o ganlyniad i'r amserlen dynn. Er fod adborth yn awgrymu bod y Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi ymdopi'n dda gyda chynnal y canfas yn ystod misoedd yr haf, yr oedd yn achosi straen sylweddol ar adnoddau staff. Roedd llawer o awdurdodau wedi cynnal etholiadau lleol ym mis Mai 2012 ac yna symud ar unwaith i'r canfas. Ar ben hynny, roedd cyfnod yr etholiad CHTh yn dechrau'n syth ar ôl i'r canfas ddod i ben. O ganlyniad, roedd adrannau gwasanaethau etholiadol yn rheoli tri phrosiect critigol, dwys a rhai oedd yn gorgyffwrdd.

5.32 Roedd pleidiau gwleidyddol wedi codi rhai pryderon ynglŷn ag effaith ar eu gweithgareddau ymgyrchu o wneud diwygiadau sylweddol i gofrestri etholiadol mor agos at y diwrnod pleidleisio. Yn fras, mynegwyd pryder y byddai eu hymgyrchwyr angen cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf a data cofrestr etholiadol y gellir ei ddefnyddio er mwyn gallu cysylltu ag etholwyr yn ystod cyfnod yr ymgyrch. Er nad ydym yn ymwybodol o bleidiau ac ymgeiswyr sydd wedi nodi eu bod wedi profi problemau sylweddol yn ymarferol, bydd yn bwysig sicrhau ymgyngori eto ag ymgyrchwyr ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i amseriad gweithgaredd y canfas blynyddol i'r dyfodol.

Anfon cardiau pleidleisio

5.33 Mae cardiau pleidleisio'n cynnwys gwybodaeth bwysig am bryd a lle fydd etholiad yn digwydd, a sut i bleidleisio. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod cardiau'n cael eu hanfon cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad etholiad (sef ar gyfer yr etholiadau hyn, yr oedd angen eu cyhoeddi ddim hwyrach na Dydd Llun 8 Hydref 2012). Dylai pob etholwr dderbyn eu cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo modd er mwyn iddynt gael yr amser hiraf bosibl i wneud cais am bleidleisiau absennol, newid manylion cofrestru, neu benderfynu sefyll fel ymgeisydd.

5.34 Fel y disgrifiwyd uchod, nid oedd yn bosibl cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig (a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer adnabod pwy oedd â'r hawl i bleidleisio) yn tan 16 Hydref. Gan adlewyrchu hyn, er mwyn bodloni ein safonau perfformiad roedd yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau Lleol anfon cardiau pleidleisio heb fod yn hwyrach na 22 Hydref 2012, 18 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. O ystyried bod hyn yn llawer agosach at y diwrnod pleidleisio nag a fyddai fel arfer,⁶⁰ roedd yn arbennig o bwysig bod cardiau pleidleisio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon i etholwyr.

5.35 Yn ein monitro o ddyddiadau gwirioneddol anfon cardiau pleidleisio, gwnaethom nodi chwech Swyddog Canlyniadau Lleol nad oeddent yn bodloni ein meini prawf. O'r rhain, roedd pump wedi anfon eu cardiau pleidleisio cyn cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ar 16 Hydref. Anfonodd un Swyddog Canlyniadau Lleol eu cardiau pleidleisio ddiwrnod yn hwyr, oherwydd materion TG. Ers hynny, rydym wedi cysylltu â phob un o'r Swyddogion Canlyniadau Lleol ynglŷn â hyn, i'w hatgoffa o'r manteision fyddai ganddo i bleidleiswyr.

Datganiadau pleidleisio drwy'r post

5.36 Ni wnaeth cyfanswm o 27 o Swyddogion Canlyniadau Lleol fodloni un neu fwy o'r safonau a osodwyd ar gyfer pleidleisio absennol. Yn y rhan fwyaf o achosion (22 o Swyddogion Canlyniadau Lleol) roedd hyn yn ymwneud â datganiadau pleidleisio drwy'r post, nad oeddynt yn unol â'r ffurflen ragnodedig neu ein canllawiau

5.37 Mae'r system bleidleisio a ddefnyddir ar gyfer etholiadau CHTh yn amrywio gan ddibynnu ar p'un a oes dim ond dau ymgeisydd yn sefyll (y system bleidleisio cyntaf-i'r-felin), neu fwy na dau ymgeisydd (y system bleidlais atodol). Felly mae'r ffurf ragnodedig o ddatganiad pleidleisio drwy'r post yn cynnwys y geiriad i'w ddefnyddio ar gyfer y ddwy system, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddewis y cyfarwyddyd cywir. Cyhoeddassom ganllawiau ar y pwynt hwn ym mis Awst 2012 pan gyhoeddwyd y ffurflenni ragnodedig i'w defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau. Ni allai Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gadarnhau i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol y system bleidleisio oedd i gael ei defnyddio tan fod y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau'n ôl wedi mynd heibio, a bod y nifer o ymgeiswyr a oedd yn sefyll etholiad yn hysbys.

⁶⁰ Mewn cymhariaeth, yn etholiadau llywodraeth leol Mai 2012 yng Nghymru a Lloegr, roedd ein safonau yn ei gwneud yn ofynnol anfon cardiau pleidleisio ddim hwyrach na 24 diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.

5.38 Ar ddiwedd mis Medi, daethom yn ymwybodol bod nifer o Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ystyried anfon datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cynnwys y ddwy set o gyfarwyddiadau pleidleisio, gan gyfarwyddo'r pleidleisiwr i ddilyn pa bynnag gyfarwyddyd oedd yn berthnasol i'w papur pleidleisio, yn hytrach na dilyn y ffurf ragnodedig a oedd yn gofyn am i ddim ond un cyfarwyddyd pleidleisio gael ei gynnwys. Rydym yn deall bod hyn yn o ganlyniad i bryderon na fyddai argraffwyr â'r capasiti i argraffu datganiadau pleidleisio drwy'r post ar amser os oedd angen aros tan ddiwedd y cyfnod tynnu'n ôl i wybod pa gyfarwyddiadau i'w cynnwys ar y datganiad. Os na fyddai'r pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi cael eu hargraffu'n brydlon, roedd risg o oedi o ran eu hanfon, gan roi llai o amser i etholwyr i gwblhau a dychwelyd eu pleidlais drwy'r post.

5.39 Gan gydnabod hyn, cyhoeddasom ganllawiau ar ddechrau mis Hydref yn cynghori Swyddogion Canlyniadau Lleol yn y sefyllfa hon i ystyried hepgor y ddau gyfarwyddyd o'r datganiad pleidleisio drwy'r post, er mwyn osgoi dryswch, ac yn eu lle rhoi cyfarwyddyd a oedd yn cyfeirio'r pleidleisiwr at y papur pleidleisio i gael cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio, gan alluogi'r i'r datganiadau pleidleisio drwy'r post gael eu hargraffu cyn diwedd y cyfnod tynnu'n ôl. Roedd hyn er mwyn sicrhau y gallai datganiadau pleidleisio drwy'r post gyda chyfarwyddiadau clir gael eu hanfon i bleidleiswyr mewn da bryd iddynt dderbyn, llenwi a dychwelyd eu pleidlais drwy'r post, tra'n osgoi cynnwys cyfarwyddiadau nad oeddynt yn berthnasol i'r system bleidleisio a oedd yn cael ei defnyddio.

5.40 Yn ystod ein gwaith monitro perfformiad, gwnaethom nodi nifer o Swyddogion Canlyniadau Lleol yr oedd eu datganiad pleidleisio drwy'r post arfaethedig yn cynnwys y ddwy set o gyfarwyddiadau. Rydym yn deall bod y Swyddogion Canlyniadau Lleol hynny a wnaeth wedyn anfon datganiadau pleidleisio drwy'r post nad oedd yn unol â'r ffurflen ragnodedig wedi eu hargraffu cyn i'r system bleidleisio a oedd i'w defnyddio gael ei chadarnhau, a cyn i ni ddod yn ymwybodol o'r mater a gallu darparu arweiniad ar sut i afael ag ef.

5.41 Gofynnwyd i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gysylltu â phob Swyddog Canlyniadau Lleol i wirio a oedd eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn unol â'r ffurflen ragnodedig ac os nad oedd, i gymryd unrhyw gamau fel y mynnent. Penderfynodd rhai Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu nad oedd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol ail-argraffu eu datganiadau pleidleisio drwy'r post ar y cam hwnnw yn y broses er mwyn osgoi achosi oedi wrth ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post.

5.42 Rydym hefyd yn ymwybodol fod un Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu wedi ymrwymo i ddarparu'r 'gwaith celf' i gael ei ddefnyddio gan Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth argraffu datganiadau pleidleisio drwy'r post i'w hanfon yn lleol. Roedd y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn parhau'n gyfrifol, fodd bynnag, am brawf-wirio a chymeradwyo'r gwaith celf ar gyfer eu hardal leol (mae hwn hefyd yn un o'r meini prawf ar ein safon perfformiad sy'n ymwneud â chynhyrchu datganiadau pleidleisio drwy'r post). Roedd y datganiad pleidleisio drwy'r post a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn cynnwys y ddwy set o gyfarwyddiadau pleidleisio a gan

fod pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn yr ardal heddlu wedi defnyddio'r datganiad hwn, nid oeddent yn bodloni meini prawf y safon perfformiad.

5.43 Ers hynny, mae rhai o'r Swyddogion Canlyniadau Lleol wedi gwneud sylwadau i ni nad oedd y cyfarwyddiadau a gynhwyswyd yn eu barn hwy'n ddigon clir, ac ar y pwynt lle y gwnaethom ganfod y broblem a chyhoeddi canllawiau ar sut i ymdrin â hi, ni fyddai ailargraffu'r datganiadau naill ai wedi bod yn bosibl, o ystyried capasiti eu hargraffwyr, neu y gallai fod wedi achosi oedi annerbyniol i bleidleisiau drwy'r post gael eu hanfon allan. Dywedodd rhai hefyd eu bod wedi penderfynu cynnwys y ddau gyfarwyddyd am resymau ymarferol gan na fyddai eu hargraffydd wedi gallu argraffu eu datganiadau pleidleisio drwy'r post mewn pryd petaent wedi yn aros tan y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl. Dywedodd eraill eu bod yn defnyddio'r datganiad a ddarparwyd iddynt gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ac nad oeddynt felly'n uniongyrchol gyfrifol am ei gynnwys.

5.44 Un o amcanion allweddol ein safonau perfformiad yw sicrhau bod pobl yn gallu cymryd rhan yn hawdd mewn etholiadau a bod yn hyderus eu bod yn gwybod sut i fwrw eu pleidlais yn llwyddiannus, ac felly nid ydym yn credu y dylai pleidleiswyr orfod gweithio allan pa gyfarwyddiadau sy'n berthnasol i'w papur pleidleisio penodol. Lle'r ydym wedi dynodi Swyddogion Canlyniadau Lleol nad oedd eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn unol â'r ddeddfwriaeth neu ein canllawiau oherwydd bod ganddynt gyfarwyddiadau lluosog, rydym wedi eu hasesu fel heb gyrraedd y safon, oherwydd ein bod o'r farn bod eu cyfarwyddiadau'n peryglu drysu pleidleiswyr neu o bosibl eu harwain i farcio eu papur pleidleisio mewn ffordd sy'n golygu na fydd yn cael ei gyfrif, neu'n cael ei gyfrif mewn ffordd nad oeddynt yn ei fwriadu. Mae hyn yn cynnwys y rhai lle'r oedd y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu wedi darparu datganiad i Swyddogion Canlyniadau Lleol ei ddefnyddio. Rydym yn derbyn bod y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn yr ardal heddlu hon yn wynebu cyfyng-gyngor o ran cyngor gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu a'r safonau perfformiad a osodwyd gan y Comisiwn. Er ein bod yn cydnabod bod y Swyddogion Canlyniadau Lleol yn dilyn cyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, y Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n dal yn gyfrifol am sicrhau bod y datganiadau y maent yn eu hanfon yn bodloni gofynion deddfwriaethol ac yn unol â'r safonau perfformiad, ac nid ydym yn ystyried y gall y Swyddogion Canlyniadau Lleol hyn gael eu hasesu fel rhai sy'n bodloni'r safon oherwydd bod canlyniad eu penderfyniad o bosibl wedi cael effaith andwyol ar etholwyr.

5.45 Ar sail amserlen bresennol yr etholiad CHTh, bydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r system bleidleisio sydd i'w defnyddio ym mhob ardal heddlu yn codi mewn etholiadau CHTh i'r dyfodol, gan olygu her i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ac argraffwyr. Os na all Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gadarnhau pa system bleidleisio a fydd yn cael ei defnyddio tan ychydig dros dair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio, mae hyn yn rhoi rhy ychydig o amser i bob ardal heddlu roi'r ffurf derfynol ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a'u hargraffu, ac i becynnau pleidleisio drwy'r post gael eu llunio mewn pryd i'w hanfon allan yn brydlon i etholwyr.

Y fframwaith safonau perfformiad

5.46 Drwy gydol cyfnod ein monitro perfformiad, gwnaethom gyfleu unrhyw faterion perfformiad Swyddog Canlyniadau Lleol a nodwyd gennym i'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu perthnasol trwy adroddiadau rheolaidd yn nodi'r prif bwyntiau, er mwyn eu galluogi i gyfarwyddo neu argymhell unrhyw welliannau fel y mynnent. Roedd y mater a ddisgrifir uchod yn ymwneud â chyfarwyddiadau ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post yw un mater o'r fath rydym wedi tynnu sylw ato gyda Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu. Yn ymarferol, mae'r graddau y gwnaeth y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu ddilyn i fyny'r wybodaeth am danberfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol ac ymdrin â'r materion perfformiad yn amrywio.

5.47 Mae'r Comisiwn yn bwriadu adolygu ei ddull o ddarparu canllawiau a monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau yn ystod 2013, cyn etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Senedd Ewrop sydd i fod i ddigwydd yn 2014. Bydd hyn yn gyfle i ni edrych eto ar ein dull o ddarparu canllawiau a safonau perfformiad, gan gynnwys p'un a ydynt yn canolbwyntio ar y pethau iawn ac yn gofyn am y wybodaeth gywir ar yr adeg iawn.

5.48 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safonau perfformiad penodol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau sydd â grym statudol o gyfarwyddyd fel sydd gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, neu Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol (RROs) yn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd. Felly bwriadwn yn ein hadolygiad ffocysu'n benodol ar y fframwaith ar gyfer monitro perfformiad mewn etholiadau lle mae rhywun sydd â phŵer statudol i roi cyfarwyddyd a sut mae perfformiad, er enghraifft, Swyddogion Canlyniadau lleol a'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn Etholiadau Senedd Ewrop yn cael ei fonitro.

5.49 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Cyngori Etholiadol wrth ddatblygu unrhyw argymhellion ar gyfer newid ac yn disgwyl bod wedi gweithredu unrhyw newidiadau ymhell cyn yr etholiadau a drefnwyd i ddigwydd yn 2014. Os ydym yn bwriadu gwneud newidiadau i safonau perfformiad, bydd y rhain yn destun ymgynghoriad statudol. Yn ymarferol, byddem yn disgwyl ymgynghori ar unrhyw safonau perfformiad diwygiedig o ddiwedd yr haf 2013 gyda nod o osod y fersiwn derfynol gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2013, a chyhoeddi'r holl ganllawiau ategol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

Cyfrifiadau

5.50 Roedd y ddeddfwriaeth yn caniatáu hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu benderfynu ar y strwythur mwyaf priodol ar gyfer cyfrif yr etholiadau ar draws eu hardal heddlu a chafodd amrywiaeth o ddulliau eu gweithredu. O'r 41 cyfrif etholiad CHTh, daeth pump i ben heb orfod symud ymlaen i ail rownd ac roedd tri yn dal o dan y system etholiadol cyntaf-i'r-felin.

5.51 Ar gyfer y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau Lleol, yr etholiad CHTh oedd eu profiad cyntaf o gynnal cyfrif system Bleidlais Atodol. Mae cyfrif system Bleidlais Atodol

yn wahanol i gyfrif cyntaf-i'r-felin (y system a ddefnyddir yn etholiadau seneddol y DU a llywodraeth leol) gan y gallant symud ymlaen i ail rownd.

5.52 Roedd yr ystod o ddulliau cyfrif yn cynnwys dilysu lleol a chyfrif canolog gyda thimau canolog (h.y. yn cael eu rhedeg gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gan gynnwys Dyfnaint a Chernyw), dilysu lleol a chyfrif canolog gyda thimau lleol (h.y. yn cael eu rhedeg gan Swyddogion Canlyniadau Lleol mewn cyfrif canolog, gan gynnwys Avon a Gwlad yr Haf, Manceinion Fwyaf), a dilysu a chyfrif lleol (gan gynnwys Swydd Gaerloyw, Swydd Gaint). Cynhaliodd ardal heddlu Wiltshire gyfrif dros nos ar ddydd lau 15 Tachwedd tra bod y cyfrif yn y gweddill i gyd wedi digwydd trwy'r dydd ar ddydd Gwener 16 Tachwedd 2012. Er fod pob etholiad CHTh ar wahân, ceisiodd Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yng Nghymru gael cysondeb ar draws y wlad drwy gydlynio eu hamseroedd cyfrif perthnasol.

5.53 Roedd rhywfaint o hyfforddiant a chefnogaeth ar gael drwy sefydliadau allanol megis Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, er fod y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu wedi cynnal sesiynau cynllunio a hyfforddi gyda'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn eu hardal heddlu. Cynhyrchodd y Comisiwn ganllawiau⁶¹ gan gynnwys llyfryn pleidleisio amheus a 'matiau lle' i gefnogi Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Lleol wrth baratoi ar gyfer a rhedeg y cyfrif. Cynhaliodd y Swyddfa Gartref seminar gyda Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn Llundain ym mis Medi 2012, a chawsom adborth gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu bod y dyddiad ganol mis Medi yn rhy hwyr, gan eu bod eisoes wedi dechrau ar y broses gynllunio. Dylai digwyddiadau hyfforddiant neu gynllunio yn y dyfodol gael eu trefnu gyda dealltwriaeth o'r amserlenni y mae'n rhaid i'r Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu/ Swyddogion Canlyniadau Lleol eu gweithredu i gefnogi eu gwaith yn y ffordd orau.

5.54 Dangosodd adborth gan y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu hynny a oedd wedi cynnal cyfrif canolog eu bod yn teimlo eu bod wedi gweithio'n dda a bod y strwythur cydlynol yn golygu ei bod yn glir i bawb yn bresennol beth oedd yn digwydd.

5.55 Mae gan Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu gyfrifoldeb dros gyfrifo'r nifer o bleidleisiau dilys a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ar draws yr holl awdurdodau lleol yn yr ardal heddlu. Oni bai bod yr ymgeisydd wedi cael pleidlais dros 50% o bleidleisiau dewis cyntaf dilys, bydd y ddau ymgeisydd gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau dewis cyntaf yn mynd ymlaen i ail rownd.

5.56 Mae cyfrif y system Bleidlais Atodol mewn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cynnwys sawl cam:

- Gwirio - y broses ar gyfer gwirio bod y nifer o bapurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio naill ai'n cyfateb i'r nifer o bapurau a gofnodwyd ar y cyfrif a gwblhawyd gan y Swyddogion Llywyddu fel rhai a ddosbarthwyd yn yr orsaf

⁶¹ Mae ein cyfres lawn o ganllawiau ar gyfer yr etholiadau CHTh ar gael ar ein gwefan <http://www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/police-and-crime-commissioner-elections>

bleidleisio, neu os nad yw'n gwneud hynny, y gellir nodi ac esbonio ffynhonnell yr amrywiad. Mae hefyd yn rhoi ffigwr y gellir ei ddefnyddio i gysoni cyfanswm nifer y pleidleisiau a gafodd eu cyfrif.

- Y cam cyntaf yn y cyfrif - lle y cyfrir yr holl bleidleisiau dewis cyntaf i'r holl ymgeiswyr;
- Cyfrifiad cyntaf - y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn cyfrifo nifer y pleidleisiau dewis cyntaf i bob ymgeisydd ac yn penderfynu a yw cyfrif ail gam yn angenrheidiol;
- Cyfrif ail gam - unrhyw bleidleisiau ail ddewis a fwriwyd ar gyfer y ddau ymgeisydd sydd wedi symud ymlaen yn cael eu cyfrif;
- Ail gyfrifiad - y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu yn cyfrifo cyfanswm nifer y pleidleisiau ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n weddill;
- Datganiad - yr ymgeisydd a etholwyd yn briodol yn cael ei gyhoeddi.

5.57 Yn ogystal, dyfernir ar bleidleisiau amheus drwy gydol y cam cyntaf ac ail gam y cyfrif. Mae pleidleisiau naill ai'n cael eu dyfranu'n rhai dilys ac yn cael eu dychwelyd i gael eu cyfrif neu maent yn cael eu gwrthod ar seiliau penodol. Bydd unrhyw bleidleisiau a wrthodir yn cael eu dangos i ymgeiswyr neu eu hasiantau, sy'n cael cyfle i wrthwynebu'r penderfyniad.

5.58 Fel rhan o'n harolwg o ymgeiswyr, gofynasom gyfres o ddatganiadau am y cyfrif etholiad a gofynnwyd i'r ymatebwyr naill ai gytuno neu anghytuno â hwy. Ar draws yr holl gwestiynau roedd y canlyniadau'n gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod:

- Staff etholiad ar gael i esbonio beth oedd yn digwydd yn y cyfrif os oedd angen (88% yn cytuno).
- Roedd yn amlwg beth oedd yn digwydd yn ystod y dilysu a chyfrif papurau pleidleisio (80% yn cytuno).
- Roedd y broses ar gyfer beirniadu papurau pleidleisio amheus yn dryloyw (73% yn cytuno).
- Eglurodd y Swyddog Canlyniadau Lleol bob cam o'r cyfrif clir (79% yn cytuno).
- Yn gyffredinol, roedd y broses gyfrif yn dryloyw (82% yn cytuno).

5.59 Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol o ymgeiswyr yn anfodlon gyda rhai agweddau ar y broses etholiadol. Nid oedd cyfanswm o 15% o ymatebwyr yn meddwl bod y broses ar gyfer dyfarnu papurau pleidleisio'n amheus yn dryloyw, ac nid oedd 10% yn meddwl bod y broses gyfrif cyffredinol yn dryloyw. Hefyd roedd ymatebwyr a

oedd wedi sefyll am etholiad fel ymgeiswyr annibynnol yn llai tebygol o feddwl bod y prosesau cyfrif yn dryloyw. Nid oedd un rhan o dair (32%) o ymgeiswyr annibynnol a ymatebodd i'n harolwg yn credu bod y broses ar gyfer dyfarnu papurau pleidleisio amheus yn dryloyw o'i gymharu â dim ond 6% o ymgeiswyr a ddywedodd eu bod wedi sefyll am etholiad ar ran plaid wleidyddol.

5.60 Awgryma adborth gan rai Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu eu bod yn ystyried bod y broses ddilysu wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i rai Swyddogion Canlyniadau Lleol ac roedd nifer o anghysondebau yn y ffigyrau. Hefyd teimlwyd fod y cyfrifiadau eu hunain wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, yn enwedig o ystyried y nifer isel a oedd wedi pleidleisio.

5.61 Er gwaethaf y nifer isel a bleidleisiodd, ni chafodd y canlyniadau eu cwblhau yn holl ardaloedd yr heddlu tan bron i hanner nos ar Dachwedd 16. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd y rhan fwyaf (82%) o'r ymatebwyr yn ein harolwg o ymgeiswyr yn fodlon ar ba mor effeithlon y cafodd y broses ddilysu a chyfrif ei rhedeg, er fod 7% o'r ymatebwyr yn anfodlon.

Aeth y cyfrif i'r ail gam ac fe'i cwblhawyd gan tua 6.30pm ar nifer pleidleiswyr isel iawn. Petai'r nifer a bleidleisiodd wedi bod o gwmpas 40% fel sy'n bosibl mewn etholiad llywodraeth leol, ni allaf weld sut y gallai fod o bosibl ei gwblhau mewn un diwrnod.

Swyddog Canlyniadau Lleol, Swydd Efrog a'r Humber

5.62 Awgrymodd nifer o Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, gyda nifer uwch yn pleidleisio y byddai'r cyfrif wedi cymryd llawer mwy o amser ac roedd llawer yn teimlo petai'r nifer a bleidleisiodd wedi bod yn uwch, yna byddai'n annhebygol y byddai'r cyfrif wedi cael ei gwblhau ar y dydd Gwener. Byddai hwn yn fater ar gyfer y dyfodol pan allai'r etholiadau hyn gael eu cyfuno â digwyddiadau etholiadol eraill.

5.63 Er ei bod yn ymddangos fod y cyfrifiadau hyn yn gyffredinol wedi cael eu rhedeg yn dda, mae'r hyd amser a gymerodd rhai cyfrifiadau'n achosi pryder. Y cyfrif yw'r elfen fwyaf gweladwy o etholiad; mae'n ganolbwynt i nifer o arsylwyr, yr ymgeiswyr a'r cyfryngau. Er mai cynhyrchu'r canlyniadau cywir sy'n gorfod bod yn flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â gweinyddiaeth y cyfrif, gall cyfrif sy'n ymddangos yn araf godi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd ei reolaeth a'r prosesau a ddefnyddir.

Ymddiriedaeth yng nghyflenwad yr etholiadau: casgliadau ac argymhellion

5.64 Rhoddwyd strwythur rheoli statudol cwbl newydd yn ei le ar gyfer yr etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, yn wahanol i'r strwythurau rhanbarthol ledled y DU sydd ar waith ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop a Refferendwm Mai 2011 ar y system bleidleisio i etholiadau seneddol y DU, a hefyd y strwythur rhanbarthol a ddefnyddir ar gyfer etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.65 I'r rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau, yn enwedig yn Lloegr, roedd cydlynu ffurfiol a rheoli ar lefel isranbarthol yn brofiad newydd. Serch hynny, mae ein hasesiad yw bod y strwythur hwn yn gyffredinol wedi gweithio'n dda ar gyfer yr etholiadau hyn, ac mae Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn wedi dysgu o'r profiad etholiadau 2011 i wella rheoli a chydlynu ar gyfer etholiadau Tachwedd 2012.

5.66 Mewn dwy ardal heddlu, roedd newidiadau annisgwyl ym mhersonél rheoli awdurdod lleol yn golygu nad oedd y PARO bellach yn gallu cyflawni'r rôl. Yn y ddau achos, gweithredodd y PARO o awdurdod gwahanol i'r tîm gwasanaethau etholiadol PARO. Er fod y newidiadau yn sicr o olygu rhywfaint o risg i gyflwyniad llwyddiannus etholiadau yn yr ardaloedd hynny, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith negyddol sylweddol ar weinyddu'r etholiadau y gellir ei briodoli, yn unig neu yn rhannol, i'r newid yn y strwythur rheoli. Er efallai na fydd yn bosibl i leihau'n gyfan gwbl y posibilrwydd o newidiadau o'r fath, serch hynny mae'n risg sydd angen ei adolygu a'i reoli'n fwy gweithredol gan Lywodraeth y DU ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol.

5.67 Ar y cyfan, yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, ein hasesiad yw bod agweddau gweinyddol yr etholiadau hyn wedi rhedeg yn dda. Mae ymchwil a wnaed gyda'r cyhoedd hefyd yn dangos lefelau uchel o foddhad gyda gweinyddiad yr etholiadau. O ystyried y pryderon proffil uchel am y ddarpariaeth o wybodaeth am yr etholiadau a'r ymgeiswyr a drafodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig ailadrodd nad oedd Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu eu hunain yn gyfrifol am yr agweddau hynny ar yr etholiadau.

5.68 Serch hynny, rydym wedi nodi dwy agwedd benodol o weinyddu'r etholiadau y mae angen eu hadolygu yn fanylach er mwyn nodi gwelliannau ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae angen i bleidleiswyr drwy'r post gael y cyfarwyddiadau cywir ar gyfer marcio eu papurau pleidleisio. Nid yw wedi bod yn bosibl i ni asesu'r effaith benodol ar bleidleiswyr o'r penderfyniad gan rai Swyddogion Canlyniadau Lleol i anfon cyfarwyddiadau pleidleiswyr drwy'r post a oedd yn cyfeirio at brosesau'r cyntaf-i'r-felin a phrosesau pleidlais atodol. Serch hynny, credwn ei bod yn rhesymol tybio y byddai'r dull hwn wedi achosi dryswch i o leiaf rhai pleidleiswyr.

5.69 Yn ail, mae angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu adolygu a gwerthuso eu cynlluniau ar gyfer rheoli dilysu a chyfrif pleidleisiau er mwyn dynodi gwelliannau effeithlonrwydd cyn yr etholiadau CHTh nesaf. Er gwaethaf y nifer isel hanesyddol a bleidleisiodd yn yr etholiadau ym mis Tachwedd, cymerodd sawl amser sylweddol hirach na'r disgwyl i'w gwblhau.

5.70 Gall y nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau Mai 2016 fod yn uwch nag ym mis Tachwedd 2012, yn enwedig os yw'r etholiadau CHTh yn cael eu cyfuno gydag etholiadau eraill a drefnwyd, a bydd gweinyddiaeth y cyfrif yn fwy cymhleth o ganlyniad i'r cyfuniad. Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Lleol sicrhau bod eu prosesau cyfrif

mor gywir ac effeithlon â phosibl, er mwyn lleihau'r risg o ganfyddiadau negyddol am ansawdd a chymhwysedd gweinyddiaeth etholiadol yn gyffredinol.

5.71 Cymerodd y Swyddfa Gartref rai camau cadarnhaol i gydlynu'r etholiadau. Mae'n fesur synhwyrol gofyn am farn arbenigwyr yn y gymuned etholiadol wrth wneud penderfyniadau polisi, yn enwedig lle nad yw swyddogion yn brofiadol yng nghyfraith ac arferion etholiadau. Cafodd camau eraill, gan gynnwys seminarau Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu, dderbyniad da yn gyffredinol ond byddent wedi elwa o ddealltwriaeth gliriach o'r amserlenni cynllunio o fewn y rhai yr oedd y Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu a'u timau'n gweithredu er mwyn sicrhau'r defnyddioldeb mwyaf.

Argymhelliad 6: Sicrhau rheolaeth a chydlynu effeithiol ar gyfer etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Llywodraeth y DU adolygu ei dull o gefnogi rheoli a chydlynu etholiadau CHTh i'r dyfodol, gan dynnu ar y gwersi a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac unrhyw adborth arall gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu (PAROs).

Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau, cymdeithasau proffesiynol, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer rheoli a chydlynu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Mai 2016 sy'n cynnwys:

- Penodi Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu.
- Trefniadau wrth gefn ar gyfer ardaloedd lle mae Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu penodedig yn gadael yr awdurdod lle buont yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau.
- Cymorth a gwybodaeth i Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu.

Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi ei chynllun ar gyfer rheoli a chydlynu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau Mai 2016 **erbyn mis Mai 2014**, yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein Hargymhelliad 1 uchod ar gyfer gwella deddfwriaeth cynllunio a rheoli ar gyfer yr etholiadau CHTh Mai 2016.

Argymhelliad 7: Gwella gweinyddu etholiadau CHTh i'r dyfodol

Dylai Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau eu bod yn adolygu ac yn gwerthuso eu dull o gynllunio a chyflwyno etholiadau CHTh 2012, er mwyn nodi beth weithiodd yn dda yn ogystal â meysydd lle gellid gwella perfformiad.

Bydd y Comisiwn yn adolygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r cyfrif mewn etholiadau mawr, gyda golwg ar nodi yn fwy manwl gywir yr adnoddau sydd eu hangen a deall sut mae gwariant yn perthnasu i'r gweithgareddau manwl a gynhaliwyd.

Rydym hefyd wedi dynodi'n flaenorol yr angen i adolygu sut y dylai ein canllawiau a fframwaith safonau perfformiad weithredu ar gyfer etholiadau lle mae deiliaid swyddi statudol â grym i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau Lleol.

Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ganllawiau diwygiedig, safonau perfformiad a deunyddiau ategol ar gyfer etholiadau CHTh 2016 **heb fod yn hwyrach na Rhagfyr 2015.**

6 Dim dylanwad gormodol

6.1 Ni ddylai fod unrhyw ddylanwad gormodol yn y ffordd y mae ein system gyllid etholiadol a gwleidyddol yn gweithio. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithasau Prif Swyddogion yr Heddlu y DU (ACPO ac ACPOS) i gynhyrchu canllawiau ar gyfer heddluoedd a Swyddogion Canlyniadau (ROs) ar sut i ganfod ac atal camymddygiad etholiadol. Rydym hefyd yn gosod safonau perfformiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gadarnhau bod eu cynlluniau etholiad yn manylu ar y prosesau sydd ganddynt ar waith i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai ddynodi materion uniondeb posibl, a pha gamau sydd i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau a allai godi. Lle mae honiadau o gamymddygiad wedi cael eu dwyn i'n sylw rydym yn adrodd ar y rhain i'r heddlu er mwyn iddynt ymchwilio iddynt.

Honiadau o gamymddygiad etholiadol yn etholiadau Tachwedd 2012

6.2 Trwy Ganolfan Genedlaethol Cyd-drefnu Gwybodaeth Heddlu ACPO, rydym wedi coladu adroddiadau gan bob gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr sy'n ymwneud â honiadau o gamymddygiad etholiadol yn etholiadau Tachwedd 2012. Efallai y daw honiadau pellach ymlaen ond fel yr oedd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2012, rydym yn ymwybodol o 21 o achosion o gamymddygiad etholiadol honedig sy'n ymwneud ag etholiadau CHTh 15 Tachwedd. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg hyd yma o unrhyw ymdrechion ar raddfa fawr i ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw etholiad CHTh trwy dwyll etholiadol.

6.3 Roedd y mwyafrif llethol o achosion a adroddwyd amdanynt i'r heddlu (18) yn ymwneud â throseddau ymgyrchu posibl neu droseddau enwebu, gan gynnwys datganiadau ffug honedig am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeiswyr, deunydd etholiad yn methu â chynnwys yr argraffnod cywir, ymgeiswyr anghymwys, a honiadau ynghylch dosbarthiad deunydd etholiad. Mae un achos arall yn ymwneud â chofrestru ffug honedig a datganiad ffug cysylltiedig o gymhwyster i sefyll ar y sail breswyl, ac mae'r achos hwn yn dal i fod dan ymchwiliad.

6.4 Ar adeg llunio fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, rydym yn ymwybodol bod 16 o achosion wedi cael eu datrys. Mae hyn yn cynnwys naw achos lle penderfynodd ymchwiliad gan yr heddlu nad oedd unrhyw drosedd wedi ei chyflawni, dau achos lle nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi ymchwiliad pellach, ac un achos nad oedd mewn gwirionedd yn drosedd etholiadol. Cafodd pedwar o achosion pellach eu datrys yn lleol lle rhoddwyd cyngor anffurfiol gan yr heddlu, ac mae pum achos yn parhau o dan ymchwiliad neu yn aros am gyngor erlyniad.

6.5 Rydym wedi olrhain yr honiadau hyn ac eraill o gamymddygiad etholiadol yr adroddwyd arnynt yn ystod 2012, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi data ar ganlyniad ymchwiliadau'r heddlu ar ein gwefan erbyn canol mis Mai 2013.

Canfyddiadau'r cyhoedd o dwyll etholiadol

6.6 Fel rhan o'n hymchwil barn gyhoeddus, gofynnwyd i bobl faint y teimlant y maent yn ei ddeall am dwyll etholiadol yn y DU. Yn unol ag ymchwil yn y gorffennol yn fras, dywedodd 50% eu bod yn deall twyll etholiadol (44% ym mis Mai 2012), gyda 10% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn deall 'llawer' a 40% 'ychydig'.

6.7 Dywedodd tri chwarter y bobl (76%) eu bod yn credu fod pleidleisio'n gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamdriniaeth, gyda 15% yn ei ddisgrifio fel 'diogel iawn' tra bod 10% yn meddwl bod y broses yn 'anniogel' (ac 11% yn dweud nad yw'n 'ddiogel nac yn anniogel'). Roedd y ffigyrau hyn yn debyg i'r rhai yr adroddwyd arnynt yn dilyn etholiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

6.8 Credai ychydig dros chwarter y bobl a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil (27%) bod twyll etholiadol wedi digwydd yn etholiadau Tachwedd 15, gyda 24% yn dweud ei fod wedi digwydd 'ychydig' a 3% yn dweud 'llawer'. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r hyn a adroddwyd yn dilyn etholiadau mis Mai 2012, pan ddywedodd 34% o'r ymatebwyr eu bod yn meddwl twyll etholiadol wedi digwydd.

6.9 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rhai yn Lloegr o feddwl nad oedd unrhyw dwyll wedi digwydd (19% o ymatebwyr yng Nghymru o'i gymharu â 13% yn Lloegr).

6.10 Yn unol ag ymchwil yn y gorffennol, roedd yr holl atebwyr yn meddwl fod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn fwy diogel na phleidleisio drwy'r post (85% o'r ymatebwyr yn teimlo bod pleidleisio mewn gorsaf pleidleisio yn ddiogel, o'i gymharu â 57% a oedd yn teimlo bod pleidleisio drwy'r post yn ddiogel).

6.11 O'r ymgeiswyr a ymatebodd i'n harolwg, dywedodd 14% eu bod yn credu bod llawer o dwyll etholiadol wedi digwydd (5%) neu ychydig o dwyll etholiadol wedi digwydd (9%). Fodd bynnag, dywedodd dros draean (35%) o ymgeiswyr a ymatebodd nad oeddent yn gwybod (o'i gymharu â 24% o'r cyhoedd) ac yr oedd y gyfran a ddywedodd ei fod prin wedi digwydd neu ddim o gwbl yn debyg ymysg ymgeiswyr a'r cyhoedd fel ei gilydd (50% a 49% yn y drefn honno).

6.12 Gofynasom yn uniongyrchol i'r ymgeiswyr yn ein harolwg p'un a oeddent wedi gweld unrhyw beth y credent oedd yn dwyll etholiadol yn yr etholiadau hyn. Yn gyffredinol dywedodd 3% o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld twyll, gydag ychydig dros 2% (17 o bobl) yn dweud eu bod wedi adrodd amdano i'r Swyddog Canlyniadau Lleol, yr heddlu neu'r ddau, a'r gweddill (saith o bobl) yn dweud nad oeddent wedi adrodd amdano.

Dim dylanwad gormodol yn etholiadau Tachwedd 2012: casgliadau

6.13 Er gwaethaf ymdrechion rhagweithiol gan Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu i leihau'r risg o gamymddygiad etholiadol, mae yna gyferbyniad pryderus yn parhau rhwng y lefelau isel o achosion a gofnodwyd o gamymddygiad etholiadol honedig, a lefelau uwch o bryder am dwyll etholiadol a fynegwyd gan rai pobl. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod mai ychydig iawn o honiadau sydd wedi cael eu cofnodi mewn perthynas ag etholiadau CHTh Tachwedd 2012.

6.14 Mae'r Comisiwn wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o wendidau posibl o fewn y system bleidleisio a phrosesau presennol, a fydd yn anelu at sicrhau consensws am y cydbwysedd gorau rhwng sicrhau uniondeb a hygyrchedd prosesau etholiadol yn y DU. Yn ogystal â cheisio barn gan Swyddogion Canlyniadau, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr, yr heddlu ac awdurdodau erlyn, rydym wedi comisiynu ymchwil ansoddol gyda phleidleiswyr i archwilio'n fwy manwl y rhesymau pam y maent yn credu bod twyll etholiadol yn digwydd.

6.15 Bydd ein hadolygiad yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu arferion i sicrhau hyder yn uniondeb etholiadau yn y DU. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adolygiad hwn mewn pryd i ddeddfwriaeth gael ei dwyn ymlaen yn ystod oes Senedd y DU os oes angen.

6.16 Rydym hefyd wedi cytuno ar god ymddygiad newydd ar gyfer ymgyrchwyr gyda'r pleidiau'n cael eu cynrychioli ar Banel Pleidiau Gwleidyddol Senedd y DU. Mae'r cod yn rhoi canllaw i ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a heddluoedd i'r hyn yw, ac nad yw, yn cael ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoddd pleidleisio ac yn y gymuned yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at y diwrnod pleidleisio i. Mae'n cynnwys ceisiadau am bleidlais bost a thrwy ddirprwy, ymdrin â pheccynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd, a gweithgareddau ymgyrchu o amgylch gorsafoddd pleidleisio.

6.17 Cafodd y cod ei anfon i'r holl pleidiau gwleidyddol cofrestredig ym Mhrydain Fawr, a bydd Swyddogion Canlyniadau yn tynnu sylw'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau sy'n ymladd etholiadau o fis Mai 2013 ymlaen at y ddogfen. Bydd unrhyw bryderon bod y cod wedi ei dorri yn cael eu codi gyda'r blaid neu ymgyrchydd perthnasol os yw'n briodol, a byddwn yn cytuno ar gamau priodol i unioni'r toriad neu i'w atal rhag digwydd eto. Byddwn yn cyhoeddi canlyniad unrhyw ymddygiad torri o'r fath yn ein hadroddiadau statudol ar gyfer etholiadau i'r dyfodol.

Atodiad A: Methodoleg ymchwil

Barn y cyhoedd

Cyfwelodd ICM sampl cynrychioliadol o 2,005 o bleidleiswyr a'r rhai na wnaethant bleidleisio yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Llundain), a samplwyd 500 ym Mryste a Hartlepool lle'r oedd etholiad maerol lleol a refferendwm yn y drefn honno hefyd yn cael eu cynnal. Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn rhwng 16 a 28 Tachwedd 2012. Mae'r cyfweiliadau'n cael eu dosbarthu fel a ganlyn:

- 1,001 yn Lloegr,
- 504 yng Nghymru,
- 250 ym Mryste,
- 250 yn Hartlepool.

Roedd proffil y sampl y cysylltwyd â hwy'n gynrychioliadol o etholwyr cymwys oed 18+ gyda chwotâu wedi'u gosod yn ôl pleidleisio / heb bleidleisio, oedran, rhywedd a rhanbarth. Cafodd y data ei bwysoli yn ôl ardaloedd cynnal etholiad, oed, rhywedd, dosbarth cymdeithasol a statws gwaith.

Yn seiliedig ar y sampl llawn o 2,005 a chan dybio cyfwng hyder 95%, tybir bod y data'n gywir o fewn + / -2.2%.

Oni nodir yn wahanol, mae'r canlyniadau yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda rhai mewn ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a oedd yn cynnal etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn unig (ac eithrio Bryste a Hartlepool).

Mae'r cymariaethau a wneir rhwng yr etholiadau a'r rhai a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ddangosol, a dylid eu trin yn ofalus.

Ymchwil olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd

Comisiynwyd TNS BMRB i gynnal ymchwil i werthuso ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn ymysg pleidleiswyr cymwys, gydag amcanion allweddol o fesur ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a chludo allan neges yr ymgyrch. Cafod yr holl gyfweled ei wneud ar sail wyneb-yn-wyneb, yn y cartref gan ddefnyddio TNS CAPI* GB Omnibus. Cafodd y rhai yng Nghymru gyfle i gwblhau'r arolwg yn Gymraeg.

Cynhaliwyd tair ton o ymchwil yn Lloegr (ac eithrio Llundain) a Chymru i werthuso'r ymgyrch:

- Cyn-don o flaen unrhyw weithgaredd (gan gynnwys cyn ymgyrch Llywodraeth y DU) (21 Medi - 3 Hydref '12);

- Canol-don tuag at ddiwedd yr ymgyrch, ond yn union cyn yr etholiadau (7-14 Tachwedd '12), ac
- Ôl-don yn syth ar ôl yr etholiadau (21 Tachwedd - 6 Rhagfyr '12).

Ym mhob ton gofynnwyd cwestiynau i sampl cynrychioliadol o oedolion 18 +, a oedd yn gymwys i bleidleisio:

- Lloegr (heb gynnwys Llundain): Cyn = 713; Canol = 691; Ar ôl = 740
- Cymru: Cyn = 211; Canol = 226; Ar ôl = 174

Data Etholiadol

Yr Athro Colin Rallings a Michael Thrasher o'r Ganolfan Etholiadau, Prifysgol Plymouth, a gasglodd a choladu'r data gan Swyddogion Canlyniadau ar ran y Comisiwn. Roedd hyn yn cynnwys data'n ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phleidleisiau a wrthodwyd. Cawsom ddata o holl ardaloedd yr heddlu a'r awdurdodau lleol oddi mewn iddynt yng Nghymru a Lloegr.

Arolwg o ymgeiswyr

Anfonasom arolwg drwy'r post i bob un o'r 191 o ymgeiswyr⁶² yn ystod yr wythnos ar ôl yr etholiadau. Mae'r ffigyrau a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y 96 o ymatebion a dderbyniwyd erbyn 18 Rhagfyr, ac ni ddylid eu hystyried yn gynrychioliadol o farn yr holl ymgeiswyr.

⁶² Mewn rhai achosion, lle nad oedd cyfeiriad yr ymgeisydd ar gael, ysgrifenasom at yr asiant etholiad i ofyn a fyddent yn pasio'r arolwg ymlaen.

Atodiad B: Cyfuniad gydag Etholiad Cyffredinol Cymru Mai 2016

Yn ein barn ni, mae rhai risgiau sylweddol sy'n gynhenid yn y cyfuniad arbennig hwn o etholiadau, y bydd angen eu lliniaru er mwyn i'r ddwy set o etholiadau gael eu rhedeg yn dda.

- **Bydd dwy system etholiadol wahanol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys tri dull o bleidleisio, a thri phapur pleidleisio.** Mae'r etholiad CHTh yn defnyddio'r system etholiadol pleidlais atodol, gyda dau ddewis ar un papur pleidleisio. Mae etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn defnyddio system etholiadol Aelod Ychwanegol, gydag etholiad etholaeth yn defnyddio system y cyntaf-i'r-felin yn ogystal ag etholiad rhanbarthol ar bapur pleidleisio ar wahân lle mae etholwyr yn pleidleisio dros restr plaid. Bydd gwybodaeth glir, wedi'i theilwra i bleidleiswyr ar sut i fwrw eu pleidlais, yn hanfodol er mwyn ceisio lleihau dryswch.
- **Mae'r ardaloedd pleidleisio ar gyfer y ddwy set o etholiadau yn wahanol.** Yng Nghymru, mae'r etholiadau CHTh yn seiliedig ar 22 o ardaloedd awdurdod lleol o fewn pedair ardal yr heddlu, tra bod etholiad cyffredinol Cynulliad yn seiliedig ar 40 o etholaethau'r Cynulliad o fewn pum rhanbarth etholiadol. Ar ben hynny, mae nifer o etholaethau'r Cynulliad yn rhychwantu ffiniau awdurdod lleol. Er bod dwy ardal heddlu yn cyd-fynd â dau ranbarth y Cynulliad⁶³ mae ardaloedd heddlu De Cymru a Gwent yn dod o dan dri rhanbarth etholiadol y Cynulliad. Gall y gwahaniaethau hyn achosi dryswch i bleidleiswyr a bydd hefyd yn cyflwyno heriau i bleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn y ddwy set o etholiadau, ac i'r rhai sy'n eu gweinyddu.
- **Mae Swyddogion Canlyniadau Ardal Heddlu yn cael eu penodi gan Lywodraeth y DU tra bod y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol y Cynulliad yn cael eu penodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.** O ganlyniad, gall unigolion gwahanol gael eu penodi i ymdrin ag ardaloedd cyffiniol etholiadol Gogledd Cymru a Dyfed Powys/ Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn ardaloedd heddlu De Cymru a Gwent a thri rhanbarth De Cymru'r Cynulliad, bydd dau Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ond tri o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol (RRO).

Byddai'r Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu â phŵer cyfarwyddo ar gael iddynt i sicrhau cysondeb ymarfer ar draws yr ardal heddlu, ond ni fyddai'r RRO yn gallu cyfarwyddo ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Bydd hyn yn risg benodol i gysondeb o ran arfer yn ardaloedd yr heddlu De Cymru a Gwent a thri rhanbarth De Cymru'r Cynulliad. Mewn ardaloedd eraill mae risg o gyfarwyddiadau ac arweiniad sy'n

⁶³ Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad yn cynnwys yr un ardal ddaearyddol ag ardal heddlu Dyfed Powys ac mae Gogledd Cymru yn cynnwys yr un ardal ddaearyddol yn y ddau etholiad.

gwrthdaro rhwng y ddwy set o etholiadau, oni bai bod y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu a'r RRO yr un person ym mhob achos.

- **Bydd angen ystyried amseriad y cyfrif ym mhob etholiad ochr yn ochr â lefelau disgwylidig y nifer sy'n pleidleisio.** Bydd angen i wirio'r tri phapur pleidleisio ddigwydd cyn y gall canlyniadau eraill gael eu datgan. Mae hyn yn debygol o gymryd cryn amser, yn enwedig os yw'r nifer sy'n pleidleisio yn etholiad cyffredinol y Cynulliad yn gyson ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol blaenorol (tua 40%). Gall etholiad y Cynulliad gael yr effaith o gynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio yn yr etholiadau CHTh.

Rydym wedi argymhell yn flaenorol bod rhaid gwella'r broses gynllunio'n genedlaethol er mwyn osgoi unrhyw anawsterau gydag amseriad cyfrif yr etholiad tebyg i'r hyn a gafwyd cyn etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2011. Rydym wedi argymhell mai'r sefyllfa ddiodyn ddylai fod bod Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau ym mhob un o bum rhanbarth etholiadol y Cynulliad yn cyfrif pleidleisiau ar yr un pryd.

Atodiad C: fymhleidlaisi.co.uk

Dengys y llun isod sut y gall ymwelwyr â'n tudalen hafan fymhleidlaisi gysylltu â'r wefan ymgeiswyr (www.choosemypcc.org.uk).

The screenshot shows the homepage of the Electoral Commission's website for Police and Crime Commissioner (PCC) elections. At the top, there is a yellow banner with a link to the cookie policy. Below this is a dark blue navigation bar with the text 'About my vote' and links for 'Cymraeg', 'Languages', 'About', 'Accessibility', 'Contact', and 'FAQ'. A search bar is located on the right side of this bar. Below the navigation bar is a white bar with four buttons: 'Register to vote', 'Police and Crime Commissioner elections' (highlighted with a red dashed border), 'How do I vote?', and 'What can I vote for?'. The 'The Electoral Commission' logo is on the right. The main content area features a pink header for 'POLICE AND CRIME COMMISSIONER ELECTIONS' with the date 'Thursday 15 November'. Below this is a checkered pattern with a small pink icon. To the right is a 'Your local area' section with a search bar for a postcode (example: 'eg BH88EJ') and a 'Go' button. Below the search bar is a link for 'Search for local authority' and a note about terms and conditions. The bottom section contains four columns of information: 'Register to Vote' (with a clipboard icon), 'Police and Crime Commissioner elections - candidates in your area*' (with an information icon), 'How do I vote?' (with a hand icon), and 'Am I already registered to vote in the UK?' (with a question mark icon). A fifth column on the right contains 'Electoral information' and 'Your Electoral Registration Office' with an upward arrow icon. The 'Latest News' section is at the bottom right.

[Read our policy about how we use cookies and your personal information](#)

About my vote Cymraeg Languages About Accessibility Contact FAQ Search

Register to vote **Police and Crime Commissioner elections** How do I vote? What can I vote for? The Electoral Commission

POLICE AND CRIME COMMISSIONER ELECTIONS
Thursday 15 November

Your local area
Find information for the area where you live

Enter your postcode

Unsure of postcode? [Search for local authority](#)

* By selecting 'Go' you accept our [terms and conditions](#)

Register to Vote
It's easier than you think
You need to be **registered** to vote in UK elections and referendums.

Police and Crime Commissioner elections - candidates in your area*
The first PCC elections are on Thursday 15 November. Find out more about candidates standing for election in your area.

How do I vote?
You need to be on the electoral register to vote in UK elections and referendums. This section gives you information about how to register and vote.
[Postal vote application](#)
[Proxy vote application](#)

Am I already registered to vote in the UK?
The electoral register is held by your local electoral registration office – they can tell you if you're already registered. Enter your postcode on this site to find out who to contact.

Electoral information
There are currently no elections planned in your area.

Your Electoral Registration Office
To view your Electoral Registration Office details, enter your postcode above

Latest News
Some of the latest news in the world of UK elections.

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Ty Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn 029 2034 6800
Ffacs 029 2034 6805

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle mae etholiadau a refferenda yn seiliedig ar ein hegwyddorion o ymddiriedaeth, cyfranogiad, a heb ddylanwad gormodol.

Rhoi pleidleiswyr yn gyntaf